Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

equalityhumanrights.com

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

Cod Ymarfer Diwygiedig:
Sefydliadau Crefft, Cyrff Cymwysterau a Chyrff Cymwysterau Cyffredinol

Deddf Gwahaniaeth ar sail Anabledd 1995 Cod Ymarfer Diwygiedig:

Sefydliadau Crefft, Cyrff Cymwysterau a Chyrff Cymwysterau Cyffredinol

Cynnwys

1. Cyflwyniad tudalen **5**

Diben Rhan 2 a Phennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf 1.1–1.2 5
Diben y Cod 1.3–1.6 5
Statws y Cod 1.7 6
Sut i ddefnyddio'r Cod 1.8–1.12 6
Enghreifftiau yn y Cod 1.13–1.14 6
Cyfeiriadau yn y Cod 1.15 7
Newidiadau i'r ddeddfwriaeth 1.16 7
Rhagor o wybodaeth 1.17 7

2. Sut y gellir osgoi gwahaniaethu? **8**

Cyflwyniad 2.1–2.4 8
Deall dimensiwn cymdeithasol anabledd 2.5 8
Cydnabod natur amrywiol anabledd 2.6 9
Osgoi rhagdybiaethau 2.7 9
Dod i wybod am anghenion pobl anabl 2.8–2.10 9
Ceisio cyngor arbenigol 2.11 10
Blaengynllunio 2.12–2.13 10
Gweithredu polisïau ac arferion gwrthwahaniaethol 2.14 11
Camau a argymhellir ar gyfer pob sefydliad crefft, corff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol 2.15 11
Camau ychwanegol a argymhellir ar gyfer undebau llafur 2.16–2.17 12
Camau ychwanegol a argymhellir ar gyfer cyrff cymwysterau 2.18 12
Camau ychwanegol a argymhellir ar gyfer cyrff cymwysterau cyffredinol 2.19 13
Polisïau a gweithdrefnau archwilio 2.20–2.21 13
Monitro 2.22–2.29 14
Hyrwyddo cydraddoldeb 2.30–2.31 16
Datrys anghydfodau 2.32–2.34 16

3. Gwahaniaethu gan sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol – trosolwg **18**

Cyflwyniad 3.1 18
Pwy sydd â hawliau o dan y Ddeddf? 3.2–3.7 18
Pwy sydd â rhwymedigaethau o dan y Ddeddf? 3.8–3.14 19
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am wahaniaethu gan sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol? 3.15–3.22 20
Beth arall sy'n anghyfreithlon o dan ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf? 3.23–3.28 22

Pwy sy'n atebol am weithredoedd anghyfreithlon? 3.29–3.34 23
Gorfodi hawliau o dan Ran 2 o'r Ddeddf 3.35 25
Gorfodi hawliau o dan Ran 4 o'r Ddeddf (mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol) 3.36 25

4. Beth yw gwahaniaethu ac aflonyddu? 26
Cyflwyniad 4.1–4.3 26
Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'wahaniaethu uniongyrchol'? 4.4–4.21 26
Methiant i wneud addasiadau rhesymol – perthynas â gwahaniaethu 4.22–4.24 31
Beth yw gwahaniaethu ar sail anabledd? 4.25–4.30 31
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am erledigaeth? 4.31–4.34 33
Sut mae cymharu'r gwahanol fathau o wahaniaethu yn ymarferol? 4.35 33
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am aflonyddu? 4.36–4.37 35
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am rwymedigaethau statudol 4.38 36
Pa dystiolaeth sydd ei hangen i brofi bod gwahaniaethu neu aflonyddu wedi digwydd? 4.39–4.43 36

5. Beth yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol? 38
Cyflwyniad 5.1 38
Pryd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn codi? 5.2–5.3 38
Pa bobl anabl y mae'r ddyletswydd yn eu diogelu 5.4–5.5 39
Beth yw 'darpariaethau, meini prawf ac arferion'? 5.6–5.7 39
Beth yw 'nodwedd ffisegol'? 5.8–5.9 40
Pa anfanteision sy'n peri bod dyletswydd? 5.10 41
A yw gwybodaeth am yr anabledd yn ffactor? 5.11 41
Pa addasiadau y bydd angen eu gwneud o bosibl? 5.12–5.13 41
Pryd y mae'n 'rhesymol' bod yn rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol wneud addasiadau? 5.14–5.25 43
A ellid byth gyfiawnhau methiant i wneud addasiad rhesymol? 5.26–5.27 46

6. Cyfiawnhad 47
Cyflwyniad 6.1 47
Pryd y mae'r Ddeddf yn caniatáu cyfiawnhad? 6.2–6.7 47
A all pryderon o ran iechyd a diogelwch gyfiawnhau triniaeth lai ffafriol 6.8–6.15 48
A all gwybodaeth feddygol gyfiawnhau triniaeth lai ffafriol? 6.16–6.18 50

7. Gwahaniaethu gan sefydliadau crefft 52
Cyflwyniad 7.1–7.2 52
Sefydliadau crefft fel cyrff cymwysterau 7.3–7.4 52
Ymaelodi 7.5–7.14 52
Buddiannau aelodaeth 7.15–7.21 54
Amrywio aelodaeth a'i thynnu'n ôl 7.22–7.29 56
Gwybodaeth am anabledd 7.30–7.36 58
Rôl undebau llafur 7.37–7.38 59

8. Gwahaniaethu gan gyrff cymwysterau 61
Cyflwyniad 8.1–8.4 61
Beth yw cymhwyster proffesiynol neu grefft 8.5–8.8 61
Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol? 8.9–8.10 62
Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd? 8.11–8.14 63
Ym mha ffordd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i gyrff cymwysterau? 8.15–8.26 63
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am safonau cymhwysedd? 8.27–8.41 66

9. Gwahaniaethu gan gyrff cymwysterau cyffredinol 70
Cyflwyniad 9.1 70
Beth yw corff cymwysterau cyffredinol? 9.2–9.7 70
Cyrff cymwysterau cyffredinol a rheoleiddwyr 9.8–9.10 71
Cyrff cymwysterau cyffredinol a chanolfannau arholi 9.11–9.14 71
Crynodeb o ddyletswyddau 9.15 72
Cwmpas dyletswyddau 9.16–9.18 72
Atebolrwydd am weithredoedd rhywrai eraill 9.19 72
Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol? 9.20–9.28 73
Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd? 9.29–9.36 74
Aflonyddu ac erledigaeth 9.37 76
Ym mha ffordd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i gyrff cymwysterau cyffredinol? 9.38–9.56 76
Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am safonau cymhwysedd? 9.57–9.82 80

10. Gwneud addasiadau rhesymol i safleoedd – ystyriaethau cyfreithiol 86
Cyflwyniad 10.1–10.2 86
Beth am yr angen i gael caniatâd statudol ar gyfer rhai newidiadau i adeilad? 10.3–10.5 86
Rheoliadau Adeiladu a chynllun adeiladu 10.6–10.10 87
Beth os bydd rhwymedigaeth gyfrwymol ac eithrio prydles yn atal adeilad rhag cael ei newid? 10.11 87
Beth sy'n digwydd os dywed prydles na ellir gwneud newidiadau penodol i safle? 10.12–10.13 88
Beth sy'n digwydd os bydd gan brydleswr 'uwch' brydleswr 10.14–10.15 88
Sut y mae trefniadau ar gyfer cael caniatâd yn gweithio? 10.16–10.20 88
Pryd y mae'n afresymol i brydleswr atal caniatâd? 10.21–10.24 89
Pa amodau a fyddai'n rhesymol i brydleswr eu gosod wrth roi caniatâd? 10.25–10.26 90
Beth sy'n digwydd os bydd prydleswr yn gwrthod rhoi caniatâd neu'n gosod amodau ar y caniatâd? 10.27–10.30 91
Cymharu â'r weithdrefn ar gyfer cael caniatâd o dan Ran 3 10.31 91

11. Darpariaethau perthnasol eraill 93
Cyflwyniad 11.1 93
Datrys anghydfodau o dan Ran 2 o'r Ddeddf 11.2–11.9 93
Darpariaethau eraill ar gyfer Rhan 2 o'r Ddeddf 11.10–11.16 94
Datrys anghydfodau o dan Bennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf 11.17–11.21 95
Cymodi 11.22–11.23 96
Gwneud cais o dan Bennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf 11.24–11.25 96
Gorfodi darpariaethau penodol o Ran 2 o'r Ddeddf 11.26–11.28 96

Atodiad A: Ystyr anabledd 98

Atodiad B: Rhagor o wybodaeth 101

1. Cyflwyniad

Diben Rhan 2 a Phennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf

1.1 O dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (y Ddeddf) cyflwynwyd mesurau i atal gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl mewn cyflogaeth neu wrth iddynt geisio cyflogaeth. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd 2002 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a rheoliadau a wnaed o dan y ddwy Ddeddf) yn seiliedig ar egwyddorion tebyg na ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl o ran cael cyfleoedd addysg ac na ddylid gwahaniaethu yn eu herbyn yn ystod eu cwrs addysg yn yr ysgol, y coleg a'r brifysgol. Efallai y bydd gallu rhywun i ymaelodi mewn sefydliad crefft neu fanteisio ar ei wasanaethau aelodaeth yn effeithio ar ei gyfle i gael swydd, datblygu yn ei swydd neu gadw ei swydd. Gall ei allu i gael cymhwyster cyffredinol, proffesiynol neu grefft hefyd effeithio ar ragolygon cyflogaeth rhywun hefyd.

1.2 Am y rheswm hwn y mae Rhan 2, yn ogystal â gosod dyletswyddau ar gyflogwyr sydd â'r nod o atal gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl, yn nodi nifer o ddyletswyddau y mae'n rhaid i sefydliadau a chyrff crefft sy'n dyfarnu cymwysterau proffesiynol neu grefft gydymffurfio â hwy at yr un diben, ac mae darpariaethau newydd o dan Bennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf yn nodi dyletswyddau tebyg mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol. Mae'r estyniad i Ran 2 i gwmpasu cyrff cymwysterau o 1 Hydref 2004, a'r estyniad i Ran 4 i gwmpasu cyrff cymwysterau cyffredinol o fis Medi 2007, yn newid yn y gyfraith.

Diben y Cod

1.3 Mae'r Cod Ymarfer hwn (y Cod) yn rhoi canllawiau ymarferol ynglŷn â sut i atal sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol rhag gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Mae'n disgrifio'r dyletswyddau ar sefydliadau a chyrff o'r fath yn hyn o beth. Mae'r Cod yn helpu pobl anabl i ddeall y gyfraith a'r hyn y gallant ei wneud os teimlant fod rhywun wedi gwahaniaethu yn eu herbyn. Drwy annog arferion da, mae'r Cod yn helpu sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol i osgoi cwynion yn eu herbyn ac i weithio tuag at ddileu gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl.

1.4 Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau ar y gyfraith gyda'r nod o helpu cyfreithwyr pan fyddant yn cynghori eu cleientiaid, a helpu llysoedd a thribiwnlysoedd i ddehongli cysyniadau cyfreithiol newydd. Mae'r Cod yn esbonio'r ffordd y mae darpariaethau statudol technegol yn gweithredu a'u heffaith – y daeth rhai ohonynt i rym ar 1 Hydref 2004 yn unig (ar gyfer cyrff cymwysterau) a mis Medi 2007 (ar gyfer cyrff cymwysterau cyffredinol), ac y mae llawer ohonynt yn cael effaith gyfreithiol gymhleth. Oherwydd hyn, mae'r Cod o anghenraid yn gynhwysfawr ac yn fanwl.

1.5 [a 14 Deddf Cydraddoldeb 2006] Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi paratoi ac wedi cyhoeddi'r Cod diwygiedig hwn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 ar gais Arglwydd y Sêl Gyfrin. Mae'n gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae Cod tebyg ond gwahanol yn gymwys i Ogledd Iwerddon.

1.6 Fel cyflogwyr eu hunain, mae dyletswyddau ar sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol o dan Ran 2 mewn perthynas â phobl anabl y maent yn eu cyflogi, neu sy'n gwneud cais iddynt am gyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw'r materion hyn

yn cael eu hystyried yn y Cod – sy'n ymwneud â dyletswyddau sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol wrth iddynt weithredu yn y rhinwedd hwnnw yn unig. Rhoddir canllawiau ar y ffordd y cymhwysir y Ddeddf at gyflogwyr mewn cod ymarfer ar wahân a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (gweler Atodiad B am fanylion). Mae'n bosibl bod nifer o unigolion, sefydliadau a chyrff yn ymwneud â'r materion ar wahanol gamau o ran y dyletswyddau cyfreithiol a ddisgrifir yn y Cod hwn, yn enwedig o ran cyrff cymwysterau cyffredinol, ac mae'r Cod yn ceisio esbonio cyfrifoldebau pob parti o dan y dyletswyddau hyn.

Statws y Cod

1.7 [a 15(4) Deddf Cydraddoldeb 2006] Nid yw'r Cod yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol, ac nid yw'n ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith ychwaith – mater i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yw hynny. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r Cod fel tystiolaeth mewn achos cyfreithiol o dan y Ddeddf. Mae'n rhaid i lysoedd a thribiwnlysoedd cyflogaeth ystyried unrhyw ran o'r Cod sydd, yn eu barn hwy, yn berthnasol i unrhyw gwestiwn sy'n codi o'r achos hwnnw. Os bydd sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn dilyn y canllawiau yn y Cod, efallai y bydd yn eu helpu i osgoi penderfyniad anffafriol gan lys neu dribiwnlys mewn achos o'r fath.

Sut i ddefnyddio'r Cod

1.8 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r Cod. Mae Pennod 2 yn nodi rhai canllawiau cyffredinol ynglŷn â sut i osgoi gwahaniaethu. Mae Pennod 3 yn cynnwys trosolwg o ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf, ac ystyrir y darpariaethau hynny yn fanylach mewn penodau dilynol.

1.9 Mae Pennod 4 yn manylu ar yr hyn a olygir wrth wahaniaethu ac aflonyddu, ac mae Pennod 5 yn esbonio'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl. Mae Pennod 6 yn ystyried perthnasedd cyfiawnhad o dan Ran 2 a Phennod 2A o Ran 4. Mae Penodau 7, 8 a 9 yn canolbwyntio ar faterion penodol sy'n ymwneud â gwahaniaethu gan sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn y drefn honno. Mae Penodau 8 a 9 yn rhoi rhagor o wybodaeth am safonau cymhwysedd.

1.10 Mae Pennod 10 yn edrych ar faterion sy'n ymwneud ag addasiadau i safleoedd, ac mae Pennod 11 yn ymdrin ag amryw bwyntiau eraill ac yn esbonio beth sy'n digwydd os gwneir honiad o wahaniaethu.

1.11 Mae Atodiad A yn rhoi mwy o wybodaeth am yr hyn a olygir wrth 'anabledd' a 'person anabl'. Cyhoeddwyd canllaw statudol ar wahân ar y diffiniad o anabledd o dan y Ddeddf (gweler paragraff 3.6). Mae Atodiad B yn rhestru ffynonellau eraill o wybodaeth berthnasol am faterion y cyfeirir atynt yn y Cod.

1.12 Dylid ystyried pob pennod o'r Cod fel rhan o'r esboniad cyffredinol o ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf a'r rheolaethau a wnaed o dan y darpariaethau hynny. Er mwyn deall y gyfraith yn iawn, mae angen darllen y Cod yn ei gyfanrwydd. Ni ddylid darllen y Cod mewn ffordd rhy gul na llythrennol. Bwriedir iddo esbonio egwyddorion y gyfraith, dangos sut y gallai'r Ddeddf weithredu mewn rhai sefyllfaoedd a rhoi canllawiau cyffredinol ar arferion da. Mae rhai cwestiynau na all y Cod eu hateb ac mae'n rhaid aros am ddehongliad awdurdodol ohonynt gan y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Ni fwriedir i'r Cod gymryd lle cyngor priodol ar oblygiadau cyfreithiol sefyllfaoedd penodol.

Enghreifftiau yn y Cod

1.13 Rhoddir enghreifftiau o arfer da a'r ffordd y mae'r Ddeddf yn debygol o weithio mewn blychau. Bwriedir iddynt ddangos egwyddorion a chysyniadau a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth a dylid eu darllen yn y goleuni hwnnw. Ni ddylid trin yr

enghreifftiau fel pe baent yn ddatganiadau cyflawn neu awdurdodol o'r gyfraith.

1.14 Er bod yr enghreifftiau yn cyfeirio at sefyllfaoedd penodol, dylid eu deall mewn ystyr ehangach fel enghreifftiau sy'n dangos sut y bydd yn gyfraith yn debygol o gael ei chymhwyso'n gyffredinol. Gellir hefyd eu defnyddio i brofi sut y gallai'r gyfraith fod yn gymwys mewn amgylchiadau tebyg sy'n cynnwys anableddau neu sefyllfaoedd gwahanol. Mae'r enghreifftiau yn ceisio defnyddio cymaint o anableddau a sefyllfaoedd gwahanol â phosibl i ddangos ehangder a chwmpas y Ddeddf. Rhoddir enghreifftiau sy'n ymwneud â dynion neu fenywod er mwyn bod yn realistig a gallent, wrth gwrs, fod yn berthnasol i bobl o'r naill ryw neu'r llall.

Cyfeiriadau yn y Cod

1.15 Dangosir cyfeiriadau at y Ddeddf yn yr ymylon. Er enghraifft, ystyr a 1(1) yw adran 1(1) o'r Ddeddf ac ystyr Atod yw Atodlen i'r Ddeddf. Mae cyfeiriadau at Ran 2, 3 neu 4 yn cyfeirio at y Rhan berthnasol o'r Ddeddf. Pan gyfeirir at reoliadau, dangosir rhif yr Offeryn Statudol (OS) perthnasol yn yr ymyl.

Newidiadau i'r ddeddfwriaeth

1.16 Mae'r Cod yn cyfeirio at y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a wnaed ar 1 Hydref 2004 ac fel y'i diwygiwyd ym mis Medi 2007. Efallai fod newidiadau i'r Ddeddf neu ddeddfwriaeth arall, er enghraifft i'r ystod o bobl a ystyrir yn anabl o dan y Ddeddf, a allai gael effaith ar y dyletswyddau a esbonnir yn y Cod. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaethau'r Ddeddf.

Rhagor o wybodaeth

1.17 Gellir prynu copïau o'r Ddeddf a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf gan Y Llyfrfa (gweler Atodiad B am fanylion cyswllt). Mae codau ar wahân sy'n trafod agweddau eraill ar y Ddeddf, a chanllawiau sy'n ymwneud â'r diffiniad o anabledd hefyd ar gael gan Y Llyfrfa.

2. Sut y gellir osgoi gwahaniaethu?

Cyflwyniad

2.1 Mae gwahanol gamau y gall sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol eu cymryd er mwyn osgoi gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Drwy wneud hynny, mae sefydliadau a chyrff nid yn unig yn debygol o leihau nifer yr achosion cyfreithiol costus sy'n mynd ag amser ond hefyd wella perfformiad ac ansawdd cyffredinol y gwasanaethau a ddarparant.

2.2 Yn ogystal â hynny, bydd y camau hyn yn helpu sefydliadau a chyrff sy'n awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw sefydliad y mae ei swyddogaethau yn swyddogaethau o natur gyhoeddus) i gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus o'r fath wrth gyflawni eu swyddogaethau roi sylw dyledus i'r angen i:

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill;
- dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf;
- dileu achosion o aflonyddu ar bobl anabl sy'n ymwneud â'u hanableddau;
- hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl;
- annog cyfranogiad gan bobl anabl mewn bywyd cyhoeddus;
- cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl, hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

2.3 Er mwyn helpu awdurdodau cyhoeddus penodol (gan gynnwys rheoleiddwyr statudol sy'n gyfrifol am gymwysterau proffesiynol, crefft a chyffredinol) i gydymffurfio â'r ddyletswydd uchod – a elwir yn ddyletswydd gyffredinol), mae rheoliadau yn gosod rhai camau y mae'n rhaid i'r awdurdodau hyn eu cymryd. Gelwir y rhain yn 'ddyletswyddau penodol'. Maent yn cynnwys y rhwymedigaeth i baratoi Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl sydd, ymhlith pethau eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus nodi'r camau y byddant yn eu cymryd (y cynllun gweithredu) i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol. Nid yw'r dyletswyddau cyffredinol na'r dyletswyddau penodol yn creu unrhyw hawliau unigol i bobl anabl, ond gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol orfodi'r dyletswyddau cyffredinol a'r dyletswyddau penodol, a gall methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol arwain at achos yn yr Uchel Lys (yng Nghymru a Lloegr) neu Llys y Sesiwn (yn yr Alban) drwy gyfrwng arolwg barnwrol.

2.4 Mae'r bennod hon yn nodi rhai canllawiau ar sut i helpu i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl anabl. Mae hefyd yn ymdrin â rhai o'r agweddau yn unig ar y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl. Dylai sefydliadau a chyrff gyfeirio at y **Codau Ymarfer Statudol: Y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb i Bobl Anabl:** (Cymru a Lloegr) (a'r Alban) am fanylion llawn y rhwymedigaethau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy mewn perthynas â'r ddyletswydd.

Deall dimensiwn cymdeithasol anabledd

2.5 Mae'r cysyniad o wahaniaethu yn y Ddeddf yn adlewyrchu dealltwriaeth nad yw cyfyngiadau gweithredol sy'n deillio o namau pobl anabl yn cyfyngu'n anochel ar eu gallu i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas. Yn aml ffactorau amgylcheddol (megis cynllun adeilad, neu arferion sefydliad), yn hytrach na'r cyfyngiadau sy'n deillio o nam, sy'n arwain at y cyfyngiadau cymdeithasol

diangen hyn. Yr egwyddor hon sy'n sail i'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol a ddisgrifir ym Mhennod 5. Drwy ddeall hyn bydd modd i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol osgoi gwahaniaethu. Mae ystyried pa agweddau ar weithgareddau sefydliad neu gorff sy'n creu anawsterau i berson anabl yr un mor bwysig â deall natur benodol anabledd unigolyn.

Cydnabod natur amrywiol anabledd

2.6 Mae dros wyth miliwn o oedolion anabl yn ein cymdeithas. Mae natur a graddau eu hanableddau yn amrywio'n fawr, ac felly hefyd eu gofynion i oresgyn unrhyw anawsterau a wynebant.
Er mwyn i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol osgoi gwahaniaethu, mae angen iddynt ddeall hyn, a bod yn ymwybodol o effeithiau posibl eu penderfyniadau a'u gweithredoedd – a phenderfyniadau a gweithredoedd eu hasiantau a'u cyflogeion – ar bobl anabl. Dengys y dystiolaeth nad oes fawr ddim cost yn gysylltiedig â nifer o'r camau y gellir eu cymryd i osgoi gwahaniaethu a'i bod yn hawdd eu gweithredu.

Osgoi rhagdybiaethau

2.7 Dylid osgoi gwneud rhagdybiaethau ynglŷn â phobl anabl. Bydd namau yn aml yn effeithio ar bobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol ac efallai y bydd eu hanghenion yn wahanol hefyd. Efallai y bydd yr awgrymiadau canlynol o gymorth o ran osgoi gwahaniaethu:

- Peidiwch â rhagdybio nad yw person yn anabl am nad yw'n ymddangos yn anabl.
- Peidiwch â rhagdybio bod y rhan fwyaf o bobl anabl yn defnyddio cadeiriau olwyn.
- Peidiwch â rhagdybio bod pawb sy'n ddall yn darllen Braille neu fod ganddynt gŵn tywys.
- Peidiwch â rhagdybio bod pawb sy'n fyddar yn defnyddio iaith arwyddion.
- Peidiwch â rhagdybio bod pobl anabl yn llai galluog neu'n llai uchelgeisiol o ran gyrfa na phobl nad ydynt yn anabl.
- Peidiwch â rhagdybio bod pobl â mathau penodol o anabledd (megis problemau iechyd meddwl neu epilepsi) yn risg i iechyd a diogelwch.
- Peidiwch â rhagdybio nad oes dim aelodau anabl mewn sefydliad am nad ydych yn ymwybodol o unrhyw aelodau anabl.
- Peidiwch â rhagdybio nad oes dim pobl anabl mewn proffesiwn neu grefft benodol am nad ydych yn ymwybodol o unrhyw bobl anabl.

Dod i wybod am anghenion pobl anabl

2.8 Fel yr esbonnir yn ddiweddarach yn y Cod (gweler paragraffau 5.14 ac 8.22 er enghraifft), mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol feddwl am ffyrdd o gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol. Bydd gwrando'n ofalus ar bobl anabl a dod i wybod beth sydd ei eisiau arnynt yn helpu sefydliadau a chyrff i fodloni eu rhwymedigaethau drwy nodi'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl anabl. Byddant yn fwy tebygol o sicrhau'r canlyniad gorau os cynhelir trafodaethau gyda phobl anabl ar gam cynnar.

2.9 Yn aml, o drafod â phobl anabl yr hyn fydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion caiff sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol eu sicrhau bod modd gwneud addasiadau heb fawr ddim cost nac anghyfleuster iddynt.

2.10 Mae sawl ffordd wahanol o geisio barn pobl anabl. Bydd gan lawer o undebau llafur a chyrff proffesiynol a chyrff cymwysterau cyffredinol strwythurau ffurfiol sefydledig ar gyfer ceisio barn pobl anabl a'u cynrychioli. Gall y rhain

fod ar ffurf pwyllgor cynghori, efallai is-bwyllgor o'r pwyllgor cyfle cyfatal neu'r corff llywodraethu cenedlaethol. Mae rhai sefydliadau yn cynnal fforwm cenedlaethol sefydlog ar gyfer pobl anabl yn ogystal â threfnu cynadleddau o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae'r rheoliadau ynglŷn â dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus rhagnodedig i gynnwys pobl anabl yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl.

Ceisio cyngor arbenigol

2.11 Gellir osgoi gwahaniaethu drwy ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd personol neu fewnol – yn enwedig os ceir gwybodaeth neu farn gan y person anabl dan sylw. Fodd bynnag, er nad yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i unrhyw un gael cyngor arbenigol ynglŷn â diwallu anghenion pobl anabl, yn ymarferol gall fod angen gwneud hynny weithiau er mwyn cydymffurfio â'r prif ddyletswyddau a nodir yn y Ddeddf. Gallai cyngor arbenigol fod yn ddefnyddiol iawn os oes rhywun newydd fynd yn anabl neu os yw effeithiau anabledd rhywun wedi dod yn fwy amlwg. Gallai sefydliadau anabledd lleol a chenedlaethol yn benodol roi cyngor defnyddiol ynglŷn ag anghenion pobl anabl a'r camau y gellir eu cymryd i ddiwallu'r anghenion hynny.

Blaengynllunio

2.12 Mae'r dyletswyddau y mae'r Ddeddf yn eu gosod ar sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn ddyledus i'r bobl anabl unigol y mae'r sefydliadau a'r cyrff hynny yn ymwneud â hwy. Nid oes dyletswydd i bobl anabl yn gyffredinol. Serch hynny, mae'n debygol y bydd yn gost-effeithiol i sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau flaengynllunio. Mae ystyried anghenion pob math o bobl anabl wrth gynllunio newid (megis cynllunio adnewyddu adeilad, system TG newydd, neu gynllun gwefan) yn debygol o'i gwneud yn haws gweithredu addasiadau ar gyfer unigolion pan fydd yr angen yn codi. Hefyd, mae'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a chyrff sy'n awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal – gan gynnwys yr angen i ddileu gwahaniaethu. Efallai y bydd y gofyniad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddechrau rhagweld anghenion pobl anabl mewn ffordd ragweithiol.

2.13 Mae'n arfer da i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol gadarnhau a yw archwiliadau o fynediad wedi cael eu cynnal i nodi unrhyw welliannau y gellir eu gwneud i adeilad i'w wneud yn fwy hygyrch. Dylai archwiliadau o fynediad gael eu cynnal gan bobl â chymwysterau addas, megis y rhai a restrir yn y Gofrestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr Mynediad (gweler Atodiad B am fanylion). Gellir hefyd adolygu gwefannau a mewnrwydi i weld pa mor hawdd eu defnyddio ydynt i bobl anabl sy'n defnyddio meddalwedd fynediad.

Mae sefydliad crefft yn adnewyddu ei safle gan gynnwys ei gyfleusterau i aelodau. Gofynnir i'r penseiri gydymffurfio â Safon Brydeinig 8300 er mwyn sicrhau bod cyfleusterau megis y fynedfa, y dderbynfa, ystafelloedd cyfarfod, darlithfa a thoiledau yn hygyrch i amrywiaeth mawr o ymwelwyr anabl. Mae BS 8300 yn god ymarfer ar gynllun adeiladau a'u ffyrdd mynediad i ddiwallu anghenion pobl anabl (gweler Atodiad B am fanylion).

Mae corff cymwysterau yn ailddylunio ei wefan. Wrth wneud hynny mae'n sicrhau bod y wefan newydd yn hawdd ei darllen i bobl ag amrywiaeth o feddalwedd fynediad; mae'n sicrhau bod y wefan yn hawdd ei defnyddio; ac mae'n gwahodd darllenwyr anabl y wefan i roi gwybod i'r corff cymwysterau os oes unrhyw ran ohoni yn anodd ei defnyddio.

Fel rhan o'r broses gymeradwyo i ganolfannau ddarparu arholiadau ac asesiadau ar gyfer cymwysterau cyffredinol, mae corff cymwysterau cyffredinol yn gofyn i ganolfan bosibl roi manylion am hygyrchedd ei safle. Os bydd pryderon ynglŷn â hygyrchedd y safle, cynghorir y ganolfan bosibl am yr angen i nodi unrhyw welliannau a'u gwneud. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn darparu taflen gyda gwybodaeth bellach i ganolfannau ynglŷn â ble i gael cyngor a chymorth mewn perthynas ag archwiliadau o fynediad.

Gweithredu polisïau ac arferion gwrthwahaniaethol

2.14 Mae sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn fwy tebygol o gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf, ac osgoi'r risg y câi camau cyfreithiol eu cymryd yn eu herbyn, os ydynt yn gweithredu polisïau ac arferion gwrthwahaniaethol. Cyfeirir at y rhain yn aml fel polisïau cydraddoldeb neu bolisïau amrywiaeth. Hefyd, os caiff camau cyfreithiol eu cymryd, efallai y gofynnir i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol ddangos i dribiwnlys cyflogaeth neu lys sirol/llys y siryf fod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i leihau'r risg o wahaniaethu.

Fel rhan o'r broses o gymeradwyo canolfannau i ddarparu cymwysterau cyffredinol, mae corff cymwysterau cyffredinol yn cynghori canolfannau y dylid lleoli dysgwyr ag anableddau mewn ystafelloedd arholi sy'n briodol i'w hanghenion. Er enghraifft, mae'n well lleoli ymgeisydd ag anawsterau dysgu, sy'n dibynnu ar y defnydd o anogwr, mewn ystafell i ffwrdd oddi wrth ymgeiswyr eraill lle nad oes pethau i dynnu ei sylw.

Mae arolygydd sy'n gweithio ar ran y cyrff cymwysterau cyffredinol yn ymweld â chanolfan i sicrhau bod yr arholiadau yn cael eu cynnal yn unol â gofynion perthnasol. Mae ei restr wirio yn cynnwys cadarnhau bod ystafell addas ar gael i unrhyw ymgeisydd ag anabledd. Mae'n cyflwyno adroddiad i'r cyrff cymwysterau cyffredinol ar unrhyw amgylchiadau lle darparwyd ystafell anaddas ac maent yn codi'r mater hwn gyda'r ganolfan.

Camau a argymhellir ar gyfer pob sefydliad crefft , corff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol

2.15 Bydd polisïau ac arferion gwrthwahaniaethol yn amrywio yn dibynnu ar natur y sefydliad (er enghraifft, ai sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol ydyw a beth yw maint a natur ei aelodaeth). Fodd bynnag, cynghorir pob sefydliad crefft, corff cymwysterau a chorff cymwysterau cyffredinol i gymryd y camau dilynol:

- Llunio polisi gyda'r nod o atal gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl sy'n cael ei gyfleu i bob un o gyflogeion ac asiantau'r sefydliad neu'r corff.
- Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd a chydraddoldeb i bob cyflogai. Hefyd, hyfforddi cyflogeion ac asiantau fel eu bod yn deall polisi'r sefydliad neu'r corff ar anabledd, eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, a'r arfer ynglŷn ag addasiadau rhesymol.
- Sicrhau y caiff aelodau a darpar aelodau'r sefydliad (neu, yn achos corff cymwysterau a chorff cymwysterau cyffredinol, pobl sy'n dymuno ennill cymhwyster a phobl sydd eisoes â chymhwyster) wybod am bolisi anabledd y sefydliad neu'r corff.
- Sicrhau bod pobl o fewn sefydliad neu gorff sy'n gyfrifol am gydlynu ag aelodau neu ymgeiswyr yn cael hyfforddiant manylach ynglŷn â dyletswyddau'r sefydliad o dan y Ddeddf.

- Hysbysu pob cyflogai ac asiant na chaiff ymddygiad sy'n mynd yn groes i'r polisi gwrthwahaniaethu ei oddef, ac ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw achosion o'r fath.
- Monitro'r ffordd y gweithredir polisi o'r fath a'i effeithiolrwydd.
- Mynd i'r afael â deddfau gwahaniaethau ar sail anabledd gan gyflogeion fel rhan o reolau a gweithdrefnau disgyblu.
- Sefydlu gweithdrefnau cwynion sy'n hawdd i bobl anabl eu defnyddio ac sydd wedi eu cynllunio i ddatrys problemau'n effeithiol.
- Adolygu'n rheolaidd effeithiolrwydd addasiadau rhesymol a wnaed ar gyfer pobl anabl yn unol â'r Ddeddf, a gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiadau hynny.
- Cadw cofnodion clir o benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â phob un o'r materion hyn.

Camau ychwanegol a argymhellir ar gyfer undebau llafur

2.16 Math arbennig o sefydliad crefft yw undebau llafur. Yn ogystal â chymryd y camau cyffredinol a nodir ym mharagraff 2.15, cynghorir undebau llafur i:

- Sefydlu cyllideb ganolog neu 'gronfa fynediad' (a hysbysu canghennau lleol) i dalu am addasiadau ar gyfer aelodau anabl o dan amgylchiadau lle y byddai'n rhy gostus i ganghennau lleol ariannu'r addasiadau.
- Sicrhau bod cynrychiolwyr undebol yn deall darpariaethau'r Ddeddf ynglŷn â chyflogaeth a galwedigaeth fel y gallant gynorthwyo aelodau sy'n wynebu gwahaniaethu ar sail anabledd yn y gwaith.
- Sicrhau bod cynrychiolwyr iechyd a diogelwch yn deall egwyddorion asesiad risg ac addasiadau rhesymol yn briodol, fel na ddefnyddir materion iechyd a diogelwch i wahaniaethu yn erbyn pobl anabl yn y gweithle nac wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau undebol.

Mae'r ystyriaethau uchod yr un mor berthnasol i gynrychiolwyr undebol di-dâl yn y gweithle ag ydynt i gyflogeion cyflogedig undeb.

2.17 Ni ddylai undebau llafur lunio cytundeb ar y cyd sy'n cynnwys telerau sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl (gweler paragraffau 11.14 i 11.16). Hefyd, mae cyfraith Ewrop yn annog undebau llafur i lunio cytundebau ar y cyd yn genedlaethol ac yn lleol o ran polisïau ac arferion gwrthwahaniaethol. Cynghorir undebau llafur i fonitro pa mor effeithiol yw unrhyw gytundebau o'r fath.

Camau ychwanegol a argymhellir ar gyfer cyrff cymwysterau

2.18 Argymhellir y camau cyffredinol a nodir ym mharagraff 2.15 ar gyfer sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau fel ei gilydd. Fodd bynnag, cynghorir cyrff cymwysterau i gymryd camau ychwanegol, sef:

- Sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer pobl anabl i ofyn am addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau neu brofion ymarferol, fel y gall cyrff cymwysterau ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i geisiadau unigol am addasiadau penodol. Gallai hyn gynnwys sefydlu gweithdrefnau gyda sefydliadau addysgol i sicrhau bod sefydliadau yn gofyn i'w myfyrwyr am wybodaeth berthnasol ac yna'i throsglwyddo i'r cyrff cymwysterau (gweler paragraff 8.23).
- Adolygu'n rheolaidd unrhyw safonau cymhwysedd sy'n ymwneud â chymwysterau proffesiynol neu grefft er mwyn sicrhau eu bod wedi eu llunio mewn ffordd nad ydynt yn atal pobl anabl rhag gallu eu cyrraedd a hynny'n ddiangen. Bydd hyn yn cynnwys craffu

ar bob safon gymhwysedd i sicrhau nad yw'n wahaniaethol. Dylid ystyried a ellir cyfiawnhau pob safon yn wrthrychol. Gellid ymgynghori â phobl anabl sy'n gweithio yn y proffesiwn neu'r grefft berthnasol i ddysgu o'u profiad a dylid ystyried ffactorau megis newidiadau mewn technoleg, a all alluogi pobl i wneud gwaith mewn ffyrdd gwahanol.

Rhoddir rhagor o gyngor ar osgoi gwahaniaethu mewn perthynas â safonau cymhwysedd ym mharagraff 8.41.

Camau ychwanegol a argymhellir ar gyfer cyrff cymwysterau cyffredinol

2.19 Crynhoir y cyd-destun y mae cyrff cymwysterau cyffredinol yn gweithredu ynddo ym mharagraff 3.30 ac fe'i hamlinellir yn fanylach ym Mhennod 9. Argymhellir y camau cyffredinol a nodir ym mharagraff 2.15 ar gyfer cyrff cymwysterau cyffredinol hefyd. Fodd bynnag, cynghorir cyrff cymwysterau cyffredinol hefyd i gymryd camau ychwanegol, sef.

- Adolygu'n rheolaidd â'u rheoleiddwyr y gofynion o ran cymwysterau proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau eu bod wedi eu llunio mewn ffordd nad ydynt yn atal pobl anabl rhag gallu eu cyflawni a hynny'n ddiangen. Bydd hyn yn cynnwys craffu'n ofalus ar bob gofyniad i sicrhau nad yw'n wahaniaethol. Dylid ystyried a yw pob gofyniad yn wrthrychol rhesymol neu, yn achos safonau cymhwysedd, yn ddilys ac yn gymesur.
- Sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer pobl anabl i ofyn am addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau neu brofion ymarferol, fel y gall cyrff cymwysterau cyffredinol ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i geisiadau unigol am addasiadau penodol. Mae'n ddigon posibl y bydd hyn yn cynnwys sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cyswllt uniongyrchol rhwng pobl anabl, cyrff cymwysterau cyffredinol a sefydliadau addysgol i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cyrraedd y cyrff cymwysterau cyffredinol. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o geisiadau am addasiadau yn dod i law drwy sefydliadau addysgol.
- Sicrhau bod pobl anabl yn gallu defnyddio gweithdrefnau apelio cyrff cymwysterau cyffredinol o ran canlyniadau arholiadau ac asesiadau.

Rhoddir rhagor o gyngor ar sut i osgoi gwahaniaethu mewn perthynas â safonau cymhwysedd ym mharagraff 9.57 i 9.82.

Polisïau a gweithdrefnau archwilio

2.20 Er nad oes dyletswydd o dan Ran 2 (na Rhan 4 mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol) i ragweld anghenion pobl anabl yn gyffredinol, mae'n syniad da i sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau barhau i adolygu eu polisïau, ac ystyried anghenion pobl anabl o'r fath fel rhan o'r broses. Cynghorir sefydliadau a chyrff i wneud hyn yn ogystal â llunio polisi penodol i atal gwahaniaethu. Hefyd, mae'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a chyrff sy'n awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal – gan gynnwys yr angen i ddileu gwahaniaethu. Efallai y bydd y gofyniad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddechrau rhagweld anghenion pobl anabl mewn ffordd ragweithiol. Mae sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau yn debygol o lunio polisïau ar faterion megis:

- gweithdrefnau gwagio brys
- caffael cyfarpar, TG, systemau a gwefannau
- darparu gwybodaeth
- safonau gwasanaeth i aelodau.

Mae gan sefydliad crefft bolisi i sicrhau bod pob aelod yn cael ei hysbysu am weithgareddau'r sefydliad drwy

wefan. Noda'r polisi y dylai'r wefan fod yn hawdd ei defnyddio i bobl anabl, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio meddalwedd fynediad (megis synthesis llais). Rhoddir hyfforddiant ychwanegol i olygydd y wefan ar ddylunio gwefan hawdd ei defnyddio.

Mae gan sefydliad crefft bolisi sy'n amlinellu lefel y gwasanaeth y dylai aelodau a darpar aelodau ei chael. Mae'n cynnwys safonau gwasanaeth ar gyfer aelodau anabl a darpar aelodau, megis darparu ffurflenni cais mewn fformatau hawdd eu defnyddio.

O dan bolisi caffael newydd mae angen ystyried nifer o ffactorau wrth gaffael cyfarpar a systemau TG. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys cost ac effeithlonrwydd ynni. Mae'n arfer da i ffactorau o'r fath gynnwys hygyrchedd ar gyfer pobl anabl hefyd.

Mae undeb llafur yn adolygu ei weithdrefnau ar gyfer trefnu cynadleddau er mwyn sicrhau yr ystyrir mynediad i aelodau anabl ar bob cam.

2.21 Mae llawer o'r hyn a nodir ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau archwilio ym mharagraff 2.20 yn gymwys hefyd i gyrff cymwysterau cyffredinol, ar wahân i'r ffaith bod darpariaethau perthnasol Pennod 2A o Ran 4, ac nid Rhan 2, yn gymwys i gyrff cymwysterau cyffredinol. Mae cyrff cymwysterau cyffredinol yn debygol iawn o lunio polisïau ar faterion megis:

- trefniadau profi, asesu ac arholi
- addasiadau i'r broses profi, asesu ac arholi
- safonau ar gyfer cymwysterau
- eu perthynas â'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal arholiadau, profion ac asesiadau (e.e. ysgolion a cholegau).

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn diweddaru ei amserlen arholi. Mae'n sicrhau bod y canllawiau i ganolfannau ar amserlennu yn cyfeirio at yr hyblygrwydd sydd ar gael i ymgeiswyr y bydd angen o bosibl addasu'r amserlen ar eu cyfer am reswm sy'n gysylltiedig â'u nam.

Monitro

2.22 Mae monitro aelodau neu, yn achos cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol, bobl sy'n gwneud cais am gymhwyster neu bobl sydd â chymwysterau yn ffordd bwysig o benderfynu a yw mesurau gwrthwahaniaethu a gymerir gan sefydliad neu gorff yn effeithiol, a sicrhau bod cydraddoldeb i bobl anabl yn cael ei wireddu. Mae'n rhaid i wybodaeth gael ei chasglu mewn ffordd sensitif, gyda chwestiynau wedi eu geirio'n briodol, ac mae'n rhaid sicrhau cyfrinachedd. Gall gwybodaeth am gyfran y bobl anabl a'u statws mewn perthynas â sefydliad neu gorff ei helpu i benderfynu lle mae angen gwella arferion a pholisïau.

2.23 Hefyd, lle y bo'n gymwys, mae dyletswyddau penodol cydraddoldeb i bobl anabl yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus nodi'r canlynol yn eu Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl:

- trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth ynglŷn â'r graddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r swyddogaethau eraill hynny a gyflawnir ganddynt yn ystyried anghenion pobl anabl.

2.24 Mae'n bwysig deall nad diben ynddo'i hun yw casglu gwybodaeth ond bod yn rhaid i'r wybodaeth a geir gael ei dadansoddi a'i defnyddio fel sail ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu anabledd, ac adolygu effeithiolrwydd y camau hynny a gymerwyd. Yn wir mae'r wybodaeth a gesglir yn dystiolaeth o gynnydd awdurdod mewn perthynas â chydraddoldeb i bobl anabl. Am y rheswm hwn mae'n ofynnol hefyd i'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl

Anabl gynnwys datganiad am drefniadau'r awdurdod cyhoeddus ar gyfer defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn y ffyrdd hyn ac yn benodol ei drefniadau ar gyfer adolygu'n rheolaidd effeithiolrwydd y cynllun gweithredu a pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl dilynol.

2.25 Mae'n rhaid i wybodaeth gael ei chasglu mewn ffordd sensitif, gyda chwestiynau wedi eu geirio'n briodol, ac mae'n rhaid sicrhau cyfrinachedd.

2.26 Bydd monitro yn fwy effeithiol os bydd pobl anabl yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â datgelu gwybodaeth am eu hanableddau. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd os yw'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol yn esbonio diben y gwaith monitro ac os yw aelodau ac ymgeiswyr yn credu ei fod o ddifrif yn cefnogi cydraddoldeb i bobl anabl ac yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i greu newid cadarnhaol.

Drwy fonitro ei haelodaeth, daw cymdeithas broffesiynol yn ymwybodol bod pobl anabl wedi eu tangynrychioli ar lefel cymrodoriaeth. Mae'r gymdeithas yn defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu ei meini prawf ar gyfer dyfarnu cymrodoriaethau, ac yn gwneud ymchwil i'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl ar lefelau uwch yn y proffesiwn.

Daw undeb llafur yn ymwybodol, drwy fonitro, bod pobl anabl wedi eu tangynrychioli fel cynadleddwyr. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i gael gwybod gan aelodau anabl sut y gellir gwella trefniadau ar gyfer cynadleddau er mwyn galluogi mwy i gymryd rhan.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn monitro nifer y bobl anabl sy'n dewis eu cymwysterau. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn darganfod bod pobl anabl yn llai tebygol o ddewis cyrsiau penodol. Mae'n defnyddio'r wybodaeth i gael pobl anabl i ystyried ac adolygu meysydd llafur/manylebau o ran hygyrchedd a sut yr asesir y cymwysterau dan sylw.

2.27 Mae rhai sefydliadau yn dewis monitro yn ôl math cyffredinol o anabledd er mwyn deall y rhwystrau a wynebir gan bobl â gwahanol namau.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn penderfynu monitro nifer y materion a godir gan bobl anabl a grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl. Y canfyddiad yw bod y rhan fwyaf o'r materion hyn yn ymwneud â phapur arholiad penodol a oedd yn cynnwys deunyddiau a greodd rwystr diangen i asesu ac un nad oedd ei angen. Mae'n adolygu canlyniadau'r ymgeiswyr yr effeithiwyd arnynt ac yna'n gofyn i'r tîm pwnc wirio cwestiynau wrth iddynt gael eu hysgrifennu fel y gellir osgoi'r broblem yn y dyfodol.

Drwy fonitro pobl sy'n gwneud cais i gofrestru ac sy'n cael eu cofrestru, daw corff cymwysterau cyffredinol yn ymwybodol bod pobl ag anableddau penodol wedi eu tangynrychioli'n sylweddol fel ymgeiswyr a rhai sy'n ennill cymhwyster penodol. Mae'r corff cymwysterau yn defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu ei safonau cymhwysedd er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhwystrau diangen i bobl anabl.

2.28 Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth a'i defnyddio. Yn eu hadroddiad blynyddol ar y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl, mae'n rhaid iddynt nodi canlyniadau'r ymarfer casglu gwybodaeth a gynhaliwyd ganddynt, gan fanylu ar y dystiolaeth a gafwyd a'r ffordd y'i defnyddiwyd – megis y camau a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y dystiolaeth.

2.29 Mae casglu gwybodaeth am fyfyrwyr yn broses wahanol i gasglu gwybodaeth am fyfyrwyr anabl unigol ynglŷn â'u gofynion ar gyfer addasiadau rhesymol.

Dylai'r prosesau fod yn rhai ar wahân a dylai fod yn amlwg i fyfyrwyr ac ymgeiswyr pam bod y wybodaeth yn cael ei chasglu.

Hyrwyddo cydraddoldeb

2.30 Serch hynny gall sefydliadau neu gyrff nad ydynt yn dod o dan y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl chwarae rhan o ran hyrwyddo cyfle cyfartal (ac mae'n bosibl hefyd ei bod yn ofynnol iddynt wneud hynny mewn perthynas â threfniadau cytundebol ag awdurdodau cyhoeddus). Er mwyn gwella cyfleoedd pobl anabl i gael swydd, ei chadw a datblygu ynddi, mae angen i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol ystyried cyfle cyfartal i bobl anabl o ddau safbwynt. Yn gyntaf, dylai sefydliadau a chyrff o'r fath sicrhau bod pobl anabl yn cael yr un cyfle i fod yn aelodau ac i gael buddiannau aelodaeth, neu (yn ôl y digwydd) i gael cyfleoedd i ennill a chadw cymhwyster cyffredinol, proffesiynol neu grefft. Yn ail, mae'n arfer da i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol geisio hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer pobl anabl o fewn y sector crefft, proffesiwn neu gyflogaeth/addysg y mae'n gweithredu ynddo.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn cynghori ysgolion a cholegau a all dderbyn ymgeiswyr ar gyfer ei chymwysterau/ei gymwysterau ynglŷn â'r sawl ffordd wahanol y gall ddarparu'r cwrs a sut y mae'n ei asesu mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion penodol pobl anabl gydag amryw namau.

Mae sefydliad crefft yn y sector twristiaeth yn cynnal cynhadledd mewn cysylltiad â chyflogwyr yn y sector hwnnw a sefydliadau anabledd i hyrwyddo cyfleoedd i bobl anabl yn y diwydiant twristiaeth.

Mae undeb llafur sy'n cynrychioli pobl yn y crefftau darlledu yn sicrhau bod ei ddeunydd hyrwyddol a'i wefan yn dangos delweddau cadarnhaol o bobl anabl yn ymgymryd ag amrywiaeth o swyddi o fewn y diwydiant hwn.

Mae corff cymwysterau yn y sector iechyd yn hyrwyddo cynllun ar gyfer annog pobl anabl i wneud cais i hyfforddi i fod yn weithwyr proffesiynol iechyd.

2.31 Dylai sefydliadau a chyrff sicrhau bod unrhyw weithgarwch marchnata, megis hysbysebu cwrs, sy'n dangos myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr yn portreadu myfyrwyr anabl yn gadarnhaol. Yn ogystal â chyfrannu at nod cyffredinol cyfle cyfartal, bydd hyrwyddo agweddau o'r fath yn sicrhau bod sefydliadau a chyrff yn dangos eu bod yn ymwybodol o anghenion pobl anabl. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at well cynrychiolaeth o bobl anabl o ran gweithgareddau sefydliadau a chyrff, a bydd hefyd yn annog pobl anabl i gymryd rhan yn eu gweithgareddau monitro yn arbennig. I sefydliadau a chyrff sy'n awdurdodau cyhoeddus, un o'r agweddau ar ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl, fel y nodir uchod, yw'r angen i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl.

Datrys anghydfodau

2.32 Er nad yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau na chyrff cymwysterau cyffredinol ddatrys anghydfodau o fewn y sefydliad neu'r corff, mae'n fuddiol i sefydliad neu gorff o'r fath ddatrys problemau wrth iddynt godi lle y bo modd. Dylid gwneud hyn mewn ffordd nad yw'n wahaniaethol er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

2.33 Gall gweithdrefnau cwyno fod yn ffordd agored a theg o roi gwybod am bryderon. Gall gweithdrefnau o'r fath fod yn arbennig o briodol i aelodau sefydliadau crefft, a gallant fod yn fodd i ddatrys cwynion yn gyflym cyn iddynt fod yn broblemau mawr. Efallai y bydd defnydd o'r gweithdrefnau yn tynnu sylw at y meysydd

lle na chyflawnwyd y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, a gall atal camddealltwriaeth sy'n arwain at gwynion i dribiwnlysoedd a llysoedd.

2.34 Mae Pennod 11 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am weithdrefnau cwyno ac am ddatrys anghydfodau o dan y Ddeddf.

3. Gwahaniaethu gan sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol – trosolwg

Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau hynny yn y Ddeddf sy'n berthnasol i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol. Mae'n esbonio pwy sydd â hawliau a dyletswyddau o dan y darpariaethau hyn ac mae'n amlinellu beth maent yn ei wneud yn anghyfreithlon. Mae penodau diweddarach yn esbonio'r darpariaethau yn fanylach.

Pwy sydd â hawliau o dan y Ddeddf?

Pobl anabl

3.2 **[a 1 a 2 ac Atod 1 a 2]** Mae'r Ddeddf yn diogelu person 'anabl' o fewn ystyr y Ddeddf rhag gwahaniaethu. Mae person anabl yn rhywun â nam corfforol neu feddyliol sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol pob dydd. Mae'r rhaid i'r effaith honno fod:

- yn sylweddol (hynny yw, yn fwy nag effaith fach neu ddibwys)
- yn andwyol,
- yn hirdymor (hynny yw, mae wedi parhau neu mae'n debygol o barhau am o leiaf flwyddyn neu am weddill bywyd y sawl yr effeithir arno).

3.3 Mae nam corfforol neu feddyliol yn cynnwys nam ar y synhwyrau. Cwmpesir namau cudd hefyd (er enghraifft, salwch meddwl neu broblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu, dyslecsia, diabetes ac epilepsi).

3.4 Mae'r diffiniad o anabledd a ddefnyddir yn y Ddeddf yn wahanol i ddiffiniadau eraill o bobl anabl mewn deddfwriaeth arall sy'n gymwys i addysg mewn ysgolion a cholegau – er enghraifft mewn perthynas â'r fframwaith anghenion addysgol arbennig yng Nghymru a Lloegr, neu'r Cymorth Ychwanegol i Ddysgu yn yr Alban. Mae'n bosibl y bydd mwy nag un diffiniad yn berthnasol i rai pobl, ac mai dim ond un o'r diffiniadau hyn fydd yn berthnasol i bobl eraill. O ystyried ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, ni ddylai sefydliad crefft, corff cymwysterau na chorff cymwysterau cyffredinol ddefnyddio unrhyw ddiffiniad o 'berson anabl' sy'n gulach na'r hyn a geir yn y Ddeddf. Os gofynnir i sefydliad neu gorff o'r fath wneud addasiad yn gysylltiedig ag anabledd, gall ofyn i'r sawl sy'n gofyn amdano am dystiolaeth bod y nam yn un sy'n unol â'r diffiniad o anabledd yn y Ddeddf. Gallai fod yn briodol gwneud hynny pan na fydd yr anabledd yn amlwg. Fodd bynnag, nid yw'n briodol gofyn am fwy o wybodaeth am y nam nag sydd ei hangen at y diben hwn. Ni ddylid ychwaith ofyn am dystiolaeth o anabledd pan ddylai fod yn amlwg y bydd y Ddeddf yn gymwys.

Pobl sydd wedi bod yn anabl yn y gorffennol

3.5 Caiff pobl sydd wedi bod yn anabl o fewn ystyr y Ddeddf (fel y'i nodwyd yn Atodiad A) yn y gorffennol eu diogelu rhag gwahaniaethu hyd yn oed os nad ydynt yn anabl mwyach.

Rhagor o wybodaeth am ystyr anabledd

3.6 Am ddealltwriaeth lawnach o'r cysyniad o anabledd o dan y Ddeddf dylid cyfeirio at Atodiad A. Mae cyhoeddiad gan y Llywodraeth, **Guidance on matters to be taken into account in determining**

questions relating to the definition of disability, yn rhoi cymorth ychwanegol i ddeall y cysyniad o anabledd ac i nodi pwy sy'n anabl. Lle y bo'n berthnasol, mae'n rhaid ystyried y Canllawiau mewn unrhyw achos cyfreithiol.

Pobl sydd wedi cael eu herlid

3.7 Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawliau i bobl sydd hefyd wedi cael eu herlid, p'un a oedd ganddynt anabledd ai peidio yn y gorffennol. (gweler paragraffau 4.31 i 4.34).

Pwy sydd â rhwymedigaethau o dan y Ddeddf?

Sefydliadau crefft

3.8 **[a 13(4)]** Mae'r Ddeddf yn diffinio sefydliad crefft fel sefydliad o weithwyr neu gyflogwyr, neu unrhyw sefydliad arall y mae eu haelodau yn ymgymryd â phroffesiwn neu grefft benodol at y dibenion y mae'r sefydliad yn bodoli. Mae cyrff fel undebau llafur, cymdeithasau cyflogwyr a sefydliadau proffesiynol siartredig oll yn sefydliadau crefft am eu bod yn bodoli at ddibenion y proffesiwn neu'r grefft y mae eu haelodau yn ymgymryd â hwy. Mae enghreifftiau o sefydliadau crefft yn cynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr, Coleg Brenhinol y Nyrsys, Cymdeithas Athrawon Nofio, Cymdeithas Flodeuyddiaeth. Cymdeithas Gyfrifiadureg Prydain, a Sefydliad y Seiri. Mae'r Ddeddf yn gymwys i bob sefydliad crefft, ni waeth pa mor fawr (neu fach) ydyw.

Cyrff cymwysterau cyffredinol

3.9 **[a 14A(5)]** Mae'r Ddeddf yn diffinio corff cymwysterau fel awdurdod neu gorff a all roi, adnewyddu neu ymestyn cymhwyster proffesiynol neu grefft. At y diben hwn mae cymhwyster proffesiynol neu grefft yn awdurdodiad, yn gymhwyster, yn gydnabyddiaeth, yn gofrestriad, yn ymrestriad, yn gymeradwyaeth neu'n ardystiad sy'n angenrheidiol i ymgymryd â phroffesiwn neu grefft benodol, neu sy'n hwyluso ymgymryd ag ef neu hi. Ystyrir beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol ym mharagraffau 8.5 i 8.7. Mae cyrff cymwysterau yn cynnwys byrddau arholi, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a'r Asiantaeth Safonau Gyrru. Ymhlith yr enghreifftiau eraill mae City and Guilds, Sefydliad y Diwydiant Modur, Corff Dyfarnu Lletygarwch ac Urdd y Glanhawyr a'r Golchwyr Dillad.

3.10 **[a 14A(5)]** Serch hynny, nid yw rhai cyrff yn cael eu hystyried yn gyrff cymwysterau at ddibenion Rhan 2, er eu bod o bosibl yn cyflawni rhai o'r swyddogaethau a enwir ym mharagraff 3.9. Rhestrir y rhain yn y Ddeddf. Yn fras, y rhain yw awdurdodau addysg lleol yng Nghymru a Lloegr, awdurdodau addysg yn yr Alban, a chyrff eraill sy'n gyfrifol am ysgolion a cholegau, a hynny am fod gwahaniaethu gan gyrff o'r fath yn dod o dan Ran 4 o'r Ddeddf, sy'n ymwneud â gwahaniaethu wrth ddarparu addysg. Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd wedi cyhoeddi dau god ymarfer ar wahân sy'n rhoi canllawiau ar weithrediad Rhan 4 (gweler Atodiad B am fanylion).

3.11 Yn amlwg, mae rhai sefydliadau crefft (megis Cymdeithas y Cyfreithwyr) hefyd yn rhoi cymwysterau proffesiynol neu grefft. O ganlyniad, gall yr un sefydliad neu gorff fod yn sefydliad crefft ac yn gorff cymwysterau. Os mai felly y mae, mae'r ffordd y cymhwysir darpariaethau'r Ddeddf yn dibynnu yn rhinwedd pa swyddogaeth y mae'r sefydliad neu'r corff yn gweithredu ar yr adeg dan sylw. Er enghraifft, os yw gweithred wahaniaethol honedig yn ymwneud â rhoi, adnewyddu neu ymestyn cymhwyster proffesiynol neu grefft, y darpariaethau perthnasol yw'r rhai sy'n ymwneud â gwahaniaethu gan gyrff cymwysterau – mae'r ffaith bod y corff hefyd yn sefydliad crefft yn amherthnasol yn y cyd-destun hwn.

Cyrff cymwysterau cyffredinol

3.12 **[a 31AA (4) a (6) a Rheoliad 2 ac Atod i OS/2007/1764]** Mae'r Ddeddf yn diffinio corff cymwysterau cyffredinol fel awdurdod neu gorff a all roi, adnewyddu neu ymestyn cymhwyster perthnasol, neu ddilysu cymhwyster perthnasol a roddwyd gan berson arall. At y diben hwn mae cymhwyster proffesiynol yn awdurdodiad, yn gymhwyster, neu'n ardystiad a restrir yn y rheoliadau, ac mae un o'r cymwysterau canlynol:

- Arholiadau TAG (Tystysgrif Addysg Gyffredinol) Safon Uwch (Lefel A ac UG)
- Arholiadau TAA (Tystysgrif Addysg Alwedigaethol)
- Dyfarniadau Uwch Estynedig
- Arholiadau TGAU (Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd)
- Cymwysterau mathemateg annibynnol
- Cymwysterau lefel mynediad
- Sgiliau Allweddol
- Tystysgrifau mewn Llythrennedd a Rhifedd i Oedolion Lefelau Mynediad Lefel 1, 2 a 3
- GNVQ (Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol)
- Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yr Alban
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Y Fagloriaeth Ryngwladol

[a 31AA(6) (i– iv)] Yn unol â pharagraff 3.10, o dan y Ddeddf tybir nad yw rhai cyrff yn gyrff cymwysterau cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cyrff cyfrifol o fewn ystyr Penodau 1 a 2 o Ran 4 o'r Ddeddf (cyrff cyfrifol ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch), awdurdodau addysg lleol yng Nghymru a Lloegr ac awdurdodau addysg yn yr Alban. **[a 31AA(5)]** Ni all cymhwyster cyffredinol perthnasol fod yn gymhwyster proffesiynol a chrefft o fewn yr ystyr a roddir yn a 14A(5) o'r Ddeddf.

Cyflogwyr ac eraill y mae Rhan 2 yn berthnasol iddynt

3.13 Prif ffocws Rhan 2, wrth gwrs, yw dyletswyddau cyflogwyr i bobl anabl. Fel y nodir ym mharagraff 1.6, fodd bynnag, nid yw'r Cod hwn yn ymdrin â hynny. Rhoddir canllawiau ar y ffordd y cymhwysir y Ddeddf at gyflogwyr (ac at bobl a chyrff sy'n ymwneud â galwedigaethau penodol ac at bersonau megis ymddiriedolwyr neu reolwyr cynlluniau pensiwn galwedigaethol a darparwyr gwasanaethau yswiriant grŵp) mewn cod ymarfer ar wahân a gyhoeddir gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (gweler Atodiad B am fanylion). Nodwyd eisoes, fel cyflogwyr eu hunain, mae dyletswyddau ar sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol o dan Ran 2 mewn perthynas â phobl anabl y maent yn eu cyflogi, neu sy'n gwneud cais iddynt am gyflogaeth. Rheolir y dyletswyddau hyn gan ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n ymwneud â chyflogaeth.

Sefydliadau addysg y mae Pennod 2A o Ran 4 yn berthnasol iddynt

3.14 Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn ymwneud yn bennaf â dyletswyddau darparwyr addysg ('cyrff cyfrifol'). Fodd bynnag, nid yw'r Cod yn ymdrin â'r pwnc hwn ychwaith. Rhoddir canllawiau ar y ffordd y cymhwysir y Ddeddf at ddarparwyr addysg mewn cod ymarfer ar wahân a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd (gweler Atodiad B am fanylion).

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am wahaniaethu gan sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol?

Effaith y Ddeddf

3.15 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn anghyfreithlon i sefydliad crefft **wahaniaethu** yn erbyn person anabl mewn perthynas ag aelodaeth o'r sefydliad

neu'r buddiannau aelodaeth sydd ar gael. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol **wahaniaethu** yn erbyn person anabl mewn perthynas â rhoi cymwysterau proffesiynol neu grefft a chymwysterau cyffredinol perthnasol yn y drefn honno.

3.16 Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn atal sefydliadau na chyrff rhag trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl nad ydynt yn anabl.

Mathau o wahaniaethu

3.17 Y pedwar math o wahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan Ran 2 (ac yn anghyfreithlon o dan Ran 4) mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol) yw:

- gwahaniaethu uniongyrchol (esbonnir ei ystyr ym mharagraffau 4.4 i 4.21)
- methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (a esbonnir ym Mhennod 5)
- 'gwahaniaethu ar sail anabledd' (gweler paragraffau 4.25 i 4.30)
- erlid unigolyn (boed yn anabl ai peidio) – esbonnir beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud ynglŷn ag erledigaeth ym mharagraffau 4.31 i 4.34.

Gwahaniaethu gan sefydliadau crefft

3.18 **[a 13(1)]** Dywed y Ddeddf ei bod yn anghyfreithlon i sefydliad crefft wahaniaethu yn erbyn unigolyn anabl:

- yn y trefniadau a wna er mwyn penderfynu pwy ddylid cael cynnig aelodaeth o'r sefydliad, neu
- o ran ar ba delerau y mae'n barod i'w dderbyn yn aelod, neu
- drwy wrthod derbyn, neu beidio â derbyn yn fwriadol, ei gais am aelodaeth.

3.19 **[a 13(2)]** Dywed y Ddeddf hefyd ei bod yn anghyfreithlon i sefydliad crefft wahaniaethu yn erbyn aelod anabl:

- yn y ffordd y mae'n sicrhau bod unrhyw fuddiannau ar gael i'r aelod neu drwy wrthod neu beidio'n fwriadol â sicrhau eu bod ar gael, neu
- drwy dynnu aelodaeth oddi wrth yr aelod, neu drwy amrywio telerau ei aelodaeth, neu
- drwy beri unrhyw afles arall i'r aelod.

Esbonnir beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol ym Mhennod 7.

3.20 Dylid nodi nad yw'r Ddeddf yn diogelu aelodau corfforaethol o sefydliadau crefft, hyd yn oed os mai person anabl sy'n cynrychioli aelod corfforaethol.

Mae gan sefydliad crefft aelodau unigol ac aelodau corfforaethol yn y diwydiant adeiladu. Ni fyddai cyflogai anabl o gwmni sy'n aelod o'r sefydliad crefft hwn yn cael ei ddiogelu rhag gwahaniaethu gan y sefydliad crefft o dan Ran 2, ond byddai aelod unigol o'r sefydliad yn cael ei ddiogelu felly.

Gwahaniaethu gan gyrff cymwysterau

3.21 **[a 14A(1)]** Mewn perthynas â rhoi, adnewyddu, neu ymestyn cymwysterau proffesiynol neu grefft (a dalfyrrir yn 'rhoi'), dywed y Ddeddf ei bod yn anghyfreithlon i gyrff cymwysterau wahaniaethu yn erbyn rhywun anabl:

- yn y trefniadau a wna er mwyn penderfynu i bwy y dylid rhoi cymhwyster proffesiynol neu grefft, neu
- o ran ar ba delerau y mae'n barod i roi cymhwyster o'r fath, neu
- drwy wrthod cais ganddo i gael cymhwyster proffesiynol neu grefft neu beidio'n fwriadol â derbyn cais o'r fath, neu
- drwy dynnu cymhwyster o'r fath oddi arno neu amrywio ar ba delerau y mae'n ei ddal.

Esbonnir beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol ym Mhennod 8.

Gwahaniaethu gan gyrff cymwysterau cyffredinol

3.22 [a 31A(1)] Mewn perthynas â rhoi, adnewyddu, neu ymestyn cymhwyster cyffredinol (y cyfeirir atynt ar y cyd yn y cod hwn fel 'rhoi'), dywed y Ddeddf ei bod yn anghyfreithlon i gyrff cymwysterau cyffredinol wahaniaethu yn erbyn person anabl:

- yn y trefniadau a wna er mwyn penderfynu i bwy y dylid rhoi cymhwyster cyffredinol, neu
- o ran ar ba delerau y mae'n barod i roi cymhwyster o'r fath, neu
- drwy wrthod cais ganddo i gael cymhwyster cyffredinol perthnasol neu beidio'n fwriadol â derbyn cais o'r fath, neu
- drwy dynnu cymhwyster o'r fath oddi arno neu amrywio ar ba delerau y mae'n ei ddal.

Esbonnir beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol ym Mhennod 9.

Beth arall sy'n anghyfreithlon o dan ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf?

Aflonyddu

3.23 [a 13(3) ac a 14A(2) ac a 31AA(2)] Yn ogystal â'r hyn a ddywed am wahaniaethu, mae Rhan 2 (a Rhan 4) yn ei gwneud yn anghyfreithlon i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol **aflonyddu ar** berson anabl am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Esbonnir yn fanylach yr hyn a ddywed y Ddeddf am aflonyddu ym mharagraffau 4.36 i 4.37. Mae'r Ddeddf yn trin aflonyddu sy'n ymwneud ag anabledd fel cysyniad ar wahân, ac nid yw'n un o'r mathau o wahaniaethu.

Cyfarwyddiadau a phwysau i wahaniaethu

3.24 [a 16C ac a 17B(1)] Mae'n anghyfreithlon hefyd i berson sydd ag awdurdod neu ddylanwad dros un arall i'w gyfarwyddo, neu roi pwysau arno, i weithredu'n anghyfreithlon o dan ddarpariaethau Rhan 2 – **nid** yw'r ddarpariaeth hon yn gymwys i gyrff cymwysterau cyffredinol. Pan fo'r dyletswyddau hyn yn gymwys maent yn cwmpasu pwysau i wahaniaethu, p'un a roddir pwysau yn uniongyrchol ar y person dan sylw, neu'n anuniongyrchol ond mewn ffordd y mae'n debygol o glywed amdano. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i bobl anabl unigol i gymryd camau cyfreithiol mewn perthynas â chyfarwyddiadau anghyfreithlon neu bwysau i wahaniaethu. Dim ond y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a all gymryd camau penodol – (gweler paragraffau 11.26 i 11.28).

Mae undeb llafur yn cynnal cynhadledd. Mae trefnydd y gynhadledd, sy'n un o gyflogeion yr undeb yn gweithio yn yr adran ddigwyddiadau, yn rhoi cyfarwyddyd i gynrychiolwyr y canghennau i beidio ag anfon defnyddwyr cadair olwyn i'r gynhadledd gan nad yw'r lleoliad yn addas ar eu cyfer. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon am ei fod yn gyfarwyddyd i wahaniaethu.

Hysbysebion gwahaniaethol

3.25 [a 16B] Nid yw'r Ddeddf yn atal hysbysebion am aelodaeth o sefydliadau crefft, neu ar gyfer cymwysterau cyffredinol, proffesiynol neu grefft rhag dweud y croesewir ceisiadau gan bobl anabl. Fodd bynnag, mewn perthynas â sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau (ond **nid** mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol) nid yw'n dweud ei bod yn anghyfreithlon ceisio aelodau i sefydliad (neu geisio ymgeiswyr ar gyfer cymwysterau proffesiynol a chrefft) i gyhoeddi hysbyseb (neu beri iddi gael ei chyhoeddi) sy'n awgrymu, neu y gellid

yn rhesymol ddeall ei bod yn awgrymu:

- y bydd llwyddiant cais person yn dibynnu mewn unrhyw ffordd ar y ffaith nad oes ganddo unrhyw anabledd, neu unrhyw anabledd penodol, neu
- bod y sawl sy'n penderfynu ar y cais yn amharod i wneud addasiadau rhesymol.

3.26 Mae hyn yn gymwys i bob math o hysbyseb neu hysbysiad, boed yn gyhoeddus ai peidio. Fodd bynnag, gall hysbyseb fod yn gyfreithlon hyd yn oed os yw'n awgrymu y bydd anabledd penodol yn amharu ar ragolygon ymgeisydd. Bydd hyn yn wir lle mae'r amgylchiadau penodol, er enghraifft, yn caniatáu i'r sefydliad crefft neu'r corff cymwysterau ystyried effeithiau anabledd wrth asesu addasrwydd ymgeiswyr.

Mae corff cymwysterau yn y diwydiant twristiaeth yn hysbysebu mewn cyhoeddiad masnach, yn gwahodd darllenwyr i wneud cais am gwrs sy'n arwain at gymhwyster a achredir gan y corff hwnnw. Dywed yr hysbyseb fod yn rhaid i ymgeiswyr 'feddu ar sgiliau ysgrifenedig a llafar ardderchog yn Saesneg'. Byddai hyn yn allgáu pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel iaith gyntaf, neu bobl sydd â dyslecsia, a gall fod yn anghyfreithlon.

Fodd bynnag ni fyddai corff cymwysterau sy'n hysbysebu cwrs mewn trin coed yn gwahaniaethu drwy osod amod bod yn rhaid i ymgeiswyr 'beidio ag ofni uchder', hyd yn oed os bydd yn allgáu pobl sydd â fertigo o ganlyniad i'w hanabledd.

3.27 Mae'n arfer da ystyried yn ofalus pa wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn hysbysebion a lle y dylid eu gosod.

3.28 **[a 17B(1)]** Nid yw'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i gymryd camau cyfreithiol mewn perthynas â hysbysebion gwahaniaethol i ymgeiswyr unigol am aelodaeth o sefydliadau crefft neu ymgeiswyr am gymwysterau proffesiynol neu grefft. Dim ond y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a all gymryd camau penodol – (gweler paragraffau 11.26 i 11.28).

Pwy sy'n atebol am weithredoedd anghyfreithlon?

Cyfrifoldebau am weithredoedd pobl eraill

3.29 **[a 58]** Mae sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol sy'n gweithredu drwy asiantau yn atebol am weithredoedd eu hasiantau a wnaed gydag awdurdod uniongyrchol neu anuniongyrchol y sefydliad neu'r corff dan sylw – gall hyn gynnwys gweithredoedd cynrychiolwyr undebol di-dâl yn y gweithle neu sefydliadau addysg (a/neu eu cyflogeion) mewn perthynas ag arholiadau a phrofion.

3.30 Gall cyrff cymwysterau cyffredinol ddarparu'n uniongyrchol, neu gontractio â thrydydd partïon i drefnu a darparu, gyfleusterau arholi ac asesu, ac i ymgymryd ag arholiadau ac asesiadau a all arwain at roi cymwysterau cyffredinol perthnasol. Hefyd, gall rheoleiddwyr statudol bennu meini prawf a ddefnyddir gan gyrff cymwysterau cyffredinol i bennu amcanion arholi ac asesu. Ceir rhagor o wybodaeth am y cyd-destun y mae cyrff cymwysterau cyffredinol yn gweithredu ynddo a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ym Mhennod 9.

Mae unigolyn a benodir gan ganolfan arholi i oruchwylio arholiad ar gyfer cymhwyster TGAU yn gwrthod caniatáu i ymgeisydd ag anffurfiad difrifol ddod i mewn i'r neuadd arholi gan ei fod yn credu y bydd anabledd yr ymgeisydd hwn yn amharu ar ymgeiswyr eraill. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol ar sail anabledd sy'n anghyfreithlon. Mae'r goruchwyliwr dan sylw yn gweithredu ar ran y ganolfan arholi mewn perthynas â chynnal yr

arholiad ac, felly, mae'n debygol ei fod yn gweithredu fel asiant i'r corff cymwysterau cyffredinol sydd yn y pen draw yn rhoi'r cymhwyster TGAU. Byddai'r corff cymwysterau cyffredinol yn atebol o dan y Ddeddf am weithredoedd anghyfreithlon y goruchwyliwr a fyddai, ynghyd â'r ganolfan arholi, hefyd yn atebol yn unigol.

3.31 Dywed y Ddeddf hefyd fod sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn gyfrifol am weithredoedd eu cyflogeion yn ystod eu cyflogaeth. Er enghraifft, mae undeb llafur yn gyfrifol am weithredoedd ei swyddogion cyflogedig yn ystod eu cyflogaeth.

3.32 Fodd bynnag, mewn achos cyfreithiol yn erbyn sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol, sy'n seiliedig ar weithredoedd cyflogai, mae'n amddiffyniad bod y sefydliad neu'r corff wedi cymryd 'y cyfryw gamau ag a oedd yn rhesymol ymarferol' i atal gweithredoedd o'r fath. Nid yw'n amddiffyniad dangos bod y camau wedi eu cymryd heb yn wybod i'r sefydliad neu'r corff neu heb eu cymeradwyaeth. Ceir canllawiau ynglŷn â'r camau a allai fod yn briodol i'w cymryd at y diben hwn ym Mhennod 2.

Mae polisi anabledd undeb llafur yn nodi y bydd yn talu am ddehonglwyr iaith arwyddion i ddehongli mewn cyfarfodydd cangen, pe bai'r angen yn codi, o gronfa ganolog. Esbonnir y polisi hwn, a'r trefniadau sydd ar gael ar gyfer talu am ddehonglwyr arwyddion iaith (ac am addasiadau eraill), i bob cynrychiolydd cangen ac aelod newydd. Hefyd mae'n rhaid i bob cynrychiolydd cangen gael hyfforddiant sylfaenol ynglŷn â'r polisi. Mae aelod o'r undeb sy'n fyddar yn gwneud cais am ddehonglwr iaith arwyddion mewn cyfarfod cangen, ond dywed cynrychiolydd y gangen sydd wedi cael yr hyfforddiant hwn, nad yw hyn yn bosibl gan nad oes gan y gangen ddigon o arian i dalu am yr addasiad hwn. Yn yr achos hwn gallai'r undeb ddangos ei fod wedi cymryd 'y cyfryw gamau ag a oedd yn rhesymol ymarferol' i atal gweithredoedd o'r fath ac mae'n debygol nad yw wedi gweithredu'n anghyfreithlon. Fodd bynnag, mae'n debygol bod cynrychiolydd y gangen yn gweithredu'n anghyfreithlon (gweler paragraffau 3.29 a 3.30).

Mae Arholwr sy'n gweithio i gorff cymwysterau cyffredinol yn yr Alban yn gwrthod caniatáu i ddisgybl gyda nam difrifol ar ei leferydd gael amser ychwanegol i ateb mewn Prawf Siarad Ffrangeg. Cyflogir yr Arholwr gan y corff cymwysterau cyffredinol felly bydd y corff yn atebol am weithredoedd gwahaniaethol o bosibl yr Arholwr (wrth fethu â gwneud addasiad rhesymol), oni allai ddangos ei fod wed cymryd y cyfryw gamau ag a oedd yn rhesymol ymarferol i atal gweithredoedd o'r fath (gweler paragraffau 3.29 a 3.30).

Cynorthwyo gweithred anghyfreithlon

3.33 **[a 57]** Bydd unigolyn sy'n helpu rhywun arall i wneud rhywbeth sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf gan wybod ei fod yn anghyfreithlon yn cael ei drin fel petai wedi cyflawni'r un fath o weithred anghyfreithlon. Mae hyn yn golygu, pan fo sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn atebol am weithred anghyfreithlon un o'i gyflogeion neu'i asiantau, y bydd y cyflogai neu'r asiant hwnnw yn atebol am gynorthwyo gweithred anghyfreithlon y sefydliad neu'r corff.

3.34 Pan fo un o gyflogeion sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn gwahaniaethu yn erbyn person anabl neu'n aflonyddu arno, y sefydliad neu'r corff sy'n ei gyflogi fydd yn atebol am y weithred anghyfreithlon honno – oni ellir dangos iddo gymryd y cyfryw gamau ag a

oedd yn rhesymol i atal y weithred anghyfreithlon dan sylw. Ond bydd y cyflogai a wahaniaethodd yn erbyn person anabl neu a aflonyddodd arno yn atebol am gynorthwyo'r weithred anghyfreithlon – a bydd hyn yn wir hyd yn oed os gall y sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol ddangos iddo gymryd camau rhesymol i atal y weithred.

Yn yr enghraifft olaf ond un, pan oedd yr undeb wedi cymryd camau i sicrhau y gall aelodau anabl gymryd rhan mewn cyfarfodydd cangen, mae'n debygol y bydd cynrychiolydd y gangen yn gweithredu'n anghyfreithlon drwy gynorthwyo gweithred anghyfreithlon gan yr undeb, er bod yr undeb ei hun wedi osgoi atebolrwydd drwy gymryd camau rhesymol ymarferol.

Gorfodi hawliau o dan Ran 2 o'r Ddeddf

3.35 [a 17A] Gorfodir hawliau o dan Ran 2 yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth. Ceir rhagor o wybodaeth am orfodi ym Mhennod 11.

Gorfodi hawliau o dan Ran 4 o'r Ddeddf (mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol)

3.36 [a 31ADA(4) a (5) a Rheoliad 3 o OS/2007/2405] Gorfodir hawliau o dan Ran 4 mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol yn y llysoedd sirol yng Nghymru a Lloegr (neu yn llysoedd y siryf yn yr Alban). Ceir rhagor o wybodaeth am orfodi ym Mhennod 11.

4. Beth yw gwahaniaethu ac aflonyddu?

Cyflwyniad

4.1 Y mathau o wahaniaethu gan sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf yw:

- gwahaniaethu uniongyrchol
- methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol
- gwahaniaethu ar sail anabledd
- erledigaeth.

4.2 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r pedwar math hyn o wahaniaethu yn fanylach, ac yn esbonio'r gwahaniaeth rhyngddynt. Yn benodol, mae'n ystyried y gwahaniaeth rhwng gwahaniaethu uniongyrchol a gwahaniaethu ar sail anabledd (gweler paragraffau 4.25 i 4.30, a 4.35). Mae'r ddau fath hyn o wahaniaethu yn dibynnu ar y ffordd y caiff y person anabl dan sylw ei drin – o dan y naill a'r llall mae'n rhaid bod y person anabl wedi ei drin yn llai ffafriol nag y mae (neu y byddai) pobl eraill yn cael eu trin. Fodd bynnag, mae p'un a yw triniaeth o'r fath yn gyfystyr ag un o'r mathau hyn o wahaniaethu (ac, yn wir, a yw'r driniaeth yn anghyfreithlon yn y lle cyntaf) yn dibynnu ar yr amgylchiadau lle y cododd.

4.3 Mae'r bennod yn ystyried y pedwar math o wahaniaethu yn y drefn y'u rhestrir ym mharagraff 4.1, a hynny am y gellir cyfiawnhau weithiau driniaeth lai ffafriol nad yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. (Mewn gwrthgyferbyniad, ni ellir cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol na methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol. Ni ellir cyfiawnhau erledigaeth ychwaith.) Wrth benderfynu a ellir cyfiawnhau'r driniaeth ac felly a fu gwahaniaethu ar sail anabledd, o dan y Ddeddf mae'n rhaid ystyried cwestiwn addasiadau rhesymol (gweler paragraffau 6.5 a 6.6) lle yr esbonnir hyn yn fanylach). O ganlyniad, er bod y bennod yn disgrifio gwahaniaethu uniongyrchol yn gyntaf, mae'n cyffwrdd ag addasiadau rhesymol cyn symud yn ei blaen i drafod gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r bennod hon hefyd yn esbonio beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'aflonyddu'.

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'wahaniaethu uniongyrchol'?

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud?

4.4 **[a 3A(5) a 31AB(8)]** Dywed y Ddeddf fod y ffordd y trinnir person anabl gan sefydliad crefft, corff cymwysteau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol:

- os yw ar sail ei anabledd
- os yw'r driniaeth yn llai ffafriol na'r ffordd y mae (neu y byddai) rhywun nad oes ganddo'r anabledd penodol hwnnw yn cael ei drin,
- os yw amgylchiadau perthnasol y person y cymharir ag ef, gan gynnwys ei alluoedd, yr un peth â rhai'r person anabl, neu os nad ydynt yn wahanol iawn.

4.5 Mae'n dilyn bod gwahaniaethu uniongyrchol yn dibynnu ar y ffaith y trinnir person anabl gan sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol ar sail ei anabledd. Mae'n dibynnu hefyd ar gymharu'r driniaeth honno â'r ffordd y mae (neu y byddai) y sefydliad neu'r corff yn trin cymharydd priodol. Os trinnir y person anabl yn llai ffafriol nag y mae (neu y byddai) y cymharydd yn cael ei drin, a hynny ar sail ei anabledd, mae'r driniaeth yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Pryd y mae gwahaniaethu uniongyrchol yn debygol o godi?

4.6 Caiff person anabl ei drin 'ar sail ei anabledd' os gwneir hynny am ei fod yn anabl neu am fod ganddo'r anabledd dan sylw. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y caiff person anabl ei drin ar sail anabledd os na fyddai wedi cael ei drin felly oni bai am ei anabledd. Fodd bynnag, nid oes rhaid mai anabledd yw unig achos (neu hyd yn oed prif achos) y driniaeth y cwynir yn ei chylch – ar yr amod ei fod yn achos effeithiol, y penderfynwyd arno'n wrthrychol o'r holl amgylchiadau.

4.7 O ganlyniad, os ceir triniaeth lai ffafriol oherwydd rhagdybiaethau cyffredinol neu ystrydebol ynglŷn â'r anabledd neu'i effeithiau, y tebyg yw mai gwahaniaethu uniongyrchol ydyw, a hynny am na fyddai sefydliad crefft, corff cymwysterau na chorff cymwysterau cyffredinol fel arfer yn gwneud rhagdybiaethau o'r fath am berson nad yw'n anabl, ond y byddai, yn hytrach, yn ystyried ei alluoedd unigol.

Ni chaniateir i aelod o undeb llafur sydd â chyflwr iechyd meddwl – y mae ysgrifennydd y gangen yn ymwybodol ohono – fod yn bresennol mewn cyfarfod am fod ysgrifennydd y gangen yn camdybio y byddai'n tarfu ar y cyfarfod. Mae ysgrifennydd y gangen wedi ei thrin yn llai ffafriol nag aelodau eraill drwy wrthod caniatáu iddi fod yn y cyfarfod. Cafodd y fenyw ei thrin ar sail ei hanabledd (am na fyddai'r rhagdybiaethau hyn wedi cael eu gwneud am berson nad oedd yn anabl).

Mae'n bolisi cyffredinol gan gorff cymwysterau cyffredinol i beidio â chaniatáu i ymgeiswyr ag epilepsi sefyll arholiadau ymarferol mewn cemeg. Ni chaniateir i ymgeisydd ag epilepsi sefyll arholiadau ymarferol mewn cemeg. Mae hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth bod pawb ag epilepsi yn risg annerbyniol i iechyd a diogelwch yn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Mae'n arfer gan gorff cymwysterau cyffredinol i beidio â chaniatáu i ddefnyddwyr cadair olwyn ymgymryd â chymhwyster TGAU mewn Dawns, am y tybir na all yr un defnyddiwr cadair olwyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn, ac mae wedi gweithredu'r polisi hwn heb ystyried amgylchiadau unigol yr unigolyn. Mae hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

4.8 Hefyd, mae triniaeth lai ffafriol sy'n ymwneud ag anabledd penodol, neu sy'n codi o ragfarn ynglŷn ag anabledd (neu ynglŷn â math penodol o anabledd) yn debygol o fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Dywedir wrth ymgeisydd ar gyfer cymhwyster trin gwallt proffesiynol na fyddai'n addas ar gyfer y cymhwyster am fod ganddo anabledd ac felly mae'r corff cymwysterau yn gwrthod rhoi'r cymhwyster iddo. Nid yw'r penderfyniad hwn yn ymwneud ag unrhyw safon cymhwysedd a gymhwysir gan y corff wrth roi'r cymhwyster, ond yn hytrach mae'n codi o ragfarn ynglŷn ag anabledd yr ymgeisydd. Mae hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Ni chaniateir i rywun ag anffurfiad gweladwy difrifol i ymgymryd â GNVQ mewn hamdden a thwristiaeth am fod y corff sy'n rhoi'r cymhwyster hwn yn credu y bydd yr anabledd hwn yn ei atal rhag cael gwaith yn y sector hwn. Mae hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn dweud wrth ymgeisydd sydd am astudio ar gyfer TGAU mewn bioleg na ddylai ddilyn y cwrs am fod HIV arni. Mae'r penderfyniad hwn yn codi o ragfarn ynglŷn ag anabledd yr ymgeisydd. Mae hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

4.9 Weithiau, gall rheswm niwtral i bob golwg dros drin person anabl yn

llai ffafriol, o ymchwilio iddo, fod yn esgus dros wahaniaethu uniongyrchol.

Mae aelod anabl o gorff proffesiynol yn dymuno cynrychioli'r corff yn gyhoeddus drwy roi cyfweliad teledu ond dywedir wrtho mai dim ond pobl sydd wedi bod yn aelodau ers tair blynedd a gaiff wneud hyn. Fodd bynnag, mae'n dod i wybod bod aelod arall, nad yw'n anabl, wedi rhoi cyflwyniad cyhoeddus ar ran y corff proffesiynol er mai dim ond am ddwy flynedd roedd wedi bod yn aelod ar y pryd. Er bod y rheswm a roddwyd i'r aelod anabl (sef nad oedd wedi bod yn aelod o'r corff yn ddigon hir i'w gynrychioli'n gyhoeddus) i'w weld yn un niwtral, mae'n debyg mai esgus dros wahaniaethu uniongyrchol oedd y rheswm mewn gwirionedd, ac felly ei fod yn anghyfreithlon.

4.10 Yn aml ceir gwahaniaethu uniongyrchol pan fo'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol yn ymwybodol bod anabledd gan y person anabl, a dyna'r rheswm dros ei drin felly. Nid oes angen i wahaniaethu uniongyrchol fod yn ymwybodol – gall pobl fod â rhagfarnau nad ydynt yn eu cyfaddef, hyd yn oed iddynt hwy eu hunain. Felly, gall rhywun ymddwyn mewn ffordd wahaniaethol gan gredu na fyddai byth yn gwneud hynny. At hynny, ceir gwahaniaethu uniongyrchol weithiau pan fo'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol yn ymwybodol bod anabledd gan y person anabl, a dyna'r rheswm dros ei drin felly.

4.11 Mewn sefyllfaoedd fel y rhai a ddisgrifir yn yr enghreifftiau uchod, yn aml bydd yn ddigon amlwg i'r person anabl dan sylw gael ei drin yn llai ffafriol ar sail ei anabledd. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, gall fod yn llai amlwg. P'un a yw sail y driniaeth dan sylw yn ymddangos yn amlwg ai peidio, un ffordd ddefnyddiol o ddweud a yw'n wahaniaethol ai peidio (a chadarnhau pa fath o wahaniaethu ydyw) yw canolbwyntio ar y sawl y dylid cymharu'r person anabl ag ef. Gall fod yn real neu'n ddamcaniaethol (gweler paragraff 4.17).

Nodi sut y gellir cymharu mewn perthynas â gwahaniaethu uniongyrchol

4.12 Wrth benderfynu a gafodd person anabl ei drin yn llai ffafriol yng nghyd-destun gwahaniaethu uniongyrchol, mae'n rhaid cymharu'r ffordd y cafodd ei drin â chymharydd priodol. Dylai fod yn rhywun nad oes ganddo'r un anabledd. Gallai fod yn berson nad yw'n anabl neu berson ag anableddau eraill.

4.13 Mae'n dilyn, yn y mwyafrif helaeth o achosion, y bydd peth gwahaniaeth rhwng yr amgylchiadau (gan gynnwys galluoedd) y cymharydd a'r person anabl – nid oes angen dod o hyd i gymharydd nad yw ei amgylchiadau yn union yr un peth â rhai'r person anabl. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yn rhaid i amgylchiadau **perthnasol** y cymharydd (gan gynnwys ei alluoedd) fod yr un peth â rhai'r person anabl, neu nid yn wahanol iawn iddynt.

4.14 Ar ôl nodi cymharydd priodol, mae'n amlwg bod y sefyllfaoedd a ddisgrifir yn yr enghreifftiau ym mharagraff 4.7 yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol:

Yn yr enghraifft ynglŷn â'r aelod o undeb llafur na chaniatawyd iddi fod yn bresennol mewn cyfarfod am fod ganddi broblem iechyd meddwl, ceir gwahaniaethu uniongyrchol am fod y fenyw wedi ei thrin yn llai ffafriol ar sail ei hanabledd na chymharydd priodol (hynny yw, rhywun nad oes ganddo broblem iechyd meddwl ond y mae ei amgylchiadau perthnasol (gan gynnwys gallu) fel arall yn debyg: ni fyddai'r undeb llafur wedi gwrthod caniatáu i berson o'r fath fod yn bresennol yn y cyfarfod o dan yr un amgylchiadau.

Yn yr enghraifft ynglŷn â'r corff cymwysterau cyffredin yr oedd yn

bolisi cyffredinol ganddo i beidio â chaniatáu i ymgeiswyr ag epilepsi sefyll arholiadau ymarferol mewn cemeg, ceir gwahaniaethu uniongyrchol am fod yr ymgeisydd wedi ei thrin yn llai ffafriol ar sail ei hanabledd yn hytrach na chymharydd priodol (hynny yw, rhywun heb epilepsi ond y mae ei amgylchiadau perthnasol (gan gynnwys gallu) fel arall yn debyg): ni fyddai'r corff cymwysterau cyffredinol wedi atal person o'r fath rhag sefyll yr arholiad.

Yn yr enghraifft ynglŷn â'r corff cymwysterau cyffredinol y mae'n bolisi cyffredinol ganddo i beidio â chaniatáu i ddefnyddwyr cadair olwyn ymgymryd â chymhwyster TGAU mewn Dawns, ceir gwahaniaethu uniongyrchol gan y byddai ymgeisydd nad yw'n defnyddio cadair olwyn a chanddo'r un galluoedd â'r ymgeisydd sy'n defnyddio cadair olwyn wedi cael ei drin yn fwy ffafriol: byddai'r corff cymwysterau cyffredinol wedi caniatáu i berson o'r fath ddilyn y cwrs.

4.15 Mae'r enghreifftiau o wahaniaethu uniongyrchol ym mharagraff 4.8 hefyd yn dod yn fwy amlwg o nodi'r cymharydd priodol:

Yn yr enghraifft ynglŷn â'r ymgeisydd ar gyfer cymhwyster trin gwallt proffesiynol y dywedwyd wrtho na fyddai'n addas ar gyfer y cymhwyster am fod anabledd ganddo, ceir gwahaniaethu uniongyrchol am fod y dyn wedi ei drin yn llai ffafriol ar sail ei anabledd na chymharydd priodol (hynny yw, rhywun nad oes ganddo'r un anabledd, ond y mae ei allu perthnasol fel arall yn debyg): ni fyddai'r corff cymwysterau cyffredinol wedi trin person o'r fath yn y modd hwn.

Yn yr enghraifft ynglŷn â'r person ag anffurfiad gweladwy difrifol na chaniatawyd iddo ymgymryd â GNVQ mewn hamdden a thwristiaeth, ceir gwahaniaethu uniongyrchol am fod yr ymgeisydd ag anffurfiad difrifol yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhywun a chanddo'r un galluoedd ond nad oes ganddo anffurfiad difrifol: byddai'r corff cymwysterau cyffredinol wedi caniatáu i berson o'r fath ddilyn y cwrs hwn.

Yn yr enghraifft ynglŷn â'r ymgeisydd TGAU mewn bioleg y dywedwyd wrthi na ddylai ddilyn y cwrs am fod HIV ganddi, ceir gwahaniaethu uniongyrchol am fod yr ymgeisydd wedi ei thrin yn llai ffafriol ar sail ei hanabledd. Cymharydd priodol fyddai rhywun nad oes ganddo'r un anabledd, ond y mae ei alluoedd perthnasol mewn perthynas â'r cymhwyster yn debyg ac na chafodd ei drin yn yr un ffordd.

4.16 Yr un yw'r cymharydd a ddefnyddir mewn perthynas â gwahaniaethu uniongyrchol o dan y Ddeddf â'r cymharydd a ddefnyddir ar gyfer mathau eraill o wahaniaethu uniongyrchol – megis gwahaniaethu uniongyrchol ar sail rhyw. Fodd bynnag, nodwyd yn benodol yn y Ddeddf fod yn rhaid i'r cymharydd feddu ar yr un galluoedd perthnasol â'r person anabl.

4.17 Efallai na fydd modd nodi cymharydd gwirioneddol y mae ei amgylchiadau perthnasol yr un peth â rhai'r person anabl dan sylw (neu nad ydynt yn wahanol iawn iddynt). Mewn achosion o'r fath gellir defnyddio cymharydd damcaniaethol. Mae tystiolaeth sy'n helpu i gadarnhau sut y byddai cymharydd damcaniaethol wedi cael ei drin yn debygol o gynnwys manylion ynglŷn â sut y cafodd pobl eraill (nad ydynt yn bodloni'r prawf cymharu statudol) eu trin o dan amgylchiadau a oedd, yn fras, yn debyg.

Yn yr enghraifft ym mharagraff 4.9, nid oes neb sydd wedi cynrychioli'r corff proffesiynol mewn cyfweliadau ar y teledu y gellir cymharu'r person anabl ag ef. Serch hynny, gallai'r ffordd y triniwyd yr unigolyn a oedd wedi bod yn aelod am ddwy flynedd yn unig ond a allai roi cyflwyniad cyhoeddus ar ran y

corff fod yn dystiolaeth o wahaniaethu: gellid ei defnyddio fel tystiolaeth na fyddai aelod damcaniaethol nad oedd yn anabl a ddymunai gymryd rhan mewn cyfweliad ar y teledu wedi cael ei drin yn yr un ffordd â'r aelod anabl.

4.18 Dylid nodi bod y math o gymharydd a ddisgrifir yn y paragraffau blaenorol ond yn berthnasol i wahaniaethu anabledd wrth asesu a fu gwahaniaethu **uniongyrchol**. Ni ellir gwneud cymhariaeth wahanol wrth asesu a fu methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (gweler paragraffau 5.2 a 5.3) neu wrth ystyried gwahaniaethu ar sail anabledd (gweler paragraff 4.29).

Canolbwyntio ar amgylchiadau perthnasol

4.19 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.13 dim ond pan fo amgylchiadau **perthnasol** y cymharydd, gan gynnwys ei alluoedd, yr un peth â rhai'r person anabl ei hun, neu nad ydynt yn wahanol iawn, y ceir gwahaniaethu uniongyrchol. Felly mae'n bwysig canolbwyntio ar yr amgylchiadau hynny sydd, mewn gwirionedd, yn berthnasol i'r mater y mae'r driniaeth lai ffafriol yn ymwneud ag ef. Er y gall effeithiau'r anabledd, mewn rhai achosion, fod yn berthnasol, nid yw'r anabledd ynddo'i hun yn berthnasol at y dibenion hyn, a hynny am fod yn rhaid cymharu â rhywun **nad** oes ganddo'r anabledd penodol hwnnw.

Mae menyw ag anffurfiad wynebol difrifol yn gwneud cais i ymaelodi mewn cymdeithas broffesiynol yn y diwydiant twristiaeth. Er ei bod yn bodloni'r gofynion ffurfiol ar gyfer ymaelodi, dywedwyd wrthi na fyddai ei hanabledd yn creu argraff dda a gwrthodwyd ei chais. Y cymharydd cywir mewn hawliad o wahaniaethu uniongyrchol fyddai rhywun heb anffurfiad wynebol ond sy'n bodloni'r gofynion ffurfiol ar gyfer ymaelodi mewn cymdeithas broffesiynol.

Mae disgybl sydd ag arthrogryposis (cyflwr cyhyrysgerbydol) yn cael marciau uchel iawn mewn ymarfer arddangos galluoedd nofio. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn amau'r marc gan gredu bod yn rhaid bod camgymeriad wedi cael ei wneud. Y cymharydd cywir mewn hawliad o wahaniaethu uniongyrchol fyddai rhywun heb y nam hwn, ond y byddai ei alluoedd o ran yr asesiad nofio yr un peth â'r person ag arthrogryposis, neu na fyddai'n wahanol iawn iddo.

Perthnasedd addasiadau rhesymol i gymhariaeth

4.20 Wrth wneud y gymhariaeth mewn perthynas â hawliad o wahaniaethu uniongyrchol, mae'n rhaid ystyried galluoedd y person anabl **fel y maent mewn gwirionedd**. Mewn rhai achosion, bydd addasiadau rhesymol penodol y bu'n ofynnol i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol eu gwneud o dan y Ddeddf, ond y methwyd â'u gwneud mewn gwirionedd. Efallai y byddai'r addasiadau hynny wedi cael effaith ar alluoedd perthnasol y person anabl. Ond wrth wneud y gymhariaeth, dylid ystyried galluoedd y person anabl fel y maent **mewn gwirionedd**, ac nid fel y byddent neu y gallent fod wedi bod pe bai'r addasiadau hynny wedi cael eu gwneud. Ar y llaw arall, os oedd addasiadau wedi eu gwneud **mewn gwirionedd** a oedd wedi cael effaith ar wella galluoedd y person anabl, yna'r galluoedd gwell hynny y dylid eu hystyried. Mae galluoedd y person anabl yn cael eu hystyried fel y maent mewn gwirionedd (ac nid fel y gallent fod wedi bod pe na bai'r addasiadau wedi cael eu gwneud).

Mae'n rhaid i berson anabl sefyll arholiad er mwyn cael cymhwyster cyffredinol perthnasol. Oherwydd ei hanabledd, mae'n cael anhawster ysgrifennu, ac mae'n gofyn am ganiatâd i deipio ei hatebion neu gael amser ychwanegol i gwblhau'r arholiad. Nid yw'r corff cymwysterau cyffredinol yn caniatáu

hyn (er y byddai wedi bod yn rhesymol gwneud hynny) ac, o ganlyniad, ni all y fenyw gwblhau'r arholiad mewn pryd. Nid gwahaniaethu uniongyrchol mohono, gan mai person nad yw'n anabl sydd hefyd yn methu â chwblhau'r arholiad mewn pryd yw'r cymharydd at ddibenion yr hawliad hwn. (Ond mae'n debyg y byddai gan y fenyw le da dros hawliad mewn perthynas â dau fath arall o wahaniaethu – methiant i wneud addasiadau rhesymol a gwahaniaethu ar sail anabledd – gweler paragraff 4.35).

A ellir cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol?

4.21 **[a 3A(4) ac a 31AB(7)]** Mae trin person anabl mewn ffordd sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan y Ddeddf yn anghyfreithlon. Ni ellir byth ei chyfiawnhau.

Methiant i wneud addasiadau rhesymol – y berthynas â gwahaniaethu

4.22 Am y rheswm a roddir ym mharagraff 4.3, efallai y bydd angen ystyried a yw sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol wedi methu â chydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol er mwyn penderfynu a fu gwahaniaethu ar sail anabledd.

4.23 **[a 3A(2) ac a 31AB(2)]** Fodd bynnag, waeth beth fo ei berthnasedd i wahaniaethu ar sail anabledd, mae methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol mewn perthynas â pherson anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu ynddo'i hun. Mae methiant o'r fath yn anghyfreithlon felly. Mae Pennod 5 yn esbonio'r amgylchiadau lle mae gan sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol ddyletswydd o'r fath, a lle mae'n rhoi canllawiau ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud wrth i'r ddyletswydd godi. Ym Mhenodau 7, 8 a 9 ceir hefyd ganllawiau pellach ynglŷn â phryd y gellid ystyried bod addasiad yn rhesymol mewn perthynas â sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn y drefn honno.

4.24 Fel yn achos gwahaniaethu uniongyrchol, nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i sefydliad neu gorff gyfiawnhau methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol (gweler paragraffau 5.26 a 5.27).

Beth yw gwahaniaethu ar sail anabledd?

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud?

4.25 **[a 3A(1) ac a 31AB(1)]** Dywed y Ddeddf fod y ffordd y trinnir person anabl gan sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol:

- os yw'r rheswm yn gysylltiedig â'i anabledd
- os yw'n cael ei drin yn llai ffafriol nag y mae'r (neu y byddai'r) sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol yn trin eraill nad yw'r (neu na fyddai'r) rheswm yn berthnasol iddynt
- os na all y sefydliad neu'r corff ddangos y gellir cyfiawnhau'r driniaeth.

4.26 Er nad yw'r Ddeddf ei hun yn defnyddio'r term 'gwahaniaethu ar sail anabledd', defnyddir yr ymadrodd hwn yn y Cod wrth gyfeirio at drin person anabl mewn ffordd:

- sy'n anghyfreithlon am fod pob un o'r amodau a restrir ym mharagraff 4.25 wedi ei fodloni, ond
- **nad** yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan y Ddeddf.

4.27 Yn gyffredinol, ceir gwahaniaethu uniongyrchol os mai'r anabledd yw'r rheswm dros y driniaeth lai ffafriol dan sylw, ceir gwahaniaethu ar sail anabledd os nad yr anabledd ei hun yw'r rheswm ond

bod y rheswm yn gysylltiedig â'r anabledd. Felly mae'r ymadrodd 'gwahaniaethu ar sail anabledd' yn gwahaniaethu rhwng triniaeth lai ffafriol sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol a dosbarth ehangach o driniaeth lai ffafriol sydd, er nad yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, eto i gyd yn anghyfreithlon.

Pryd y ceir gwahaniaethu ar sail anabledd?

4.28 Wrth benderfynu a fu gwahaniaethu ar sail anabledd, mae'n rhaid cymharu'r ffordd y trinnir y person anabl â'r ffordd y trinnir rhywun **nad yw'r rheswm ar sail anabledd yn berthnasol iddo**. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â gwahaniaethu uniongyrchol sy'n gofyn am gymharu rhywun heb yr anabledd dan sylw ond mae ei amgylchiadau perthnasol yr un peth. Gall cymharydd fod yn berson anabl neu'n berson nad yw'n anabl – y pwynt allweddol yw na ddylai'r rheswm sy'n gysylltiedig ag anabledd dros y driniaeth lai ffafriol fod yn berthnasol iddo.

Mae undeb llafur yn gwrthod caniatáu i berson anabl, â chyflwr difrifol yn ymwneud â'r cefn nad yw wedi gallu ymgymryd â gweithgareddau cangen am rai misoedd oherwydd ei hanabledd, fynd ar gwrs hyfforddiant. Dywed yr undeb y byddai wedi gwrthod hyfforddiant i unrhyw un nad oedd wedi bod yn ymgymryd â gweithgareddau eu cangen am gyfnod mor hir. Y rheswm sy'n gysylltiedig ag anabledd dros y driniaeth lai ffafriol yw'r ffaith nad yw'r fenyw wedi bod yn ymgymryd â gweithgareddau'r gangen, a'r cymharydd cywir yw rhywun nad yw'r rheswm hwn yn berthnasol iddo – hynny yw, rhywun sydd wedi bod yn ymgymryd â gweithgareddau cangen. O ganlyniad, oni all yr undeb llafur ddangos y gellir cyfiawnhau'r driniaeth, bydd yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd am **na** fyddai'r undeb wedi gwrthod rhoi cyfle i'r cymharydd fynd ar y cwrs hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yr anabledd ei hun yw'r rheswm dros y driniaeth (ond mater sy'n ymwneud ag ef, sef methu â chyflawni gweithgareddau cangen). Felly ni cheir gwahaniaethu uniongyrchol

Mae corff cymwysterau cyffredinol wedi gosod amser dechrau o 9am i ddisgyblion/myfyrwyr sy'n sefydll arholiad ac mae'n gwrthod caniatáu i unrhyw un sefyll yr arholiad hwn ar amser gwahanol. Mae disgybl anabl y mae angen triniaeth feddygol reolaidd arno (dialysis) ar yr adeg hon o'r bore yn methu â bod yn bresennol yn yr arholiad. Os bydd penderfyniad y corff cymwysterau cyffredinol i wrthod caniatáu iddo sefyll yr arholiad ar adeg wahanol yn driniaeth lai ffafriol am resymau sy'n gysylltiedig ag anabledd a byddai'n achos o wahaniaethu ar sail anabledd oni bai bod y corff cymwysterau cyffredinol yn gallu cyfiawnhau'r driniaeth. Nid yr anabledd ei hun yw'r rheswm dros y driniaeth, felly ni cheir gwahaniaethu uniongyrchol.

4.29 Mae'n rhaid barnu'r berthynas rhwng anabledd person anabl a'r ffordd y caiff ei drin gan y sefydliad neu'r corff dan sylw mewn ffordd wrthrychol. Mae'n ddigon posibl bod y rheswm dros unrhyw driniaeth lai ffafriol yn ymwneud â'r anabledd hyd yn oed os nad yw'r sefydliad neu'r corff yn ymwybodol o'r anabledd fel y cyfryw, nac yn gwybod a yw ei nodweddion perthnasol yn bodloni'r diffiniad o anabledd yn y Ddeddf. Bydd triniaeth lai ffafriol nad yw'n wahaniaethu uniongyrchol ynddo'i hun yn anghyfreithlon o hyd (oni ellir ei chyfiawnhau) os yw'r rheswm drosti yn gysylltiedig ag anabledd y person mewn gwirionedd.

Yn yr enghraifft gyntaf o baragraff 4.28, nid oedd yr undeb llafur yn gwybod nad oedd y fenyw wedi bod yn ymgymryd â gweithgareddau'r gangen am reswm a oedd yn gysylltiedig ag anabledd. Serch hynny, mae ei benderfyniad i wrthod caniatáu iddi fynd ar y cwrs hyfforddiant yn driniaeth lai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd a byddai'n anghyfreithlon oni ellir ei chyfiawnhau.

Yn yr ail enghraifft ym mharagraff 4.28, nid oedd y corff cymwysterau cyffredinol yn gwybod pam na allai'r disgybl fod yn yr arholiad am 9am (ac ni wnaeth unrhyw ymholiadau priodol) a bod y rheswm yn gysylltiedig ag anabledd. Serch hynny, mae'r penderfyniad i wrthod caniatáu i'r disgybl sefyll yr arholiad ar amser arall yn driniaeth lai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd a byddai'n anghyfreithlon oni ellir ei chyfiawnhau.

4.30 Esbonnir yr amgylchiadau lle mae cyfiawnhad yn bosibl ym Mhennod 6. Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai dim ond os mai gwahaniaethu ar sail anabledd, yn hytrach na gwahaniaethu uniongyrchol neu fethiant i wneud addasiadau rhesymol yw'r math o wahaniaethu dan sylw y bydd y posibilrwydd o gyfiawnhau gwahaniaethu posibl yn codi.

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am erledigaeth?

4.31 **[a 55(1) a (2)]** Mae erledigaeth yn fath arbennig o wahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf. Mae'n anghyfreithlon i rywun drin un arall ('y dioddefwr') yn llai ffafriol nag y mae neu y byddai'n trin pobl eraill o dan yr un amgylchiadau am fod y dioddefwr wedi:

- dwyn achos o dan y Ddeddf, neu wedi rhoi tystiolaeth neu wybodaeth mewn cysylltiad ag achos (p'un a dynnwyd yr achos yn ôl yn ddiweddarach ai peidio)
- gwneud unrhyw beth arall o dan y Ddeddf, neu
- wedi honni bod rhywun wedi ymddwyn yn groes i'r Ddeddf (p'un a yw'r honiad yn cael ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach ai peidio),

neu am ei fod yn credu neu'n amau bod y dioddefwr wedi gwneud unrhyw un o'r pethau hyn neu'n bwriadu gwneud hynny.

Mae aelod o sefydliad crefft yn hawlio i'r sefydliad wahaniaethu yn ei erbyn. Mae ffrind, sydd hefyd yn aelod o'r sefydliad yn mynd gydag ef i'r gwrandawiad ynglŷn â'r hawliad. Yna mae'r sefydliad yn gwrthod rhoi lle i'r yr unigolyn hwn ar gwrs a drefnir gan y sefydliad am iddo fynd i'r gwrandawiad gyda'r hawlydd. Mae hyn yn gyfystyr ag erledigaeth.

Mae disgybl nad yw'n anabl mewn ysgol yn cefnogi cyd-ddisgybl anabl mewn perthynas â chwyn o wahaniaethu ar sail anabledd a wnaed yn erbyn corff cymwysterau cyffredinol. Ar ôl hynny, am fod y corff cymwysterau cyffredinol dan sylw yn anfodlon ar hyn, mae'n gwrthod ailfarcio papur arholiad a gwblhawyd gan y disgybl anabl. Mae hyn yn gyfystyr ag erledigaeth.

4.32 **[a 55(4)]** Nid yw'n erledigaeth trin rhywun yn llai ffafriol am ei fod wedi gwneud honiad a oedd yn anwir ac nad oedd wedi ei wneud yn ddidwyll.

4.33 Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod rhywun wedi rhoi tystiolaeth ar ran ceisydd mewn hawliad a fu'n aflwyddiannus, ynddi'i hun, yn profi bod ei dystiolaeth yn anwir neu nad oedd wedi ei rhoi'n ddidwyll.

4.34 **[a 55(5)]** Yn wahanol i'r mathau eraill o wahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf, gall pobl nad ydynt yn anabl hawlio iddynt ddioddef erledigaeth yn ogystal â phobl sy'n anabl.

Sut mae cymharu'r gwahanol fathau o wahaniaethu yn ymarferol?

4.35 Gellir dangos y ffordd y gall y gwahanol fathau o wahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf weithredu'n ymarferol drwy'r gyfres ganlynol o enghreifftiau.

Mae person anabl â sglerosis ymledol yn gwneud cais i fynd i gynhadledd undeb sy'n para wythnos. Mae'n sôn am ei hanabledd ar y ffurflen archebu, ond mae'n dweud na fyddai'n effeithio

ar ei gallu i ddod i'r gynhadledd. Serch hynny, mae trefnydd y gynhadledd yn camdybio y bydd anabledd y fenyw yn ei hatal rhag cymryd rhan yn y gynhadledd ac yn gwrthod lle iddi. Gwahaniaethu uniongyrchol yw hwn.

Yn y sefyllfa a ddisgrifir uchod, mae'r fenyw yn nodi ar y ffurflen archebu y bydd yn rhaid iddi golli un diwrnod o'r gynhadledd er mwyn cael triniaeth ysbyty mewn perthynas â'i hanabledd. Am fod angen presenoldeb llawn gan bob cynadleddwr, gwrthodir rhoi lle iddi. Nid gwahaniaethu uniongyrchol yw hwn, gan nad anabledd y fenyw oedd y rheswm dros wrthod rhoi lle iddi, ond y ffaith na allai fod yn bresennol bob dydd.

Fodd bynnag, mae dyletswydd gan yr undeb llafur i wneud addasiadau rhesymol. Er mwyn atal y fenyw anabl rhag bod o dan anfantais sylweddol oherwydd polisi'r undeb o ganiatáu i'r bobl hynny sy'n gallu bod yn bresennol yn y gynhadledd bob dydd gael mynd, gall fod yn addasiad rhesymol i'r undeb hepgor y gofyniad hwn. Os felly, bydd yr undeb yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn y fenyw drwy wrthod gwneud hyn.

Er na cheir gwahaniaethu uniongyrchol, eto i gyd mae'r undeb wedi trin y fenyw yn llai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i hanabledd (sef, y ffaith na all fod yn bresennol yn y gynhadledd bob dydd). Gwahaniaethu ar sail anabledd fydd hwn, oni all yr undeb ddangos y gellir ei gyfiawnhau – ac ni all yr undeb ddangos hyn pe bai wedi bod yn rhesymol iddo hepgor y gofyniad am bresenoldeb llawn.

Oherwydd y ffordd y cafodd ei thrin, mae'r fenyw yn gwneud hawliad yn erbyn yr undeb llafur o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Fodd bynnag beth amser wedi hynny, mae'n gofyn am gynrychiolaeth undebol mewn perthynas â chwyn yn y gwaith. Gwrthodir ei chais am iddi wneud hawliad yn erbyn yr undeb yn y gorffennol. Erledigaeth yw hyn.

Mae myfyriwr chweched dosbarth anabl yn astudio ar gyfer lefel A. Cyn i'r myfyriwr anabl ddechrau astudio, cyfarfu staff yn y coleg ag ef i drafod yr addasiadau rhesymol y byddai eu hangen arno i astudio yno. Fodd bynnag, mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn camdybio y bydd anabledd y myfyriwr yn ei atal rhag cymryd rhan lawn yn y cwrs Lefel A ac nid yw'n ei dderbyn i sefyll yr arholiad. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol.

Yn y sefyllfa uchod mae'r myfyriwr yn sôn wrth y coleg y bydd angen rhaglen gwrs fwy hyblyg arno, am fod ei gyflwr yn golygu bod yn rhaid iddo ymweld â'r ysbyty yn rheolaidd, ac felly na fydd yn gallu mynychu pob gwers na chyflwyno gwaith cwrs ar amser. Mae'r coleg yn gwneud cais i newid y dyddiad cau (i'r myfyriwr anabl gyflwyno ei waith cwrs) i'r corff cymwysterau cyffredinol sy'n rhoi'r cymhwyster hwn. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn penderfynu peidio â chaniatáu i'r myfyriwr gael yr hyblygrwydd hwn am ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gadw yn gaeth at bob dyddiad cau ar gyfer gwaith cwrs ac mae'n gwrthod rhoi'r cymhwyster am fod gwaith cwrs y myfyriwr hwn wedi ei gyflwyno ar ôl y dyddiad cau.

Mae'r ddyletswydd ar y corff cymwysterau cyffredinol i wneud addasiadau rhesymol yn golygu y gall fod yn rhesymol hepgor y gofyniad bod yn rhaid cadw at ddyddiadau cau gwaith cwrs yn gaeth er mwyn atal y myfyriwr anabl rhag bod o dan anfantais sylweddol oherwydd y polisi hwn. Os yw'r corff cymwysterau cyffredinol yn gwrthod gwneud yr addasiadau rhesymol posibl y gellid eu gwneud, bydd yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon.

Er na cheir gwahaniaethu uniongyrchol am fod y gofyniad i gadw at ddyddiadau cau gwaith cwrs yn berthnasol i bawb fel ei gilydd, eto i gyd mae'r corff cymwysterau cyffredinol wedi ei drin yn llai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd, a hynny oherwydd

gwrthodir rhoi'r cymhwyster am na allai'r myfyriwr anabl gyflwyno ei waith cwrs ar amser oherwydd apwyntiadau ysbyty rheolaidd ac mae hyn, yn ei dro, yn ymwneud â rhesymau sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Bydd hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd, oni all y corff cymwysterau cyffredinol ddangos y gellir cyfiawnhau'r driniaeth. Pe bai'n rhesymol rhoi hyblygrwydd o ran y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs, ni allai ddangos bod y gofyniad hwn wedi ei gyfiawnhau.

Oherwydd y ffordd y cafodd ei drin, mae'r myfyriwr yn gwneud hawliad yn erbyn y corff cymwysterau cyffredinol. Ychydig o flynyddoedd wedi hynny, gwneir cais ar ei ran i ymgynnig am gymhwyster TGAU a weinyddir gan yr un corff cymwysterau cyffredinol. Gwrthodir ei gais am iddo wneud hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd yn ddidwyll yn erbyn y corff cymwysterau cyffredinol. Erledigaeth yw hyn.

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am aflonyddu?

4.36 [a 3B(1) ac a 31AC(1)] Dywed y Ddeddf fod aflonyddu yn digwydd pan fydd unigolyn, am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd person, yn ymddwyn mewn ffordd ddiangen sy'n anelu at wneud y canlynol neu sy'n cael yr effaith ganlynol:

- amharu ar urddas unigolyn anabl, neu
- creu amgylchedd sy'n bygylu, yn diraddio, yn bychanu neu'n tramgwyddo'r unigolyn hwnnw.

4.37 [a 3B(2) ac a 31AC(2)] IOs oedd gan yr ymddygiad dan sylw y bwriad o gael y naill effaith neu'r llall, yna mae'n gyfystyr ag aflonyddu waeth beth fo ei effaith wirioneddol ar y person anabl. Fodd bynnag, os na fu bwriad o'r fath, dim ond os gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn cael y naill effaith neu'r llall y bydd yr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu. Mae'n rhaid ystyried yr holl amgylchiadau er mwyn penderfynu ai felly y mae. Mae'r amgylchiadau hynny yn cynnwys, yn benodol, ganfyddiad y person anabl.

Mae aseswr o gorff cymwysterau mecaneg moduron yn beirniadu nifer o dasgau ymarferol a gyflawnwyd yn y gweithle gan fecanydd moduron dan hyfforddiant sydd â nam ar y lleferydd. Mae'r aseswr yn dynwared y ffordd y mae'r mecanydd yn siarad ac yn gwneud sylwadau tramgwyddus amdano i'w reolwr llinell. Aflonyddu yw hwn, p'un a oedd y dyn anabl yn bresennol ai peidio pan wnaed y sylwadau, am iddynt gael eu gwneud gyda'r bwriad o'i ddiraddio.

Mewn seremoni wobrwyo gan sefydliad crefft, mae aelod o'r sefydliad yn gwneud araith sy'n cynnwys sylwadau difrïol am bobl â sgitsoffrenia. Mae menyw a sgitsoffrenia sy'n aelod o'r sefydliad crefft ac sy'n bresennol yn y gynulleidfa yn gwneud cwyn am yr araith ond dywedir wrthi mai jôc oedd y sylwadau ac nad oedd y siaradwr yn bwriadu peri tramgwydd. Serch hynny, roedd profiad y fenyw yn debygol o fod yn gyfystyr ag aflonyddu am y gellid yn rhesymol ystyried bod y sylwadau a wnaed gan y siaradwr yn cael y naill effaith neu'r llall a nodir uchod.

Mae aelod o undeb llafur sydd â HIV yn defnyddio cwpan aelod arall yn ystod cyfarfod. Yna mae'r aelod arall yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn golchi'r cwpan â channydd, rhywbeth na fyddai wedi ei wneud pe bai rhywun arall wedi defnyddio ei chwpan. Mae hefyd yn gwneud sylwadau tramgwyddus am y ffaith bod rhywun â HIV wedi defnyddio ei chwpan. Mae hyn yn debygol o fod yn aflonyddu.

Mae cynrychiolydd cangen undeb llafur yn dosbarthu jôc am bobl ag awtistiaeth dros yr e-bost i aelodau'r gangen. Mae aelod ag awtistiaeth yn derbyn yr e-bost ac yn teimlo bod y jôc yn dramgwyddus. Mae hyn yn debygol o fod yn aflonyddu.

Yn ystod arholiad mae athro sy'n goruchwylio'r arholiad – sy'n gweithredu fel asiant y corff cymwysterau cyffredinol – yn gwneud i ymgeisydd anabl ag anymataliaeth esbonio, o flaen ei gyd-fyfyrwyr a'i gyfoedion, pam mae angen iddo fynd i'r tŷ bach. Mae hyn yn debygol o fod yn aflonyddu.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn cynnig adnoddau a chanllawiau i swyddogion arholi ar weinyddu arholiadau. Mae'r deunyddiau yn awgrymu y gall ymgeiswyr â dyslecsia fod yn fwy tebygol o dwyllo a chamddefnyddio'r addasiadau rhesymol a gynigir iddynt. Aflonyddu yw hwn, p'un a oedd y person anabl yn bresennol ai peidio pan wnaed y sylwadau ysgrifenedig, am iddynt gael eu gwneud gyda'r bwriad o ddiraddio pobl â dyslecsia.

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am rwymedigaethau statudol?

4.38 **[a 59]** Nid oes dim yn cael ei wneud yn anghyfreithlon gan y Ddeddf os yw'n ofynnol gan rwymedigaeth statudol benodol. Fodd bynnag, dim ond mewn achosion lle ceir rhwymedigaeth statudol benodol yn ei ofynion, gan sicrhau nad oes gan sefydliad crefft, corff cymwysterau na chorff cymwysterau cyffredinol unrhyw ddewis ond gweithredu mewn ffordd benodol y gellir diystyru darpariaethau'r Ddeddf. Felly mae'r ddarpariaeth yn adran 59 o'r Ddeddf yn un gul ei chymhwysiad, a dim ond yn anaml iawn y bydd yn debygol o ganiatáu gwahaniaethu ar sail anabledd.

Pa dystiolaeth sydd ei hangen i brofi bod gwahaniaethu neu aflonyddu wedi digwydd?

4.39 Mae'n rhaid i rywun sy'n gwneud hawliad o wahaniaethu anghyfreithlon neu aflonyddu ddangos bod gwahaniaethu neu aflonyddu wedi digwydd. Mae'n rhaid iddo brofi hyn yn ôl yr hyn sy'n debygol er mwyn i hawliad lwyddo.

4.40 **[a 17A(1C), a31ADA(2) a Rheoliad 3 o OS/2007/2405]** Fodd bynnag, mewn perthynas â sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol, dywed y Ddeddf, pan fydd tribiwnlys neu lys yn gwrando hawliad o'r fath, bod yn rhaid i'r tribiwnlys neu'r llys gadarnhau'r hawliad:

- os yw'r hawlydd yn profi ffeithiau y gallai'r tribiwnlys neu'r llys gasglu yn seiliedig arnynt ac yn niffyg esboniad digonol bod y person y gwneir hawliad yn ei erbyn (yr atebydd neu'r diffynnydd) wedi gweithredu'n anghyfreithlon, ac
- os yw'r atebydd/diffynnydd yn methu â phrofi na weithredodd yn y modd hwnnw.

Yr unig aelod o gangen undeb llafur i beidio â chael e-bost yn ei wahodd i sefyll etholiad fel cynrychiolydd cangen yw dyn anabl ag awtistiaeth. Oni bai bod yr undeb yn dangos rheswm anwahaniaethol am yr hepgoriad hwn, gellir casglu bod gwahaniaethu anghyfreithlon yn yr amgylchiadau hyn.

4.41 O ganlyniad, pan fydd person anabl yn gallu profi, yn ôl yr hyn sy'n debygol, ffeithiau y gellir casglu ohonynt fod gwahaniaethu anghyfreithlon neu aflonyddu, mae'r baich profi yn newid i'r atebydd/diffynnydd, a fydd wedyn yn gorfod dangos nad oedd ei ymddygiad fwy na thebyg yn anghyfreithlon. Mae'r egwyddor hon yn gymwys i honiadau mewn perthynas â phob math o wahaniaethu, gan gynnwys erledigaeth, ac i aflonyddu. Gellir crynhoi ei heffaith ymarferol mewn perthynas â'r tri phrif fath o wahaniaethu ar sail anabledd fel a ganlyn:

- Er mwyn profi honiad o **wahaniaethu uniongyrchol**, mae'n rhaid i hawlydd brofi ffeithiau y gellid casglu ohonynt yn niffyg esboniad digonol, iddo

gael ei drin yn llai ffafriol ar sail ei anabledd nag y mae, neu y byddai, cymharydd priodol yn cael ei drin. Os yw'r hawlydd yn gwneud hyn, bydd yr hawliad yn llwyddo oni bai bod yr atebydd/diffynnydd yn gallu dangos nad oedd anabledd yn rhan o'r rheswm dros y driniaeth dan sylw.

- Er mwyn profi honiad bod **methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol**, mae'n rhaid i hawlydd brofi ffeithiau y gellid casglu ohonynt, yn niffyg esboniad digonol, bod dyletswydd o'r fath wedi codi, ac y cafwyd tor-dyletswydd. Os yw'r hawlydd yn gwneud hyn, bydd yr hawliad yn llwyddo oni bai bod yr atebydd/diffynnydd yn gallu dangos nad oedd wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswydd yn hyn o beth.
- Er mwyn profi honiad o **wahaniaethu ar sail anabledd**, mae'n rhaid i hawlydd brofi ffeithiau y gellid casglu ohonynt, yn niffyg esboniad digonol, iddo gael ei drin yn llai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd, nag y mae neu y byddai person nad yw'r rheswm hwnnw yn berthnasol iddo wedi cael ei drin. Os yw'r hawlydd yn gwneud hyn, bydd y baich profi yn newid, a'r atebydd/diffynnydd fydd yn gorfod dangos nad oedd yr hawlydd wedi cael triniaeth lai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd. Hyd yn oes os na all yr atebydd/diffynnydd ddangos hyn, fodd bynnag, ni fydd yr hawliad yn llwyddo os yw'r atebydd/diffynnydd yn dangos bod y driniaeth wedi ei chyfiawnhau.

4.42 **[a 56]** Mae'r Ddeddf yn fodd i berson anabl geisio tystiolaeth ynghylch a oes rhywun wedi gwahaniaethu yn ei erbyn neu wedi aflonyddu arno, o dan Ran 2. Fodd bynnag, nid oes gweithdrefn gyfatebol mewn cysylltiad â Rhan 4 mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol. Pan fo cyfle o'r fath i geisio tystiolaeth yn codi o dan y Ddeddf, gall person wneud hyn drwy ddefnyddio holiadur i gael gwybodaeth bellach gan y sawl y cred iddo weithredu'n anghyfreithlon mewn perthynas ag ef (gweler paragraff 11.5). Os bu methiant i roi ateb boddhaol i gwestiynau a ofynnwyd gan y person anabl yn y modd hwn, gellir dod i gasgliadau o'r methiant hwnnw.

4.43 Hefyd, mae'n rhaid i lys neu dribiwnlys ystyried y ffaith bod methiant i gydymffurfio ag un o ddarpariaethau perthnasol y Cod wrth benderfynu a fu gwahaniaethu neu aflonyddu (gweler paragraff 1.7).

5. Beth yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol?

Cyflwyniad

5.1 Un o'r ffyrdd y mae gwahaniaethu yn digwydd o dan Ran 2 neu Ran 4 o'r Ddeddf yw pan fydd sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn methu â chydymffurfio â dyletswydd arno i wneud 'addasiadau rhesymol' mewn perthynas â'r person anabl. Mae'r bennod hon yn ystyried yr amgylchiadau pan fydd dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn codi ac yn amlinellu beth mae angen i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol ei wneud er mwyn cyflawni dyletswydd o'r fath.

Pryd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn codi?

5.2 **[a 14(1), a 14B(1), a 31AD(1) a (3)]** Yn amodol ar yr hyn a nodir ym mharagraff 5.7 ynglŷn â safonau cymhwysedd, mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn codi pan fo darpariaeth, maen prawf neu arfer a gymhwysir gan neu ar ran sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol, neu unrhyw nodwedd ffisegol o adeilad a feddiennir ganddo, yn peri bod person anabl o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'n rhaid i'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol iddo eu cymryd o dan yr holl amgylchiadau i atal yr anfantais honno – mewn geiriau eraill mae'n rhaid iddo wneud 'addasiad rhesymol'. Pan fo'r ddyletswydd yn codi, ni all sefydliad na chorff gyfiawnhau methiant i wneud addasiad rhesymol.

Mae sefydliad crefft i drinwyr gwallt yn trefnu cwrs hyfforddiant undydd mewn technegau lliwio i'w aelodau. Mae aelod anabl am gael lle ar y cwrs hwn ond nid yw rhaglen y dydd yn caniatáu digon o seibiannau iddo. Felly byddai o dan anfantais sylweddol oherwydd ei anabledd. Mae'r sefydliad crefft yn aildrefnu rhaglen y dydd i gynnwys mwy o seibiannau. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol iddo ei wneud.

Mae gan sefydliad crefft i seiri ffurflen gais sy'n cynnwys sawl paragraff mewn print mân. Ni all saer rhannol ddall ddarllen y ffurflen gyfan ac felly mae o dan anfantais sylweddol am na all ei llenwi'n gywir. Mae'r sefydliad crefft yn rhoi copi o'r ffurflen gais mewn print bras. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol iddo ei wneud.

Mae corff cymwysterau yn cynnal seremoni rhoi cymwysterau yn ei bencadlys. Mae menyw newydd gymhwyso sy'n defnyddio cadair olwyn am fynd i'r seremoni ond mae o dan anfantais sylweddol am mai dim ond drwy ddringo grisiau y gellir cyrraedd y llwyfan lle rhoddir y cymwysterau. Mae'r corff cymwysterau yn darparu ramp i fyny'r llwyfan. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r corff cymwysterau ei wneud.

Mae menyw anabl na all ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus am fynd i ffair grefft yng nghanol Llundain, a drefnwyd gan sefydliad crefft y mae'n aelod ohono. Nid oes fawr ddim parcio yn yr ardal ac mae'r daflen wybodaeth yn awgrymu y dylai ymwelwyr i'r ffair grefft ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r fenyw

yn gofyn i'r sefydliad crefft a yw'n gallu trefnu lle parcio ac mae'n gwneud hynny. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r sefydliad crefft ei wneud.

Mae ymgeisydd ar gyfer cymhwyster cyffredinol sydd â nam ar ei olwg yn gofyn am nifer o addasiadau rhesymol er mwyn sefyll prawf ysgrifenedig. Wrth baratoi ar gyfer prawf, mae'r swyddog arholiadau yn y ganolfan yn trafod gofynion yr ymgeisydd ar gyfer y prawf gydag ef ymlaen llaw ac wedyn yn trafod y gofynion hyn gyda'r corff cymwysterau cyffredinol. Pan fydd yn sefyll y papur, mae'n cael papur print bras, amser ychwanegol, lamp ddesg a seibiant. Mae'r rhain yn debygol o fod yn addasiadau rhesymol.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn caniatáu i berson â Syndrom Blinder Cronig sydd, oherwydd effeithiau ei nam, yn methu â theithio i leoliad arholiad sefyll arholiad (a oruchwylir yn briodol gan athro o'i choleg) gartref. Rhoddir amser ychwanegol iddi sefyll yr arholiad. Mae'r rhain yn debygol o fod yn addasiadau rhesymol i'r corff cymwysterau cyffredinol eu gwneud.

5.3 Nid oes gwahaniaeth p'un a all person anabl nodi person gwirioneddol nad yw'n anabl y mae o dan anfantais sylweddol o'i gymharu ag ef. Mae'r ffaith na fyddai person nad yw'n anabl, neu hyd yn oed person anabl arall, o dan anfantais sylweddol oherwydd y ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer neu oherwydd y nodwedd ffisegol dan sylw yn amherthnasol. Mae dyletswydd benodol i'r person anabl unigol.

Pa bobl anabl y mae'r ddyletswydd yn eu diogelu?

5.4 Er mwyn osgoi gwahaniaethu, mae'n ddoeth peidio â cheisio barnu a yw unigolyn penodol yn dod o dan y diffiniad statudol o anabledd, ond yn hytrach dylid canolbwyntio ar anghenion pob unigolyn y mae sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn ymwneud ag ef. Fodd bynnag, dywed y Ddeddf fod dyletswyddau i'r bobl ganlynol:

- **[a 14(2)]** pobl anabl sy'n aelodau o sefydliadau crefft, neu sy'n ymgeiswyr, neu'n ddarpar ymgeiswyr, i ymaelodi mewn sefydliadau o'r fath,
- **[a 14(2)]** pobl anabl sy'n dal cymwysterau proffesiynol neu grefft, neu sy'n ymgeiswyr, neu'n ddarpar ymgeiswyr, am gymwysterau o'r fath.
- **[a 31AD(2) a (3)]** pobl anabl sy'n dal cymwysterau cyffredinol, neu sy'n ymgeiswyr, neu'n ddarpar ymgeiswyr, am gymwysterau o'r fath.

5.5 Mae graddau'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn dibynnu ar amgylchiadau'r person anabl dan sylw. Er enghraifft, mae dyletswyddau ehangach i aelodau o sefydliadau crefft neu ddeiliaid cymwysterau proffesiynol neu grefft nag sydd i bobl sy'n ystyried gwneud cais. Fodd bynnag, o ran cyrff cymwysterau cyffredinol mae dyletswyddau ehangach i bobl sydd am ennill cymwysterau cyffredinol ac i ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau a all arwain at gymwysterau o'r fath, nag sydd i bobl sydd eisoes yn dal cymwysterau o'r fath. Mae dyletswyddau ehangach hefyd i aelodau a deiliaid cymwysterau cyfredol nag i gyn-aelodau neu i bobl nad ydynt yn dal cymhwyster mwyach. Mae'r graddau y mae sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn ymwybodol o amgylchiadau perthnasol hefyd yn ffactor. Esbonnir y materion hyn yn fanylach ym Mhenodau 7, 8 a 9.

Beth yw 'darpariaethau, meini prawf ac arferion'?

5.6 **[a 18D(2) ac a 31AD(5)]** Mae darpariaethau, meini prawf ac arferion yn cynnwys trefniadau, er enghraifft ar gyfer penderfynu pwy y dylid ei

dderbyn yn aelod o sefydliad crefft, neu i bwy y dylid rhoi cymhwyster cyffredinol, proffesiynol neu grefft, yn ogystal â rheolau aelodaeth sefydliad. Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys, er enghraifft, i weithdrefnau dewis a chyfweld sefydliadau crefft ac i weithdrefnau arholi ac asesu a ddefnyddir gan gyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol. Hefyd, mae'r ddyletswydd yn gymwys i safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithdrefnau o'r fath.

Mae undeb llafur yn ei gwneud yn ofynnol i'w aelodau fod yn gyflogedig neu'n chwilio am waith mewn sector penodol. Mae menyw wedi cael anaf i'w hasgwrn cefn o ganlyniad i ddamwain. Nid yw'n gyflogedig nac yn chwilio am waith am ei bod yn ymaddasu i'w hanabledd newydd, ond serch hynny hoffai aros yn aelod o'r undeb, gan y byddai'n ei helpu i gadw mewn cysylltiad â'r sector y gweithiai ynddo cyn ei damwain. Mae'r undeb yn cytuno y gall gadw ei haelodaeth. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r undeb llafur ei wneud i faen prawf (yn yr achos hwn maen prawf aelodaeth).

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn cael ffurflen gais gan ganolfan sydd am gofrestru ymgeiswyr anabl am arholiad a fydd, os ydynt yn llwyddo, yn arwain at gymhwyster cyffredinol perthnasol. Ni all ymgeisydd sydd â nam corfforol sy'n effeithio ar ei gallu i ysgrifennu gwblhau'r papurau arholiad ysgrifenedig. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn caniatáu i'r ganolfan ddarparu ysgrifennwr i'r unigolyn hwn. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r corff cymwysterau ei wneud.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn cyhoeddi rhestr o drefniadau mynediad cymeradwy yn rheolaidd. Yng ngoleuni sylwadau gan ymgeiswyr, canolfannau a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl, mae'n adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y meini prawf a nodir yn addas at y diben. Mae hefyd yn sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer ceisiadau am addasiadau rhesymol nas cwmpesir yn y canllawiau ar drefniadau mynediad.

5.7 [a 14B(1) ac a 31AD(1) a (2) ac a 31AB(9)] Dylid nodi, mewn perthynas â chyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol, nad oes dyletswydd i wneud unrhyw addasiad i ddarpariaeth, maen prawf nac arfer o'r fath a ddisgrifir yn y Ddeddf fel 'safon cymhwysedd'. Ystyrir yr hyn a ddywed y Ddeddf am safonau cymhwysedd yn fanylach mewn perthynas â chyrff cymwysterau ym mharagraffau 8.27 i 8.41 ac mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol ym mharagraffau 9.57 i 9.82.

Beth yw 'nodwedd ffisegol'?

5.8 [a 18D(2) a Rheoliad 4 o OS/2007/1764] Dywed y Ddeddf y dylid trin y canlynol fel nodwedd ffisegol:

- unrhyw nodwedd sy'n codi o gynllun neu adeiladwaith adeilad ar safle'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol.
- nodwedd unrhyw ffordd i mewn at adeilad o'r fath, ffordd allan ohono neu fynediad iddo ar y safle.
- unrhyw osodiadau, ffitiadau, deunydd dodrefnu, dodrefn, cyfarpar neu ddeunyddiau yn neu ar y safle,
- unrhyw nodwedd ffisegol arall neu ansawdd unrhyw dir ar safle'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol.

Cwmpesir pob un o'r nodweddion hyn boed yn rhai dros dro neu barhaol. Esbonnir yr hyn y mae angen ei ystyried wrth wneud addasiadau i safle ym Mhennod 10.

Mae cynllun cyfleuster hyfforddi cymdeithas broffesiynol yn ei gwneud

yn anodd i berson â nam ar y golwg symud o amgylch y lle, gan fod drysau gwydr, paneli gwydr ac arwynebau sy'n adlewyrchu. Mae hon yn anfantais sylweddol a achosir gan nodweddion ffisegol safle'r gymdeithas broffesiynol.

5.9 Bydd nodweddion ffisegol yn cynnwys grisiau unigol, grisiau, cyrbau, arwynebau allanol a phafin, meysydd parcio, mynedfeydd ac allanfeydd adeiladau (gan gynnwys llwybr dianc brys), drysau mewnol ac allanol, clwydi, toiledau a chyfleusterau ymolchi, goleuadau ac awyru, lifftiau a grisiau symudol, gorchuddion llawr, arwyddion, dodrefn ac eitemau dros dro neu symudol. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Pa anfanteision sy'n peri bod dyletswydd?

5.10 Dywed y Ddeddf mai dim ond anfanteision sylweddol sy'n peri bod dyletswydd. Anfanteision sylweddol yw rhai nad ydynt yn fach nac yn ddibwys. Mater ffeithiol ydyw a yw anfantais o'r fath yn bodoli mewn achos penodol. Yr hyn sy'n bwysig yw nid bod darpariaeth, maen prawf neu arfer neu nodwedd ffisegol yn gallu peri anfantais sylweddol i'r person anabl dan sylw, ond ei bod neu ei fod (neu y byddai) yn cael yr effaith hon arno.

A yw gwybodaeth am yr anabledd yn ffactor?

5.11 **[a 14(3) ac a 14B(3) ac a 31AD(4)]** Er y gall triniaeth lai ffafriol ddigwydd (fel yr esboniwyd ym mharagraffau 4.10 a 4.29) hyd yn oed os nad yw sefydliad crefft, corff cymwysterau na chorff cymwysterau cyffredinol yn gwybod bod y person yn anabl, dim ond os yw'n gwybod, neu os gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo wybod, fod anabledd gan y person a'i fod yn debygol o fod o dan anfantais sylweddol, y bydd dyletswydd arno i wneud addasiad rhesymol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol wneud popeth y gellir disgwyl yn rhesymol iddo ei wneud i ganfod ai felly y mae. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhenodau 7, 8 a 9 ynglŷn â'r berthynas rhwng gwybodaeth sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol a'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf.

Pa addasiadau y bydd angen eu gwneud o bosibl?

5.12 **[a 18B(2)]** Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn rhoi nifer o enghreifftiau o addasiadau, neu 'gamau' y bydd yn rhaid i sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau eu cymryd o bosibl, os yw'n rhesymol iddynt wneud hynny (gweler paragraffau 5.14 i 5.25). Gall llawer o'r enghreifftiau hyn hefyd fod yn berthnasol i gyrff cymwysterau cyffredinol ac maent yn dangos y math o addasiadau y bydd yn rhaid iddynt eu hystyried o bosibl, er na restrir enghreifftiau cyfatebol ym Mhennod 2A neu Ran 4 o'r Ddeddf. Dylid gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol yn amserol, ac efallai y bydd angen gwneud mwy nag un addasiad hefyd. Cynghorir y corff priodol i gytuno ar unrhyw addasiadau arfaethedig â'r person anabl dan sylw cyn iddynt gael eu gwneud. Nid yw'r Ddeddf yn rhoi rhestr gynhwysfawr o'r camau y bydd yn rhaid eu cymryd o bosibl i gyflawni'r ddyletswydd. Nid yw pob un o'r camau a restrir yn y Ddeddf yn debygol o fod yn berthnasol i sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau. Yn yr un modd, weithiau bydd yn rhaid cymryd camau nas rhestrir, neu gyfuniad o gamau. Fodd bynnag, y camau yn y Ddeddf y mae'n debygol y bydd yn rhesymol i sefydliadau crefft neu gyrff cymwysterau eu cymryd yw:

- addasu ei safle

Efallai y bydd yn rhaid i sefydliad crefft neu gorff cymwysterau wneud newidiadau strwythurol neu newidiadau eraill megis: lledu drws, darparu ramp neu symud dodrefn i ddefnyddiwr cadair olwyn; newid safle switshis golau, dolenni drws neu silffoedd i

rywun sy'n cael anhawster eu cyrraedd; sicrhau gwrthgyferbyniad priodol o ran addurniadau i helpu rhywun â nam ar ei olwg i symud o gwmpas yn ddiogel.

- rhoi, neu drefnu, hyfforddiant neu fentora (boed i'r person anabl neu unrhyw un arall)

Gallai hyn fod yn hyfforddiant yn y defnydd o gyfarpar penodol a ddefnyddir gan y person anabl wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau fel un o fuddiannau eu haelodaeth o'r sefydliad crefft, neu hyfforddiant y gall unrhyw aelod gymryd rhan ynddo ond y mae angen ei addasu i'r person anabl oherwydd eu hanabledd. Er enghraifft, efallai y bydd pob aelod yn cael cyfle i gael hyfforddiant yn y defnydd o system gyfrifiadurol llyfrgell y sefydliad crefft ond efallai y bydd yn rhaid i'r sefydliad crefft ddarparu mwy o hyfforddiant neu hyfforddiant gwahanol i berson anabl.

Mae undeb llafur yn rhoi hyfforddiant i gangen ar gynnal cyfarfodydd mewn ffordd sy'n galluogi aelod byddar o'r gangen i gymryd rhan.

Mae aelod anabl o gymdeithas broffesiynol am fod yn gymrawd o'r sefydliad ond mae'n poeni am y gofyniad i basio asesiad – cyflwyniad llafar i gymrodorion y gymdeithas gyda sesiwn holi ac ateb – am fod nam ar ei lleferydd. Mae'r gymdeithas broffesiynol yn trefnu iddi weld mentor (yn yr achos hwn cymrawd anabl o'r un gymdeithas) i'w helpu i gael ei derbyn yn gymrawd.

- prynu neu addasu cyfarpar

Efallai y bydd yn rhaid i sefydliad crefft neu gorff cymwysterau drefnu i ddarparu, neu gydsynio i ddarparu cyfarpar arbennig i alluogi person anabl i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu gael gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad neu'r corff. Nid oes gofyniad i ddarparu nac addasu cyfarpar at ddibenion person nad ydynt yn gysylltiedig ag ymwneud unigolyn â'r sefydliad crefft neu'r corff cymwysterau, er enghraifft darparu cadair olwyn os bydd angen un ar unigolyn sut bynnag ond nad oes un ganddo.

- addasu cyfarwyddiadau neu ganllawiau cyfeirio

Efallai y bydd angen diwygio'r ffordd y rhoddir cyfarwyddiadau fel arfer wrth ddweud wrth berson anabl sut i wneud tasg. Efallai y bydd angen addasu fformat cyfarwyddiadau neu ganllawiau cyfeirio (e.e. mewn Braille neu ar dâp sain) ac efallai y bydd angen i gyfarwyddiadau gael eu cyfleu ar lafar gyda sesiwn arddangos unigol i bobl ag anableddau dysgu.

- addasu gweithdrefnau ar gyfer profi neu asesu

Gallai hyn gynnwys sicrhau nad yw dulliau profi penodol yn effeithio'n andwyol ar bobl anabl benodol. Er enghraifft, gallai prawf a ysgrifennir â llaw beri bod rhywun â sgiliau deheurwydd llaw cyfyngedig fod o dan anfantais a bydd angen gwneud trefniant amgen megis cynnig prawf llafar neu ganiatáu iddo ddefnyddio cyfrifiadur â meddalwedd cydnabod llais. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y mae'r Ddeddf yn effeithio ar brofi ac arholiadau ym Mhenodau 8 a 9.

- darparu darllenydd neu ddehonglydd

Gallai hyn gynnwys darparu dehonglydd iaith arwyddion ar gyfer cyfarfodydd, anerchiadau neu hyfforddiant; neu gallai gynnwys darparu darllenydd ar gyfer person â nam ar ei olwg.

- goruchwyliaeth neu fath arall o gymorth

Gallai hyn gynnwys darparu gweithiwr cymorth i alluogi person anabl i gymryd

rhan mewn cynhadledd, cyfarfod, sesiwn hyfforddiant, cyfweliad, arholiad, asesiad neu ddigwyddiad cymdeithasol; neu gymorth ychwanegol i gynrychiolydd undeb llafur sy'n anabl er mwyn ei alluogi i gyflawni ei rôl yn barhaus.

5.13 Fel y nodwyd uchod, gall fod yn rhesymol i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol gymryd camau nas rhoddir fel enghreifftiau yn y Ddeddf. Gall camau o'r fath gynnwys:

- trefnu neu gydsynio i asesiad priodol o ba addasiadau rhesymol y gall fod eu hangen
- addasu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd
- gwneud addasiadau i'r ffordd y darperir gwybodaeth.

Ceir rhagor o enghreifftiau o'r ffordd y mae addasiadau rhesymol yn gweithio'n ymarferol ym Mhenodau 7, 8 a 9.

Pryd y mae'n 'rhesymol' bod yn rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol wneud addasiadau?

5.14 Bydd p'un a yw'n rhesymol i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol wneud unrhyw addasiad penodol yn dibynnu ar nifer o bethau, megis ei gost a'i effeithiolrwydd. Fodd bynnag, os yw addasiad yn un rhesymol i'w wneud, yna mae'n rhaid i'r sefydliad neu'r corff wneud hynny. Pan fo person anabl o dan anfantais sylweddol oherwydd darpariaeth, maen prawf neu arfer sefydliad neu gorff, neu oherwydd nodwedd ffisegol ei safle, mae'n rhaid i'r sefydliad neu'r corff ystyried a ellir gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i oresgyn yr anfantais honno. Nid oes cyfrifoldeb ar y person anabl i awgrymu pa addasiadau y dylid eu gwneud ond, pan fo'r person anabl yn gwneud hynny, mae'n rhaid i'r sefydliad neu'r corff ystyried a fyddai addasiadau o'r fath yn helpu i oresgyn yr anfantais, ac a ydynt yn rhesymol.

5.15 Serch hynny, efallai na fydd sefydliad neu gorff yn gwybod digon am y person anabl i benderfynu pa addasiadau sy'n briodol. Felly mae'n arfer da gofyn i berson anabl a oes angen gwneud unrhyw addasiadau ar ei gyfer. Mae hefyd yn syniad da bod person anabl yn gwneud awgrymiadau ynglŷn ag addasiadau a fyddai o gymorth. Gall ysgolion a cholegau ofyn am wybodaeth am anghenion ymgeiswyr anabl a dylent ofyn am eu caniatâd i drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r corff cymwysterau cyffredinol.

5.16 Yn aml nid oes fawr ddim cost na tharfu yn gysylltiedig ag addasiadau effeithiol ac ymarferol ar gyfer pobl anabl ac felly mae'n debygol iawn o fod yn rhesymol bod yn rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol eu gwneud. Gellir gwneud llawer o addasiadau heb newidiadau ffisegol i safle. Fodd bynnag, pan fo angen gwneud newidiadau o'r fath, efallai y bydd angen i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol ystyried yr hyn a esbonnir ym Mhennod 10, sy'n ymdrin â gwneud addasiadau i safleoedd.

Mae corff cymwysterau yn caniatáu i fyfyriwr gael amser ychwanegol i sefyll prawf ysgrifenedig am fod dyslecsia ganddo. Mae hyn ond yn golygu cost talu goruchwyliwr am yr amser ychwanegol dan sylw, ac mae'n debygol o fod yn addasiad rhesymol i'w wneud.

Mae aelod o undeb llafur sydd â nam ar ei glyw yn gofyn am sedd ym mlaen y neuadd gynhadledd, fel y gall ddarllen gwefusau. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r undeb llafur ei wneud ac ni fyddai'n golygu cost ychwanegol nac yn tarfu ar yr undeb.

Mae aelod o gymdeithas broffesiynol mewn cyfarfod yn y gymdeithas honno yn gofyn am fyg hanner llawn o de, yn hytrach na chwpan a soser, am fod ei dwylo yn crynu oherwydd cyflwr niwrolegol. Ni fyddai fawr ddim cost na tharfu i'r gymdeithas broffesiynol yn gysylltiedig â hyn ac mae'n debygol o fod yn addasiad rhesymol i'w wneud.

5.17 **[OS 1999/3242]** Pe bai addasiad penodol yn achosi mwy o risg i iechyd a diogelwch unrhyw un (gan gynnwys y person anabl dan sylw) yna mae hwn yn ffactor perthnasol wrth benderfynu a yw'n rhesymol gwneud yr addasiad hwnnw. Dylid defnyddio asesiadau risg addas a digonol, megis y rai a wneir at ddibenion Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, i helpu i benderfynu a yw risgiau o'r fath yn debygol o godi.

5.18 **[a 18B(1)]** Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn rhestru nifer o ffactorau a all, yn benodol, helpu i benderfynu a fydd yn rhesymol bod yn rhaid gwneud addasiad penodol. Mae'r ffactorau hyn yn gwneud rhestr wirio ddefnyddiol, yn enwedig wrth ystyried addasiadau mwy sylweddol. Gall llawer o'r ffactorau hyn hefyd fod yn berthnasol i gyrff cymwysterau cyffredinol wrth iddynt ystyried pa mor rhesymol yw addasiad, er na restrir ffactorau cyfatebol ym Mhennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf. Gellid ystyried effeithiolrwydd ac ymarferoldeb addasiad penodol yn gyntaf. Os yw'n ymarferol ac yn effeithiol, gellid ystyried yr agweddau ariannol yn eu cyfanrwydd – cost yr addasiad a'r adnoddau sydd ar gael i'w ariannu. Gall ffactorau eraill hefyd fod o bwys. Mae'r ffactorau yn y Ddeddf yn cynnwys y canlynol:

Effeithiolrwydd y cam wrth atal yr anfantais

5.19 Mae'n annhebygol o fod yn rhesymol bod yn rhaid gwneud addasiad sy'n golygu ychydig iawn o fudd i'r person anabl. Fodd bynnag, gall addasiad o'r fath fod yn un o gyfuniad o addasiadau a fyddai, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn effeithiol ac, yn yr achos hwnnw, mae'n debygol o fod yn rhesymol bod yn rhaid ei wneud.

Mae ymgeisydd ar gyfer cymhwyster cyffredinol, sydd â chyflwr sy'n achosi blinder (ME) yn gwneud ymholiadau i ganolfan arholi ynglŷn â'r addasiadau sydd ar gael iddi yn ystod arholiadau. Un o'r addasiadau sydd ei angen arni yw sicrhau na ddefnyddir goleuadau nad ydynt yn fflworoleuol yn y neuadd arholiad. Fodd bynnag, nid oes fawr o fudd o wneud hyn na rhoi amser ychwanegol ar ei ben ei hun, ond os cynigir yr addasiadau hyn ynghyd â darllenydd, gallai'r mesurau gyda'i gilydd fod yn addas i oresgyn yr anfanteision penodol a wynebir ganddi yn ystod arholiadau.

Ymarferoldeb y cam

5.20 Mae'n fwy tebygol o fod yn rhesymol bod yn rhaid cymryd cam sy'n hawdd ei gymryd yn hytrach nag un sy'n anodd. O dan rai amgylchiadau gall fod yn rhesymol bod yn rhaid cymryd cam, er ei fod yn anodd.

Mae menyw sydd ag alergedd difrifol i lawer o sylweddau cyffredin (megis latecs) yn gofyn i sefydliad crefft sicrhau bod lleoliad darlith yn rhydd o'r holl sylweddau hyn. Mae hyn yn debygol o fod yn gam anymarferol i'w gymryd. Fodd bynnag, yn hytrach gall fod yn rhesymol bod y sefydliad crefft yn rhoi fideo o'r ddarlith i'r fenyw.

Mae angen i ymgeisydd ar gyfer cymhwyster TGAU ac iddo elfen ymarferol gael triniaeth mewn ysbyty yn ystod cyfnod yr arholiadau ac mae'n gofyn am gael sefyll yr arholiad yn yr ysbyty. Byddai'n anymarferol gwneud hyn fodd bynnag, a byddai hefyd yn anymarferol ail-drefnu amserlen yr arholiadau, felly mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn trefnu i'r ymgeisydd sefyll yr arholiadau mewn canolfan wahanol sy'n nes at yr ysbyty.

Cost ariannol a chostau eraill yr addasiad a faint o darfu a geir

5.21 Os nad yw addasiad yn costio fawr ddim ac nad yw'n tarfu ar neb arall, byddai'n rhesymol oni bai bod rhyw ffactor arall (megis ymarferoldeb neu effeithiolrwydd) yn ei wneud yn afresymol. Gall, wrth gwrs, fod yn rhesymol bod yn rhaid gwneud addasiadau mwy costus o dan rai amgylchiadau. Ymhlith y costau i'w hystyried mae costau i staff ac adnoddau eraill. Gall maint cost cam ddibynnu'n rhannol ar y swm y byddai'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol yn ei wario fel arall o dan yr amgylchiadau. Wrth asesu costau tebygol gwneud addasiad, dylid ystyried pa arian allanol sydd ar gael.

Faint o adnoddau ariannol neu adnoddau eraill sydd ar gael i'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol

5.22 Mae'n fwy tebygol o fod yn rhesymol bod yn rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol gydag adnoddau ariannol sylweddol wneud addasiad sy'n dwyn cost sylweddol, nag ydyw i un gyda llai o adnoddau. Dylid ystyried yr adnoddau sydd ar gael yn ymarferol i'r sefydliad neu'r corff yn ogystal â galwadau eraill ar yr adnoddau hynny. Mae'n arfer da bod sefydliadau a chyrff yn pennu cyllideb benodol ar gyfer addasiadau rhesymol – ond ni fydd cyfyngiadau ar faint unrhyw gyllideb o'r fath yn effeithio ar fodolaeth y dyletswyddau i bobl anabl. Bydd rhesymoldeb addasiad yn dibynnu nid yn unig ar yr adnoddau sydd ar gael yn ymarferol ar gyfer yr addasiad ond hefyd ar yr holl ffactorau perthnasol eraill (megis effeithiolrwydd ac ymarferoldeb).

Byddai disgwyl i gymdeithas broffesiynol fawr a chanddi 300,000 o aelodau a chronfeydd sylweddol wneud newidiadau mwy sylweddol i'w safleoedd, er mwyn eu gwneud yn hygyrch i aelod, nag y byddai disgwyl i sefydliad crefft bach a chanddo hanner cant o aelodau a chronfeydd cyfyngedig iawn.

Mae cangen undeb yn anfon cynrychiolydd anabl i gynhadledd ranbarthol tri diwrnod. Mae angen gweithiwr cymorth ar y person anabl, sydd â pharlys yr ymennydd, i fynd gyda hi i'r gynhadledd. Er y byddai cost y cymorth hwn yn gymharol uchel o'i chymharu â'r adnoddau sydd ar gael i'r gangen, mae'n annhebygol y byddai'r gost yn cael ei hystyried yn afresymol o uchel o'i hasesu yn erbyn cronfeydd cyffredinol yr undeb.

Y cymorth ariannol neu'r mathau eraill o gymorth sydd ar gael i helpu i wneud addasiad

5.23 Mae'n ddigon posibl y bydd y cymorth allanol sydd ar gael yn ffactor perthnasol. Gall y cymorth hwn fod yn ariannol neu'n ymarferol. Efallai y gall sefydliadau anabledd roi rhagor o wybodaeth neu gymorth.

5.24 Nid yw'n ofynnol i berson anabl gyfrannu at gost addasiad rhesymol. Fodd bynnag, os oes gan berson anabl gyfarpar arbennig neu gyfarpar wedi ei addasu y mae'n barod i'w ddefnyddio, gallai hyn ei gwneud yn rhesymol bod yn rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol gymryd rhyw gam arall (yn ogystal â chaniatáu'r defnydd o'r cyfarpar).

Mae menyw ddall am fynd i ddigwyddiad a drefnir gan sefydliad crefft y mae'n aelod ohono. Mae am gymryd nodiadau yn y digwyddiad hwn drwy ddefnyddio gliniadur. Mae'r sefydliad crefft yn darparu bwrdd ar gyfer y cyfrifiadur a ddefnyddir ganddi i gymryd nodiadau. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r sefydliad ei wneud.

Natur gweithgareddau'r sefydliad neu'r corff, a maint ei ymwneud

5.25 Gall maint ymwneud sefydliad neu gorff a natur ei weithgareddau fod yn berthnasol wrth benderfynu ar resymoldeb cam penodol.

A ellid byth gyfiawnhau methiant i wneud addasiad rhesymol?

5.26 **[a 3A(2) ac a 31AB(5)]** Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i sefydliad, corff crefft, corff cymwysterau na chorff cymwysterau cyffredinol gyfiawnhau methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol. I sefydliadau crefft mae hwn yn newid yn y gyfraith.

5.27 Fodd bynnag, mae'n amlwg mai dim ond os yw'r addasiad dan sylw yn un lle mae'n rhesymol bod yn rhaid ei wneud y bydd sefydliad neu gorff yn torri dyletswydd o'r fath. Felly, pan fo'r ddyletswydd yn gymwys, ar sail 'rhesymoldeb' yn unig y penderfynir a oes rhaid gwneud yr addasiad.

Mae menyw â phoenau difrifol yn ei chefn am fynd i gynhadledd undeb llafur. Yr unig addasiad sydd ei angen arni yw bod lle ar gael iddi osod cowtsh cludadwy y gall orwedd arno yn ystod trafodion y gynhadledd. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r undeb llafur ei wneud. Mae'n golygu nad oes fawr ddim cost na tharfu ar yr undeb. Serch hynny, nid yw'r undeb yn ei ganiatáu gan ddweud 'does neb erioed wedi gofyn am yr addasiad hwn ac efallai fod goblygiadau o ran iechyd a diogelwch'. Bydd yr undeb llafur yn gweithredu'n anghyfreithlon.

6. Cyfiawnhad

Cyflwyniad

6.1 Ni ellir cyfiawnhau y rhan fwyaf o ymddygiad a allai fod yn anghyfreithlon o dan Ran 2 o'r Ddeddf a Rhan 4 o'r Ddeddf (mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyrff addysg a chymwysterau cyffredinol ôl-16). Mae ymddygiad sy'n gyfystyr â:

- gwahaniaethu uniongyrchol
- methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol
- erledigaeth
- aflonyddu
- cyfarwyddiadau neu bwysau i wahaniaethu, neu
- cynorthwyo gweithred anghyfreithlon

yn anghyfreithlon waeth beth fo'r rheswm neu'r cymhelliad drosto.

Pryd y mae'r Ddeddf yn caniatáu cyfiawnhad?

6.2 Mae paragraff 4.25 yn esbonio mai un o'r mathau o wahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan Ran 2 a Phennod 2A o Ran 4 yw gwahaniaethu ar sail anabledd. Fodd bynnag, nid yw ymddygiad sefydliad crefft, corff cymwysterau na chorff cymwysterau cyffredinol tuag at berson anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd os gellir ei gyfiawnhau. Mae'r bennod hon yn esbonio'r amgylchiadau cyfyngedig lle y gall hyn ddigwydd.

6.3 **[a 3A(3) a (4), a 31AB(3) a (7)]** Pan ellir cyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol (hynny yw, os nad gwahaniaethu uniongyrchol ydyw), dywed y Ddeddf y gellir cyfiawnhau hynny mewn gwirionedd os, ond dim ond os, bydd y rheswm dros y driniaeth yn berthnasol i amgylchiadau'r achos penodol **ac** yn sylweddol. Prawf gwrthrychol yw hwn. Ystyr 'perthnasol' yw bod yn rhaid bod cysylltiad gweddol gryf rhwng y rheswm a roddir dros y driniaeth ac amgylchiadau'r achos penodol. Ystyr 'sylweddol', yng nghyd-destun cyfiawnhad, yw bod yn rhaid i'r rheswm fod o bwys gwirioneddol a bod sylwedd iddo.

Safonau Cymhwysedd

6.4 **[a 14A(3) ac a31AB (4) ac a 31AB (9)]** Mae un eithriad i'r egwyddor gyffredinol hon – sy'n ymwneud â chymhwyso 'safon cymhwysedd' at berson anabl gan gorff cymwysterau a chorff cymwysterau cyffredinol. Dywed y Ddeddf mai dim ond os gall y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol ddangos bod (neu y byddai) y safon yn cael ei chymhwyso yn yr un modd at bobl nad oes ganddynt anabledd y person anabl, a bod y ffordd y'i cymhwysir yn fodd cymesur i gyflawni nod dilys y gellir cyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol yn hyn o beth. Ystyrir yr hyn a ddywed y Ddeddf am safonau cymhwysedd yn fanylach ym mharagraffau 8.27 i 8.41 ac ym mharagraffau 9.57 i 9.82.

Cyfiawnhad ac addasiadau rhesymol

6.5 O dan amgylchiadau penodol, nid yw bodolaeth rheswm perthnasol a sylweddol dros driniaeth lai ffafriol yn ddigon da i gyfiawnhau'r driniaeth honno. Mae hyn yn wir pan fo sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol hefyd o dan ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â'r person anabl ond yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd honno.

6.6 **[a 3A(6) ac a 31AB(5)]** O dan yr amgylchiadau hynny, bydd angen ystyried nid yn unig a oes rheswm perthnsaol a sylweddol dros y driniaeth lai ffafriol, ond hefyd a ellid cyfiawnhau'r driniaeth o hyd hyd yn oed pe bai'r sefydliad neu'r corff wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. I bob pwrpas,

mae angen gofyn y cwestiwn 'a fyddai addasiad rhesymol wedi gwneud unrhyw wahaniaeth?'. Pe bai addasiad rhesymol wedi gwneud gwahaniaeth i'r rheswm a ddefnyddir i gyfiawnhau'r driniaeth, yna ni ellir cyfiawnhau'r driniaeth lai ffafriol.

6.7 Mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd, mae'r ffaith bod sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol wedi methu â chydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol yn golygu bod y dilyniant o ddigwyddiadau ar gyfer cyfiawnhau triniaeth lai ffafriol ar sail anabledd fel a ganlyn:

- Mae'r person anabl yn profi ffeithiau y gellid casglu ohonynt yn niffyg esboniad digonol:
  - **a.** am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd, ei fod wedi cael ei drin yn llai ffafriol nag y mae, neu y byddai person nad yw'r rheswm hwnnw yn berthnasol iddo yn cael ei drin,
  - **b.** bod dyletswydd i wneud addasiad rhesymol wedi codi mewn perthynas ag ef a bod y sefydliad neu'r corff wedi methu â chydymffurfio â hi.
- Bernir bod y sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol wedi gwahaniaethu oni bai ei fod yn profi:
  - **a.** bod y rheswm dros y driniaeth yn berthnasol i amgylchiadau'r achos penodol ac yn sylweddol
  - **b.** y byddai'r rheswm wedi bod yn gymwys o hyd pe bai'r addasiad rhesymol wedi cael ei wneud.

A all pryderon o ran iechyd a diogelwch gyfiawnhau triniaeth lai ffafriol?

6.8 Dylid osgoi rhagdybiaethau ystrydebol ynglŷn â'r goblygiadau o ran iechyd a diogelwch, yn gyffredinol ac mewn perthynas â mathau penodol o anabledd. Yn wir, gall triniaeth lai ffafriol sy'n seiliedig ar ragdybiaethau o'r fath ynddi'i hun fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol – na ellir ei gyfiawnhau (gweler paragraff 4.4). Nid yw'r ffaith bod gan rywun anabledd o reidrwydd yn golygu ei fod yn achosi risg ychwanegol i iechyd a diogelwch.

Mae unigolyn ag anhwylder deubegynol yn gwneud cais i gofrestru yn weithiwr iechyd proffesiynol gyda chymdeithas broffesiynol. Mae'r gymdeithas yn gwrthod ei chofrestru, ar y sail yn unig iddi sôn am ei hanabledd ar holiadur iechyd. Mae'r gymdeithas yn rhagdybio y byddai ei hanabledd yn risg i iechyd a diogelwch, heb wneud unrhyw ymgais i ddarganfod a fyddai'n risg a sut y byddai'n risg, nac yn wir a oedd wedi gwella. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol ac felly yn debygol o fod yn anghyfreithlon.

Mae person ifanc â pharlys yr ymennydd yn dilyn cwrs cymhwyster cyffredinol Uwch yr Alban mewn cemeg. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn gwrthod ei gais i fod yn ymgeisydd ar gyfer y cymhwyster cyffredinol am ei fod yn rhagdybio y byddai ei gyflwr yn risg i iechyd a diogelwch, heb wneud unrhyw ymgais i ddarganfod a oes unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch mewn gwirionedd. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol ac felly yn debygol o fod yn anghyfreithlon.

6.9 Gall pryderon gwirioneddol am iechyd a diogelwch rhywun (gan gynnwys person anabl) fod yn berthnasol wrth geisio darganfod a ellir cyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol ar sail anabledd. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw'r ddeddfwriaeth ynglŷn ag iechyd a diogelwch yn ei gwneud yn ofynnol i bob risg bosibl gael ei dileu, ond bod risgiau yn cael eu nodi, eu deall a'u rheoli'n briodol. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (gweler Atodiad B am fanylion).

6.10 Mae paragraffau 6.11 i 6.15 yn ystyried yr amgylchiadau lle y gall pryderon

ynglŷn ag iechyd a diogelwch gyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol, ac wedyn ystyrir perthnasedd gwybodaeth feddygol yn y cyd-destun hwn. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.4, fodd bynnag, mae sail corff cymwysterau dros gyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol wrth gymhwyso safon cymhwysedd yn wahanol i'r hyn sy'n gymwys fel arfer o dan y Ddeddf. Nid yw'r egwyddorion canlynol mor berthnasol i gyfiawnhau triniaeth lai ffafriol yn yr amgylchiadau hynny, ond yn hytrach dylid rhoi sylw i baragraffau 8.35 a 8.40 (mewn perthynas â chyrff cymwysterau) a pharagraffau 9.67 a 9.73 (mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol).

6.11 Y sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol ddylai benderfynu pa gamau i'w cymryd, neu benderfynu pa gyngor i'w rhoi i ganolfan arholi, mewn ymateb i bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r arholiad. Fodd bynnag, heb ystyried mater safonau cymhwysedd, mae'n ddoeth bod sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn cynnal, neu'n trefnu, asesiad risg gan berson â chymwysterau addas pan fo rheswm dros gredu y gall problem o ran iechyd a diogelwch godi o effeithiau anabledd person. Y rheswm dros hyn yw:

- Os bydd sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn trin person anabl yn llai ffafriol ar sail rhagdybiaethau cyffredinol ynglŷn â goblygiadau anabledd o ran iechyd a diogelwch yn unig, gall triniaeth o'r fath ynddi'i hun fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol – na ellir ei gyfiawnhau.

Mae corff cymwysterau yn gwrthod rhoi tystysgrif i weithredu peirianwaith trwm i ddyn ag epilepsi. Ni wneir unrhyw ymdrech i ddarganfod union amgylchiadau'r unigolyn drwy asesiad risg. Rhagdybio a wna'r corff cymwysterau y byddai'n risg i iechyd a diogelwch pe bai'n gadael i rywun ag epilepsi weithredu peirianwaith trwm. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol ac felly yn anghyfreithlon.

- Hyd yn oed pan na cheir gwahaniaethu uniongyrchol, mae'n annhebygol y gall sefydliad neu gorff sy'n trin person anabl yn llai ffafriol heb gynnal asesiad risg addas a digonol ddangos bod ei bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch yn cyfiawnhau'r driniaeth lai ffafriol.

6.12 Serch hynny, ni ddylai sefydliad crefft, corff cymwysterau na chorff cymwysterau cyffredinol gynnal asesiad risg o berson anabl os nad yw amgylchiadau penodol yr achos yn haeddu hynny.

Mae dyn â diabetes yn gwneud cais i gael lle ar gwrs hyfforddiant preswyl mewn cyfrifeg, a ddarperir gan gymdeithas broffesiynol y mae'n aelod ohoni. Mae cyflwr y dyn yn sefydlog ac mae wedi llwyddo i'w reoli ers blynyddoedd maith. Serch hynny, mae'r gymdeithas yn dweud bod ganddo bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch; ei bod am gynnal asesiad risg; a bod angen tystiolaeth feddygol bellach gan feddyg y dyn. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon, gan nad yw amgylchiadau'r achos yn awgrymu y byddai unrhyw risg i iechyd a diogelwch.

6.13 Mae'n rhaid i asesiad risg fod yn addas ac yn ddigonol. Dylai nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch penodol, gan ystyried unrhyw addasiadau rhesymol a roddir ar waith i'r person anabl, a dylai fod yn benodol i'r unigolyn sy'n ymgymryd â thasg benodol. Felly mae'n annhebygol y bydd sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol sydd â pholisi **cyffredinol** o drin pobl ag anableddau penodol (megis epilepsi, diabetes neu broblemau iechyd meddwl) yn llai ffafriol na phobl eraill yn gallu cyfiawnhau gwneud hynny – hyd yn oed os yw'r polisi hwnnw yn unol â chyngor ymgynghorydd iechyd galwedigaethol.

6.14 Bydd polisi cyffredinol o'r fath fel arfer yn anghyfreithlon, a hynny am ei fod yn debygol o fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol (na ellir byth ei gyfiawnhau) neu driniaeth lai ffafriol ar sail anabledd na ellir ei chyfiawnhau o dan yr amgylchiadau – h.y. gwahaniaethu ar sail anabledd.

Mae'n bolisi gan gorff cymwysterau i weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ofyn i ymgeiswyr lenwi holiadur iechyd wrth gofrestru. Gwrthodir cofrestru unrhyw ymgeisydd sy'n nodi iddo gael triniaeth am broblem iechyd meddwl heb unrhyw ymchwiliad i'w hamgylchiadau unigol. Mae'r corff cymwysterau yn cymhwyso polisi cyffredinol, sy'n debygol o fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn rhoi canllawiau sy'n nodi y bydd y cymhwyster mewn TGCh a gynigir ganddo yn anaddas ar gyfer unrhyw ymgeisydd â nam ar y golwg ac na ddylai pobl â nam ar y golwg wneud cais i gael lle ar y cwrs. Mae'r corff cymwysterau yn cymhwyso polisi cyffredinol, sy'n debygol o fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

6.15 Gall addasiadau rhesymol a wneir gan sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol ddileu neu leihau risgiau i iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig ag anabledd person. Felly mae angen i asesiad addas a digonol o risgiau o'r fath ystyried yr effaith y byddai unrhyw addasiadau rhesymol yn ei chael. Os na chynhelir asesiad risg ar y sail hon, yna mae'n annhebygol y gall sefydliad neu gorff ddangos bod ei bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch yn cyfiawnhau trin y person anabl yn llai ffafriol.

A all gwybodaeth feddygol gyfiawnhau triniaeth lai ffafriol?

6.16 Mae ystyriaeth o wybodaeth feddygol (megis adroddiad meddyg neu'r atebion i holiadur meddygol) yn debygol o fod yn rhan o asesiad o risgiau i iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw anabledd yn effeithio'n andwyol ar iechyd cyffredinol person. Mewn achosion eraill, gall ei effaith ar iechyd person amrywio. Er y gall gwybodaeth feddygol am anabledd gyfiawnhau penderfyniad anffafriol, ni fydd yn gwneud hynny os nad effeithir ar sgiliau a galluoedd perthnasol y person (neu os yw'r effaith yn llai na sylweddol), waeth pa mor fawr yw effeithiau'r anabledd mewn ffyrdd eraill. Yn wir, mae'n ddigon posibl y bydd trin person anabl yn llai ffafriol mewn achos lle nad yw ei anabledd yn effeithio ar ei sgiliau a'i alluoedd perthnasol yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol – na ellir ei gyfiawnhau.

6.17 Hefyd, pan fo gwybodaeth feddygol ar gael, mae'n rhaid i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol bwyso a mesur y wybodaeth yng nghyd-destun yr amgylchiadau perthnasol, a galluoedd yr unigolyn. Dylai sefydliad neu gorff hefyd ystyried a ellid gwneud addasiadau rhesymol er mwyn goresgyn unrhyw broblemau y gellid bod wedi eu nodi o ganlyniad i'r wybodaeth feddygol. Ni ddylai gymryd yn ganiataol y bydd y person sy'n rhoi'r wybodaeth feddygol yn ymwybodol bod dyletswydd gan sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol i wneud addasiadau rhesymol, neu beth allai'r addasiadau hyn fod. Felly mae'n arfer da sicrhau y tynnir sylw ymgynghorwyr meddygol at y materion hyn. Dim os yw'r ymgynghorydd meddygol yn meddu ar yr arbenigedd priodol y dylid dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir ganddo.

6.18 Sut bynnag, er y gellir ystyried tystiolaeth feddygol yn ‘gyfraniad arbenigol’, fel arfer nid hwn ddylai fod yr unig ffactor sy’n dylanwadu ar benderfyniad sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol. Dylid hefyd geisio barn y person anabl (ar ei (g)alluoedd ei hun ac addasiadau posibl). Gellir hefyd geisio cymorth gan sefydliadau anabledd. Cyfrifoldeb y sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu’r corff cymwysterau cyffredinol yn y pen draw – ac nid yr ymgynghorydd meddygol – yw gwneud penderfyniadau.

7. Gwahaniaethu gan sefydliadau crefft

Cyflwyniad

7.1 Mae Pennod 3 yn esbonio'r hyn y mae'r Ddeddf yn ei olygu wrth 'sefydliad crefft', a bod y Ddeddf yn ei gwneud yn anghyfreithlon i sefydliad crefft wahaniaethu yn erbyn person anabl sy'n aelod o'r sefydliad neu sy'n gwneud cais i ymaelodi. Mae Pennod 3 hefyd yn esbonio bod y Ddeddf yn dweud ei bod yn anghyfreithlon i sefydliad crefft aflonyddu ar unrhyw un, neu ei erlid – boed yn anabl ai peidio.

7.2 Mae'r bennod hon yn edrych ar wahaniaethu gan sefydliadau crefft yn fanylach. Er mwyn gwneud hynny, (ac ar ôl ystyried pwynt pwysig ynglŷn â'r berthynas rhwng sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau), mae angen ystyried y gwahanol agweddau ar swyddogaethau sefydliad crefft, o'r rhai sy'n ymwneud ag ymaelodi yn y sefydliad i'r rhai sy'n ymwneud â buddiannau aelodaeth ar ôl ymaelodi. Mae angen hefyd ystyried materion sy'n ymwneud ag amrywio aelodaeth a'i thynnu'n ôl.

Sefydliadau crefft fel cyrff cymwysterau

7.3 Nodwyd eisoes (ym mharagraff 3.11) bod rhai sefydliadau crefft yn rhoi cymwysterau proffesiynol neu grefft ac, o ganlyniad, y gall darpariaethau'r Ddeddf ynglŷn â sefydliadau crefft neu, yn dibynnu ar y cyd-destun, gyrff cymwysterau fod yn berthnasol i sefydliadau o'r fath.

7.4 Fodd bynnag, dylid hefyd nodi bod aelodaeth o sefydliadau crefft penodol (er enghraifft, Sefydliad yr Ieithyddion neu Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu) ynddi'i hun yn gymhwyster proffesiynol neu grefft am y rhesymau a esbonnir ym mharagraff 8.6. Os mai felly y mae, bydd penderfyniadau ynglŷn â rhoi aelodaeth o'r sefydliad crefft, ei hamrywio neu ei dynnu'n ôl hefyd yn dod o dan y rheolau ynglŷn â rhoi cymwysterau proffesiynol neu grefft. Mae'r ffaith hon yn debygol o fod o bwys penodol pan fo penderfyniadau o'r fath yn arwain at gymhwyso 'safon cymhwysedd' (gweler paragraffau 8.27 a 8.41).

Ymaelodi

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud?

7.5 **[a 13(1)]** Dywed y Ddeddf ei bod yn anghyfreithlon i sefydliad crefft wahaniaethu yn erbyn person anabl:

- yn y trefniadau a wna er mwyn penderfynu pwy ddylai gael cynnig aelodaeth o'r sefydliad

Mae sefydliad crefft yn gofyn i fenyw ag anabledd dysgu sefyll prawf ychwanegol cyn caniatáu iddi fod yn aelod, er ei bod eisoes yn bodloni'r meini prawf i fod yn aelod o'r sefydliad hwnnw. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon.

- o ran ar ba delerau y mae'n barod i'w derbyn yn aelod

Mae sefydliad crefft i newyddiadurwyr yn gofyn i fenyw rannol ddall dalu ffi ymaelodi ychwanegol oherwydd cost rhoi gwybodaeth ar dâp sain. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon.

- drwy wrthod derbyn, neu beidio â derbyn yn fwriadol, ei chais am aelodaeth.

Mae sefydliad nyrsio yn gwrthod derbyn menyw â hanes o broblemau iechyd meddwl – heb holi ymhellach. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon.

7.6 **[a 16B]** Fel yr esboniwyd ym mharagraffau 3.22 i 3.25, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon o dan amgylchiadau penodol i gyhoeddi hysbyseb wahaniaethol am aelodaeth o sefydliad crefft.

Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol?

7.7 **[a 3A(5)]** Efallai y bydd sefydliad crefft am dynnu gwahaniaeth rhwng unigolion wrth ymdrin â cheisiadau i ymaelodi yn y sefydliad. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, dylai osgoi gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr anabl neu ddarpar ymgeiswyr. Fel yr esboniwyd ym Mhennod 4, mae trin person anabl mewn ffordd wahanol i''r ffordd y mae (neu y byddai) pobl eraill yn cael eu trin yn gyfystyr â gwahaniaethu o dan rai amgylchiadau. Yn benodol, mae triniaeth o'r fath yn anghyfreithlon os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan Ran 2. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 4.4, mae'r ffordd y trinnir person anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol:

- os yw ar sail ei anabledd
- os yw'n cael ei drin yn llai ffafriol nag y mae (neu y byddai) rhywun nad oes ganddo'r anabledd penodol hwnnw yn cael ei drin,
- os yw amgylchiadau perthnasol y person y cymharir ag ef, gan gynnwys ei alluoedd, yr un peth â rhai'r person anabl, neu os nad ydynt yn wahanol iawn.

Mae sefydliad crefft yn gwrthod gadael i fenyw â sgitsoffrenia ymaelodi, er ei bod wedi dangos bod ganddi ddigon o gymwysterau a phrofiad i fod yn aelod. Mae hyn yn debygol o fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, am ei bod yn cael ei thrin yn llai ffafriol ar sail ei hanabledd. Mae'n cael ei thrin yn llai ffafriol nag y byddai rhywun nad oes ganddo sgitsoffrenia yn cael ei drin; yr un yw amgylchiadau perthnasol y fenyw (yn yr achos hwn ei chymwysterau a'i phrofiad) ag amgylchiadau ymgeiswyr eraill nad oes ganddynt sgitsoffrenia.

Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd?

7.8 **[a 3A(1)]** Gall trin person anabl yn llai ffafriol fod yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf er nad yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. Bydd hyn yn wir os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd yn lle hynny. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 4.25, mae hyn yn golygu trin rhywun yn llai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Fodd bynnag, yn wahanol i driniaeth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol (ac na ellir ei chyfiawnhau felly), nid yw'r ffordd y mae sefydliad crefft yn trin person anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd os gall y sefydliad ddangos y gellir ei chyfiawnhau. Esbonnir yr amgylchiadau lle y gall hyn fod yn bosibl ym Mhennod 6.

7.9 I grynhoi, bydd trin person anabl yn llai ffafriol yn anghyfreithlon os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol neu wahaniaethu ar sail anabledd, ac mae'n gysylltiedig â'r canlynol:

- trefniadau sefydliad crefft ar gyfer dewis aelodau newydd
- ar ba delerau y cynigir aelodaeth, neu
- penderfyniad i wrthod neu beidio â derbyn cais am aelodaeth

Pan fydd y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr am aelodaeth?

7.10 **[a 14]** Mae dyletswydd sefydliad crefft i wneud addasiadau rhesymol yn amlwg yn gymwys mewn perthynas â'i aelodau anabl. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd hefyd yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson anabl sy'n ymgeisydd am aelodaeth neu sydd wedi hysbysu'r sefydliad y gall fod yn ymgeisydd am aelodaeth.

Mae dyn anabl, na all ysgrifennu oherwydd ei anabledd, yn gofyn am ffurflen gais electronig gan sefydliad crefft fel y gall ei llenwi ar ei gyfrifiadur.

Gall fod dyletswydd ar y sefydliad i wneud yr addasiad rhesymol hwn am ei fod yn gwybod bod y dyn hwn yn ddarpar ymgeisydd am aelodaeth.

7.11 **[a 14(3)]** Dim ond os yw'r sefydliad crefft yn gwybod bod yr unigolyn yn ymgeisydd am aelodaeth neu y gall fod yn ymgeisydd am aelodaeth y bydd y ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â pherson anabl. Ystyr 'gwybodaeth' yn y cyd-destun hwn yw bod y sefydliad yn gwybod hyn, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod hyn. Yn yr un modd, dim ond os yw'r sefydliad yn gwybod bod gan yr unigolyn anabledd sy'n debygol o beri iddo fod o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt anabl y bydd y ddyletswydd yn gymwys.

7.12 Pan fo sefydliad crefft yn gwybod y **gall** rhywun fod yn ymgeisydd am aelodaeth, mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i ddarpariaethau, meini prawf neu arferion ar gyfer penderfynu i bwy y dylid cynnig aelodaeth. Fodd bynnag, dim ond mewn perthynas ag aelodau presennol ac ymgeiswyr sydd am ymaelodi **mewn gwirionedd** y mae gan y sefydliad wybodaeth amdanynt y bydd addasiadau rhesymol i safle yn ofynnol.

7.13 Pan fo'n gymwys, mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn debygol o effeithio ar drefniadau mewn perthynas â chyfweliadau, ffurflenni cais a chyfweliadau i ymaelodi yn y sefydliad, er enghraifft. Nid yw hon yn rhestr gyflawn o bopeth y gallai'r ddyletswydd ei gwmpasu (ac a fyddai'n berthnasol mewn cysylltiad ag ymaelodi mewn sefydliad crefft), ond bwriedir iddi ddangos y meysydd perthnasol tebygol.

Mae dyn â nam ar y lleferydd yn gwneud cais i ymaelodi mewn cymdeithas broffesiynol. Mae'r gymdeithas fel arfer yn cynnal cyfweliad byr â'i darpar aelodau. Gan fod y dyn yn cael anhawster i gyfathrebu ar lafar mae'n gofyn a all gael y cyfweliad ar ffurf cwestiynau ac atebion ysgrifenedig. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i drefniadau ymaelodi'r sefydliad.

7.14 Fel yr esboniwyd ym mharagraffau 5.26 a 5.27, ni all sefydliad crefft byth gyfiawnhau methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol o dan y Ddeddf.

Buddiannau aelodaeth

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud?

7.15 **[a 13(2)]** Dywed y Ddeddf ei bod yn anghyfreithlon i sefydliad crefft wahaniaethu yn erbyn person anabl sy'n aelod o'r sefydliad:

- yn y ffordd y mae'n sicrhau bod unrhyw fuddiannau ar gael iddo neu drwy wrthod neu beidio'n fwriadol â sicrhau eu bod ar gael, neu
- drwy beri unrhyw afles arall iddo.

Mae cyflogai mewn sefydliad crefft yn methu'n fwriadol â gwahodd aelod â sgitsoffrenia i ginio blynyddol, am ei bod yn credu y gall ei ymddygiad dramgwyddo aelodau eraill, er nad yw erioed wedi cwrdd â'r aelod ac nad yw'n gwybod dim am ei ymddygiad. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon.

7.16 Nid yw'r Ddeddf yn diffinio beth yw budd (er ei bod yn dweud bod buddiannau yn cynnwys cyfleusterau a gwasanaethau). Bydd p'un a yw rhywbeth yn fuddiant yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau perthnasol gan gynnwys rheolau ac arferion sefydliad. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn debygol o fod yn gyfystyr â buddiannau: cyfleusterau hyfforddi, gwasanaethau lles neu yswiriant, cymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau eraill a gwahoddiadau i'r digwyddiadau hynny, gwybodaeth am weithgareddau'r sefydliad, a chymorth i aelodau yn ystod gweithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo cyflogwyr.

Pryd y mae triniaeth lai ffafriol mewn perthynas â buddiannau aelodaeth yn gyfystyr â gwahaniaethu?

7.17 **[a 3A]** Mae angen i sefydliad crefft ofalu os yw'n tynnu gwahaniaeth rhwng aelodau mewn perthynas â darparu buddiannau aelodaeth. Er enghraifft, os yw'r ffordd y mae'r sefydliad yn trin aelod anabl yn hyn o beth yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan y Ddeddf (gweler paragraff 7.7) bydd yn anghyfreithlon.

7.18 Hyd yn oed pan na fydd yn uniongyrchol wahaniaethol bydd y ffordd y trinnir person anabl yn anghyfreithlon os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd (gweler paragraff 4.25).

Pryd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys mewn perthynas â buddiannau aelodaeth?

7.19 **[a 14]** Mae gan sefydliad crefft ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â'r ffordd y mae'n darparu buddiannau i'w aelodau. Mae ganddo'r ddyletswydd hon i aelod anabl o'r sefydliad os yw'n gwybod bod ganddo anabledd a'i fod yn debygol o fod o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r ddyletswydd yn debygol o fod yn gymwys, er enghraifft, mewn perthynas â darparu'r buddiannau a nodir ym mharagraff 7.16. Pan fo'r ddyletswydd yn gymwys, mae'n rhaid i'r sefydliad crefft gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol i atal y ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer, neu'r nodwedd ffisegol (yn ôl y digwydd) rhag peri bod aelod anabl o dan anfantais sylweddol.

Mae gan undeb llafur wefan y mae'n hysbysu aelodau am ei wasanaethau drwyddi. Mae aelod ag anabledd dysgu yn gofyn am i grynodeb o'r wybodaeth ar y wefan gael ei darparu mewn fformat sy'n hawdd iddi ei ddarllen (Hawdd ei Ddarllen). Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r undeb ei wneud.

Mae sefydliad crefft yn trefnu ffair fasnach. Mae aelod dall yn gofyn am gymorth yn y ffair fasnach i'w dywys o'i hamgylch. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r sefydliad crefft ei wneud.

Mae menyw fyddar, sy'n aelod o undeb, yn cael problem yn y gwaith y mae am ei thrafod yn fanwl gyda chynrychiolydd undebol. Mae'r undeb llafur yn trefnu ac yn talu am ddehonglydd iaith arwyddion ar gyfer y cyfarfod. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r undeb ei wneud.

7.20 I lawer o aelodau, mae'r ffordd y mae sefydliad crefft yn rhoi gwybodaeth iddynt yn debygol o fod yn fater pwysig. Os na ddarperir y wybodaeth hon ar ffurf sy'n hygyrch i bobl anabl maent yn debygol o fod o dan anfantais sylweddol. Fodd bynnag, mae datblygiadau technolegol diweddar wedi golygu ei bod yn gynyddol ymarferol paratoi deunydd mewn fformatau amgen yn gyflym ac yn rhad. Gall sefydliadau a chyrff anabledd fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gynghori sefydliadau crefft ynglŷn â dulliau ymarferol o roi gwybodaeth mewn ffordd hygyrch. Bydd yr hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos.

Mae sefydliad crefft yn darparu cylchgrawn ar gyfer ei aelodau. Mae aelod dall o'r sefydliad wedi gofyn i'r sefydliad anfon y cylchgrawn ato yn electronig fel atodiad e-bost er mwyn iddo ei ddarllen gan ddefnyddio meddalwedd fynediad ar ei gyfrifiadur gartref. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r sefydliad crefft ei wneud.

7.21 Mewn rhai achosion ni fydd addasiad rhesymol yn gweithio heb gydweithrediad aelodau eraill o'r

sefydliad. Felly gall aelodau chwarae rhan bwysig o ran helpu i sicrhau bod addasiad rhesymol yn cael ei wneud mewn gwirionedd. Yn amodol ar ystyriaethau ynglŷn â chyfrinachedd (a esbonnir ym mharagraffau 7.34 i 7.36), mae'n rhaid i sefydliadau crefft sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'n annhebygol o fod yn amddiffyniad dilys i hawliad o dan y Ddeddf fod aelodau wedi rhwystro'r sefydliad crefft neu wedi methu â bod yn gefnogol wrth iddo geisio gwneud addasiadau rhesymol. Byddai angen i sefydliad crefft o leiaf allu dangos iddo gymryd ymddygiad o'r fath o ddifrif ac ymdrin ag ef mewn ffordd briodol. Bydd sefydliadau crefft yn fwy tebygol o allu gwneud hyn os ydynt yn llunio a gweithredu'r math o bolisïau ac arferion a ddisgrifir ym mharagraff 2.15 (ac, yn achos undebau llafur, 2.16).

Mae cymdeithas broffesiynol yn trefnu sesiwn holi ac ateb gyda phanel o arbenigwyr, y mae'n gwahodd aelodau iddi. Trefnir y digwyddiad mewn lleoliad gyda dolen sain i alluogi aelod byddar sy'n defnyddio cymorth clyw i gymryd rhan. Mae Cadeirydd y digwyddiad yn atgoffa pob cyfrannwr i siarad yn ei dro, a dim ond pan fydd y meicroffon ganddynt fel y gall pawb sy'n bresennol ddilyn y trafodion. Pan fydd aelod yn mynnu siarad o hyd allan o drefn, heb y meicroffon, fe'i hatgoffir bod gan y sefydliad bolisi anabledd ac na chaiff cyfraniadau eu derbyn oddi wrthi os bydd yn parhau i anwybyddu'r rheolau a osodwyd ar gyfer y sesiwn gyda'r nod o alluogi pobl anabl i gymryd rhan.

Amrywio aelodaeth a'i thynnu'n ôl

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud?

7.22 **[a 13(2)]** Dywed y Ddeddf ei bod yn anghyfreithlon i sefydliad crefft wahaniaethu yn erbyn person anabl sy'n aelod o'r sefydliad:

- drwy dynnu aelodaeth oddi wrtho, neu drwy amrywio telerau ei aelodaeth, neu
- drwy beri unrhyw afles arall iddo.

Mae dyn sy'n aelod o sefydliad crefft yn dod yn anabl ar ôl anaf i'w asgwrn cefn. Tynnir ei aelodaeth yn ôl heb unrhyw ystyriaeth ac ni ofynnir iddo a yw'n gallu bodloni gofynion yr aelodaeth o hyd a sut y gall wneud hynny. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol ac felly yn anghyfreithlon.

7.23 **[a 16A]** Dywed y Ddeddf hefyd ei bod yn anghyfreithlon o hyd i'r sefydliad crefft, pan fydd aelodaeth person anabl o sefydliad crefft wedi dod i ben:

- wahaniaethu yn ei erbyn drwy beri afles iddo, neu
- aflonyddu arno

os yw'r gwahaniaethu neu'r aflonyddu yn codi o'i gyn-aelodaeth o'r sefydliad a bod cysylltiad agos rhyngddynt.

7.24 **[a 55]** Mae hefyd yn anghyfreithlon erlid unigolyn (p'un a yw'n anabl ai peidio) ar ôl iddo beidio â bod yn aelod o sefydliad crefft (gweler paragraffau 4.31 i 4.34).

Pryd y mae triniaeth lai ffafriol mewn perthynas ag amrywio aelodaeth neu ei thynnu'n ôl yn gyfystyr â gwahaniaethu?

7.25 **[a 3A]** Os bydd sefydliad crefft yn amrywio telerau aelodaeth person anabl o'r sefydliad, neu'n tynnu ei aelodaeth yn ôl, efallai ei fod yn ei drin yn llai ffafriol nag y mae'n trin aelodau eraill. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai fod y sefydliad yn gwahaniaethu yn erbyn y person anabl drwy ei drin yn y modd hwn. Er enghraifft, os yw'r ffordd y mae'r sefydliad yn trin aelod anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan y Ddeddf (gweler paragraff 7.7) bydd yn anghyfreithlon.

7.26 Hyd yn oed pan na fydd yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, bydd y ffordd

y trinnir person anabl yn anghyfreithlon os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd (gweler paragraff 4.25).

Mae aelod o undeb llafur yn cwyno am aelod arall sydd â syndrom Asperger (math o awtistiaeth) ar ôl cynhadledd, gan ddweud bod y cyd-aelod wedi ymddwyn mewn ffordd amhriodol tra oedd yng ngwesty'r gynhadledd. Roedd ymddygiad y dyn yn gysylltiedig â'i anabledd ond nid oedd yn ymwybodol o hyn ar y pryd. Mae'r undeb llafur yn disgyblu'r dyn anabl a thynnir ei aelodaeth yn ôl, er bod yr undeb yn gwybod am ei anabledd. Mae hyn yn debygol o fod yn driniaeth lai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd ac felly mae'n debygol o fod yn anghyfreithlon, oni all yr undeb llafur ddangos y gellid cyfiawnhau'r driniaeth.

Pryd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys mewn perthynas ag amrywio aelodaeth neu ei thynnu'n ôl?

7.27 **[a 14]** Mae dyletswydd sefydliad crefft i wneud addasiadau rhesymol i aelod y mae'n gwybod bod anabledd ganddo yn ymestyn i'r ffordd y mae'n gweithredu gweithdrefnau cwynion a disgyblu, neu weithdrefnau ar gyfer amrywio aelodaeth neu ei thynnu'n ôl. Pan fo darpariaeth, maen prawf neu arfer, neu nodwedd ffisegol, yn peri bod aelod anabl o dan anfantais sylweddol yn hyn o beth, mae'n rhaid i'r sefydliad crefft gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol i atal hyn.

Mae meddyg anabl yn cael cyfarfod i drafod ei aelodaeth bresennol o gymdeithas broffesiynol. Newidir y lleoliad i un sy'n hygyrch i'r meddyg, sydd â phroblemau symudedd. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r gymdeithas ei wneud.

Mae menyw anabl yn mynd i wrandawiad ynglŷn â chŵyn yn swyddfa undeb llafur. Rhoddir lle parcio iddi yn y lleoliad am fod ei hanabledd yn ei gwneud yn amhosibl iddi ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r undeb ei wneud, p'un a oedd y gŵyn yn ymwneud â'i hanabledd ai peidio.

7.28 **[a 16A(4)-(6)]** Gall dyletswydd sefydliad crefft i wneud addasiadau rhesymol hefyd fod yn gymwys mewn perthynas â chyn-aelod sy'n anabl. Bydd hyn yn digwydd:

- os perir bod y person anabl o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â chyn-aelodau eraill:
  - a. oherwydd darpariaeth, arfer neu faen prawf a gymhwysir gan y sefydliad crefft at y person anabl mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi o'i gyn-aelodaeth, neu
  - b. oherwydd nodwedd ffisegol ar safle'r sefydliad
- mae'r sefydliad naill ai'n gwybod, neu gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo wybod, fod gan y cyn-aelod dan sylw anabledd a'i bod yn debygol yr effeithir arno yn y modd hwn.

Mae person sydd newydd fynd yn anabl yn dymuno mynd i gynhadledd sefydliad crefft y mae'n gyn-aelod ohono. Mae'r gynhadledd hon yn agored i gyn-aelodau. Mae'n esbonio i drefnwyr y gynhadledd ei fod bellach yn rhannol ddall. Maent yn trefnu i dywysydd fod gydag ef yn y gynhadledd ac yn cynhyrchu papurau'r gynhadledd mewn print bras. Mae'r rhain yn debygol o fod yn addasiadau rhesymol i'r sefydliad crefft eu gwneud.

7.29 Rhaid mai pobl nad ydynt yn anabl, ond sy'n gyn-aelodau o'r un sefydliad yw'r cyn-aelodau y dylid cymharu sefyllfa'r person anabl â hwy. Os nad oes modd nodi cymharydd gwirioneddol at y diben hwn, yna gellir defnyddio cymharydd damcaniaethol (gweler paragraff 4.17).

Gwybodaeth am anabledd

7.30 **[a 14(3)]** Gwnaed y pwynt sawl gwaith yn y bennod hon mai dim ond os yw sefydliad crefft yn gwybod, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod person, neu y gall person fod, yn ymgeisydd am aelodaeth neu fod ganddo anabledd a'i bod yn debygol y perir ei fod o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl y bydd ganddo ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol. Fodd bynnag, tybir bod sefydliad crefft yn gwybod hynny o dan amgylchiadau penodol.

Cael gwybodaeth

7.31 Mae'n arfer da i sefydliad crefft wahodd ei aelodau i ddweud wrtho am eu hanghenion sy'n gysylltiedig ag anabledd. Sut bynnag, pan fydd gwybodaeth a ddylai wneud sefydliad crefft yn effro i'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff 7.30 ar gael iddo, neu pan fyddai ar gael iddo pe bai'n weddol effro, ni all y sefydliad ei hanwybyddu. Felly mae'n fuddiol bod sefydliad crefft yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod anabledd gan bobl y mae'n ymwneud â hwy ac yn gwneud ymholiadau rhesymol os awgryma'r amgylchiadau mai felly y mae. Mae'n golygu hefyd ei bod yn syniad da i bobl anabl, os dymunant fanteisio i'r eithaf ar ddarpariaethau'r Ddeddf, roi gwybod i'r sefydliadau crefft am eu hanabledd ac am anfanteision sylweddol y maent yn debygol o'u hwynebu. Po gyntaf y caiff sefydliad crefft wybod am anabledd a'i effeithiau, mwyaf tebygol ydyw y gall wneud addasiadau effeithiol.

Mae gan undeb llafur ffurflen gais ymaelodi sy'n cynnwys cwestiynau yn gofyn a yw'r ymgeisydd yn anabl neu a oes angen gwybodaeth arno mewn fformat hawdd ei ddefnyddio (megis print bras, Braille, tâp neu e-bost). Mae hefyd yn gofyn a oes gan yr ymgeisydd unrhyw anghenion sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Mae cymdeithas broffesiynol yn anfon gwahoddiadau i gynhadledd at ei haelodau. Mae'r gwahoddiad yn cynnwys manylion cyffredinol ynglŷn â mynediad i bobl anabl, ac mae'r ffurflen archebu yn holi ynglŷn â gofynion o ran mynediad – megis a oes angen gwybodaeth i gynadleddwyr mewn fformat hawdd ei ddefnyddio, ac a oes gan gynadleddwyr unrhyw ofynion deietegol penodol.

7.32 Os bydd asiant neu gyflogai sefydliad crefft (megis cynrychiolydd undeb llafur) yn gwybod am anabledd aelod, yn rhinwedd y swydd honno, fel arfer ni all y sefydliad honni nad yw'n gwybod am yr anabledd. Mae'r un peth yn wir mewn perthynas ag ymgeiswyr gwirioneddol neu ddarpar ymgeiswyr sydd am ymaelodi yn y sefydliad. Felly mae angen i sefydliadau crefft sicrhau pan fydd gwybodaeth am bobl anabl yn gallu dod drwy sianeli gwahanol, bod modd – cyfrinachol, addas – i ddwyn y wybodaeth ynghyd, er mwyn ei gwneud yn haws i'r sefydliad gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf.

Mae aelod o undeb llafur yn dweud wrth ysgrifennydd ei changen na all ddringo grisiau oherwydd problemau symudedd. Mae ysgrifennydd y gangen yn trefnu i'r aelod fynd ar gwrs hyfforddiant a drefnir gan adran addysg yr undeb. Pan fydd yr aelod yn cyrraedd y sesiwn hyfforddiant, ni all fynd i mewn i'r adeilad am fod grisiau. Ni allai'r undeb honni nad oedd yn gwybod am anabledd yr aelod.

7.33 Ni chaiff gwybodaeth ei phriodoli i sefydliad crefft os oes rhywun sy'n darparu gwasanaethau i aelodau yn annibynnol ar y sefydliad wedi cael y wybodaeth. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r sefydliad wedi trefnu i'r gwasanaethau hynny gael eu darparu.

Mae aelod o sefydliad crefft yn defnyddio Llinell Gymorth sy'n darparu gwasanaeth cwnsela. Mae'n annibynnol ar y sefydliad ond fe'i darperir fel un o fuddiannau

aelodaeth. Yn ystod ei sgwrs â'r cwnsler mae'r aelod yn trafod ei bryderon am y ffaith bod ei olwg yn gwaethygu. Ni ddylid rhagdybio bod y sefydliad crefft ei hun yn gwybod bod angen iddo gael cylchgrawn y sefydliad mewn fformat hawdd ei ddefnyddio, ar sail y sgwrs hon.

Gwybodaeth gyfrinachol

7.34 Bydd y graddau y mae gan sefydliad crefft hawl i adael i aelodau eraill wybod am anabledd cyd-aelod yn dibynnu'n rhannol ar delerau'r aelodaeth. Gallai sefydliad fod yn gwahaniaethu yn erbyn yr aelod drwy ddatgelu gwybodaeth o'r fath pe na bai'n datgelu gwybodaeth debyg am rywun arall at ddiben yr un mor ddilys; neu pe bai'r sefydliad yn datgelu gwybodaeth o'r fath heb ymgynghori â'r unigolyn, yn hytrach na mabwysiadu'r arfer cyffredin o siarad ag aelod cyn datgelu gwybodaeth bersonol amdano. Mae angen hefyd i sefydliadau crefft fod yn ymwybodol bod ganddynt rwymedigaethau o dan y Ddeddf Diogelu Data mewn perthynas â data personol.

Mae aelod o undeb llafur am fynd i gynhadledd breswyl dros benwythnos, gan deithio yno ar fws a drefnir gan yr undeb. Mae'n rhaid i'r aelod o'r undeb fynd â chyfarpar dialysis gyda hi am fod ei harennau wedi methu. Mae angen dweud wrth aelod arall, er mwyn iddi gael help i lwytho a dadlwytho'r cyfarpar. Mae'r aelod anabl yn caniatáu i aelod arall o'r undeb gael gwybod ei bod yn mynd â chyfarpar meddygol gyda hi er mwyn iddi gael help gyda'r cyfarpar.

7.35 Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 7.21, weithiau ni fydd addasiad rhesymol yn gweithio heb gydweithrediad aelodau eraill. Er mwyn sicrhau cydweithrediad o'r fath, efallai y bydd angen i sefydliad crefft ddweud wrth un neu fwy o gyd-aelodau'r person anabl (yn gyfrinachol) ynglŷn ag anabledd nad yw'n amlwg. Mae wrth bwy y bydd yn briodol sôn am yr anabledd yn dibynnu ar natur yr anabledd a'r rheswm pam bod angen iddynt wybod amdano. Sut bynnag, mae'n rhaid i sefydliad crefft beidio â datgelu manylion cyfrinachol am aelod heb ei ganiatâd. Efallai y bydd penderfyniad person anabl i wrthod rhoi caniatâd o'r fath yn effeithio ar effeithiolrwydd yr addasiadau y gall y sefydliad crefft eu gwneud neu ar ei allu i wneud addasiadau o gwbl.

7.36 Nid yw'r Ddeddf yn atal person anabl rhag cadw anabledd yn gyfrinachol a pheidio â dweud wrth sefydliad crefft am anabledd. Ond mae hyn yn debygol o olygu na fydd y sefydliad o dan ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol oni ellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod am anabledd yr unigolyn beth bynnag. Os bydd person anabl yn disgwyl i sefydliad crefft wneud addasiad rhesymol, bydd angen iddo roi digon o wybodaeth i'r sefydliad – neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran – i wneud yr addasiad hwnnw.

Rôl undebau llafur

7.37 Mae undebau llafur yn enghreifftiau amlwg o'r hyn a olyga'r Ddeddf wrth sefydliadau crefft. Cynrychioli buddiannau eu haelodau yn y gweithle yw un o swyddogaethau pwysicaf undebau llafur, ac felly mae angen i gynrychiolwyr undebol ymgyfarwyddo â darpariaethau'r Ddeddf ynglŷn â chyflogaeth a galwedigaeth. Mae angen iddynt allu cydnabod hawliadau posibl o dan y Ddeddf a gwybod sut i ymateb yn briodol. Dylai cynrychiolwyr undebol hefyd ddeall yr angen i wneud addasiadau rhesymol mewn cyfarfodydd cangen, er enghraifft, ac y dylid asesu rhesymoldeb y gost o wneud addasiad gan ystyried adnoddau cyffredinol yr undeb, ac unrhyw gronfeydd mynediad sydd ar gael (gweler paragraffau 2.15 a 2.16).

7.38 Mae'n bwysig bod undebau llafur yn sicrhau bod cynrychiolwyr undebol yn cael hyfforddiant priodol ar y Ddeddf a'u bod yn ymwybodol o god

ymarfer Comisiwn Hawliau Anabledd ar ddarpariaethau'r Ddeddf ynglŷn â chyflogaeth a galwedigaeth (gweler Atodiad B). Hefyd cynghorir undebau llafur i roi trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod achosion priodol yn cael eu cyfeirio at gyfreithwyr yr undeb.

8. Gwahaniaethu gan gyrff cymwysterau

Cyflwyniad

8.1 Mae Pennod 3 yn disgrifio ystyr 'corff cymwysterau' ac yn esbonio ei bod yn anghyfreithlon i gorff o'r fath wahaniaethu yn erbyn person anabl mewn perthynas â rhoi cymwysterau proffesiynol neu grefft, neu aflonyddu ar unrhyw un, neu ei erlid – p'un a yw'n anabl ai peidio. Nid yw'r bennod hon yn cynnwys y dyletswyddau mewn perthynas â'r cyrff hynny sy'n rhoi cymwysterau cyffredinol perthnasol – ystyrir y dyletswyddau hyn ymhellach ym Mhennod 9.

8.2 Mae'r bennod hon yn ystyried y darpariaethau ynglŷn â chyrff cymwysterau yn fanylach. Mae'n esbonio beth mae'r diffiniad o 'gymhwyster proffesiynol neu grefft' yn ei gwmpasu'n ymarferol. Mae'n ystyried pryd y mae trin person anabl yn llai ffafriol gan gorff cymwysterau yn anghyfreithlon, a phryd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn codi. Yn olaf, mae'n ystyried ystyr ac arwyddocâd 'safonau cymhwysedd'.

8.3 **[a 17A(1A)]** Dylid nodi na chaniateir i berson anabl gyflwyno hawliad gerbron tribiwnlys cyflogaeth ynglŷn â gwahaniaethu neu aflonyddu honedig gan gorff cymwysterau os oes apêl statudol ar gael mewn perthynas â'r mater dan sylw. Er enghraifft, mae Deddf Meddygaeth 1983 yn nodi dulliau penodol o apelio yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu ei bwyllgorau ynglŷn â chofrestru ymarferwyr meddygol. Felly, ni allai cwyn y mae'r dulliau apelio hyn yn gymwys iddi gael ei chyflwyno gerbron tribiwnlys cyflogaeth yn lle hynny.

8.4 Dylid hefyd nodi mai dim ond ar swyddogaethau rhoi cymwysterau proffesiynol neu grefft y mae darpariaethau'r Ddeddf sy'n ymwneud yn benodol â chyrff cymwysterau yn canolbwyntio. Gall y ffordd y mae cyrff o'r fath yn cyflawni swyddogaethau eraill ddod o dan ddarpariaethau eraill y Ddeddf. Er enghraifft, pan fydd corff cymwysterau hefyd yn sefydliad crefft, mae'n rhaid ystyried hefyd yr hyn a ddywed y Ddeddf am sefydliadau crefft – a Phennod 7 o'r Cod yn benodol.

Beth yw cymhwyster proffesiynol neu grefft?

8.5 **[a 14A(5)]** Fel y nodwyd ym mharagraff 3.9, nodwedd allweddol corff cymwysterau yw ei fod yn rhoi cymwysterau proffesiynol neu grefft. Dywed y Ddeddf fod cymhwyster o'r fath yn awdurdodiad, yn gymhwyster, yn gydnabyddiaeth, yn gofrestriad, yn ymrestriad, yn gymeradwyaeth neu'n ardystiad sy'n angenrheidiol i ymgymryd â phroffesiwn neu grefft benodol, neu sy'n hwyluso ymgymryd ag ef neu hi. Yn amlwg, felly, mae'r ymadrodd yn cynnwys y cymwysterau hynny ac ati, a roddir i hyrwyddo gyrfa benodol yn unig. Fodd bynnag, gall hefyd gynnwys cymwysterau cyffredinol os ydynt yn hwyluso ymgymryd â phroffesiwn neu grefft benodol ac os nad yw'r cymwysterau cyffredinol hyn yn gymwysterau cyffredinol perthnasol (gweler Pennod 9 am ragor o fanylion). Er mwyn penderfynu a yw cymhwyster penodol yn gymhwyster proffesiynol neu grefft at ddibenion y Ddeddf, mae angen mynd i'r afael â'r tri chwestiwn canlynol:

- Beth yw'r proffesiwn neu'r grefft?
- Beth yw'r cymhwyster?
- A yw'r cymhwyster penodol hwnnw yn ei gwneud yn haws i rywun weithio yn y proffesiwn neu'r grefft benodol honno (yn hytrach na'i helpu'n gyffredinol yn yr yrfa honno neu unrhyw yrfa arall)?

8.6 Ni ddylid dehongli'r gair 'cymhwyster' yn gul – nid oes angen i gymhwyster proffesiynol neu grefft gynnwys llwyddo mewn arholiadau ffurfiol neu brofion.

Mewn rhai achosion, gall bod yn aelod o sefydliad neu gorff yn unig fod yn gyfystyr ag ennill cymhwyster os yw'r aelodaeth ei hun yn hwyluso ymgymryd â phroffesiwn neu grefft benodol.

8.7 Mae'r rhestr ganlynol (na fwriedir iddi fod yn hollgynhwysfawr) yn rhoi enghreifftiau o gymwysterau a fyddai neu a allai gael eu hystyried yn gymwysterau proffesiynol neu grefft o dan y Ddeddf ar yr amod bod y meini prawf a nodir ym mharagraff 8.5 wedi'u bodloni:

- Cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Tystysgrif i ymarfer fel cyfreithiwr a roddir gan Gymdeithas y Cyfreithwyr
- Cofrestru â Chyngor Gosodwyr Nwy Cofrestredig (CORGI)
- Cymwysterau NVQ
- Cymwysterau BTEC
- City and Guilds
- Cymwysterau Galwedigaethol yr Alban
- Trwyddedau gyrru HGV
- Aelodaeth, cofrestriad neu gymrodoriaeth o gyrff crefft neu broffesiynol (e.e. Cymrawd o Sefydliad yr Ieithyddion).

8.8 Mewn perthynas â rhai proffesiynau neu grefftau, gall sefydliadau addysgol neu gyrff eraill lunio, rhedeg ac arholi eu cyrsiau eu hunain, er mai corff allanol sy'n rheoli'r broses o gymeradwyo derbyn unigolyn i'r proffesiwn neu'r grefft. Oherwydd y diffiniad eang o 'gymhwyster proffesiynol neu grefft', mae cyrff allanol o'r fath yn debygol o fod yn gyrff cymwysterau os ydynt yn cyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau canlynol:

- cadw cofrestr o bobl sy'n gymwys i ymarfer yn y proffesiwn neu'r grefft
- cynnal profion ychwanegol i bobl sydd wedi cymhwyso neu sydd am gymhwyso, yn y proffesiwn neu'r grefft, megis profion sgiliau sylfaenol neu archwiliadau meddygol, neu
- cymeradwyo cymhwyster rhywun i ddarparwr ei gwrs.

Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol?

8.9 **[a 14A(1)]** Mae'n amlwg y bydd corff cymwysterau yn tynnu gwahaniaeth rhwng unigolion wrth roi, adnewyddu neu ymestyn cymwysterau proffesiynol neu grefft. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, dylid osgoi gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl – mae'n anghyfreithlon i gorff cymwysterau wahaniaethu yn erbyn person anabl mewn perthynas â nifer o faterion a nodir yn y Ddeddf (ac a restrir ym mharagraff 3.19).

8.10 **[a 3A(5)]** Fel yr esboniwyd ym Mhennod 4, mae trin person anabl mewn ffordd wahanol i''r ffordd y mae (neu y byddai) pobl eraill yn cael eu trin yn gyfystyr â gwahaniaethu o dan rai amgylchiadau. Yn benodol, mae triniaeth o'r fath yn anghyfreithlon os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan Ran 2. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 4.4, mae'r ffordd y trinnir person anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol:

- os yw ar sail ei anabledd
- os yw'n cael ei drin yn llai ffafriol nag y mae (neu y byddai) rhywun nad oes ganddo'r anabledd penodol hwnnw yn cael ei drin
- os yw amgylchiadau perthnasol y person y cymherir ag ef, gan gynnwys ei alluoedd, yr un peth â rhai'r person anabl, neu os nad ydynt yn wahanol iawn.

Mae corff cymwysterau yn argymell i goleg addysg uwch na ddylid caniatáu i ddyn â phroblemau symudedd ddilyn cwrs mewn gwaith cymdeithasol, gan ei fod yn camdybio y gallai gael anhawster ymweld â chartrefi cleientiaid. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol.

Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd?

8.11 **[a 3A(1)]** Gall trin person anabl yn llai ffafriol fod yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf er nad yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. Bydd hyn yn wir os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd yn lle hynny. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 4.25, mae hyn yn golygu trin rhywun yn llai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Fodd bynnag, yn wahanol i driniaeth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol (ac na ellir ei chyfiawnhau felly), nid yw'r ffordd y mae corff cymwysterau yn trin person anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd os gall y corff ddangos y gellir ei chyfiawnhau. Esbonnir yr amgylchiadau cyffredinol lle y gall hyn fod yn bosibl ym Mhennod 6. Fodd bynnag, mae rheolau arbennig yn gymwys mewn perthynas â chyfiawnhau triniaeth lai ffafriol wrth gymhwyso safon cymhwysedd (gweler paragraffau 8.35 i 8.40).

8.12 I grynhoi, bydd trin person anabl yn llai ffafriol yn anghyfreithlon os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol neu wahaniaethu ar sail anabledd, ac mae'n gysylltiedig â'r canlynol:

- y trefniadau ar gyfer penderfynu i bwy y dylid rhoi cymhwyster proffesiynol neu grefft
- ar ba delerau y mae corff cymwysterau yn rhoi, yn adnewyddu ac yn ymestyn cymhwyster o'r fath
- penderfyniad gan gorff o'r fath i wrthod neu fethu'n fwriadol â chaniatáu ei gais am gymhwyster, neu
- tynnu cymhwyster oddi wrtho neu amrywio ar ba delerau y mae'n ei ddal.

Mae cymdeithas broffesiynol sy'n cadw cofrestr o aciwbigwyr yn tynnu'n ôl gofrestriad menyw nad yw wedi gallu gweithio am flwyddyn oherwydd triniaeth am ganser. Mae'n bolisi gan y gymdeithas i dynnu'n ôl gofrestriad unrhyw un nad yw wedi ymarfer am y cyfnod hwn. Trinnir y fenyw am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd (nid yw wedi bod yn ymarfer yn ddiweddar oherwydd ei hanabledd). Mae'n cael ei thrin yn llai ffafriol nag y byddai rhywun a oedd wedi ymarfer yn ddiweddar yn cael ei drin. Felly byddai'n gyfystyr â gwahaniaethau ar sail anabledd oni all y gymdeithas (yn gweithredu fel corff cymwysterau) ei chyfiawnhau.

8.13 **[a 16A]** Dywed y Ddeddf hefyd, pan fydd person anabl yn peidio â dal cymhwyster proffesiynol neu grefft, ei bod yn anghyfreithlon o hyd i'r corff cymwysterau a'i rhoddodd:

- wahaniaethu yn ei erbyn drwy beri afles iddo, neu
- aflonyddu arno

os yw'r gwahaniaethu neu'r aflonyddu yn codi o'r ffaith iddo arfer dal y cymhwyster a bod cysylltiad agos rhwng y ddau.

8.14 Mae hefyd yn anghyfreithlon erlid unigolyn (p'un a yw'n anabl ai peidio) ar ôl iddo beidio â dal cymhwyster o'r fath (gweler paragraffau 4.31 i 4.34).

Ym mha ffordd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i gyrff cymwysterau?

I ba bobl anabl y mae dyletswydd?

8.15 **[a 14B(1)]** Mae gan gorff cymwysterau ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i'r ffordd y mae'n rhoi, yn adnewyddu neu'n ymestyn cymwysterau proffesiynol neu grefft (ac eithrio mewn perthynas â safonau cymhwysedd). Mae'r ddyletswydd hon arno i berson anabl sy'n dal cymhwyster a roddwyd ganddo ac i ymgeisydd anabl neu ddarpar ymgeisydd anabl ar gyfer cymhwyster o'r fath.

8.16 **[a 14B(2)]** Mae'r ddyletswydd yn ymestyn i ddeiliaid cymwysterau a roddwyd gan y corff ac i ymgeiswyr ar gyfer cymhwyster o'r fath. Fodd bynnag, yn achos darpariaeth, maen prawf neu arfer ar gyfer penderfynu i bwy y dylid rhoi cymhwyster, dim ond i berson anabl sydd wedi gwneud cais i gael y cymhwyster neu sydd wedi hysbysu'r corff y gall wneud cais y bydd y ddyletswydd yn gymwys.

8.17 **[a 14(3)]** Dim ond os yw'r corff cymwysterau yn gwybod, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod, bod y person anabl dan sylw yn ymgeisydd ar gyfer cymhwyster proffesiynol neu grefft, neu y gallai fod yn ymgeisydd, y bydd y ddyletswydd yn gymwys. Yn yr un modd, dim ond os yw'r corff yn gwybod bod gan yr unigolyn anabledd sy'n debygol o beri ei fod o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl y bydd y ddyletswydd yn gymwys.

8.18 **[a 16A(4)-(6)]** Gall dyletswydd corff cymwysterau i wneud addasiadau rhesymol hefyd ymestyn i berson anabl a oedd yn arfer dal cymhwyster proffesiynol neu grefft. Mae hyn yn wir pan fo darpariaeth, arfer neu faen prawf, neu nodwedd ffisegol safle'r corff cymwysterau, yn peri bod y person anabl o dan anfantais sylweddol o'i gymharu ag eraill yn yr un sefyllfa. Fodd bynnag, dim ond os yw'r corff cymwysterau yn gwybod, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod gan yr unigolyn dan sylw anabledd a'i bod yn debygol yr effeithir arno yn y modd hwn y bydd y ddyletswydd yn gymwys.

8.19 Rhaid mai pobl nad ydynt yn anabl, ond a oedd hefyd yn arfer dal yr un cymhwyster proffesiynol neu grefft a roddwyd gan yr un sefydliad yw'r bobl y dylid cymharu sefyllfa'r person anabl â hwy. Os nad oes modd nodi cymharydd gwirioneddol at y diben hwn, yna gellir defnyddio cymharydd damcaniaethol (gweler paragraff 4.17).

Beth yw effaith y ddyletswydd?

8.20 Pan fo'n gymwys, mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn debygol o effeithio ar drefniadau mewn perthynas â sefyll profion ac arholiadau, ac wrth adnewyddu cymwysterau pan fo angen gwneud hynny. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd i wneud addasiadau i safonau cymhwysedd a gymhwysir at berson anabl gan gorff cymwysterau. Fodd bynnag, pan fo'r ddyletswydd yn gymwys, mae'n rhaid i'r corff cymwysterau gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol i atal y ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer, neu'r nodwedd ffisegol (yn ôl y digwydd) rhag peri bod aelod anabl o dan anfantais sylweddol.

Dywedwyd wrth fenyw â phroblem iechyd meddwl fod arholiad llafar ar gyfer diploma mewn dehongli a chyfieithu wedi ei drefnu am 8:30 am. Byddai amseriad yr arholiad yn peri bod y fenyw o dan anfantais sylweddol, am fod ei meddyginiaeth yn gwneud iddi deimlo'n gysglyd iawn am nifer o oriau ar ôl iddi ei chymryd yn y bore – sy'n ei hatal rhag canolbwyntio'n iawn. Mae'r corff cymwysterau yn cytuno i'w chais i sefyll yr arholiad yn ddiweddarach yn ystod y dydd.

Mae dyn sy'n darllen gwefusau oherwydd nam ar ei glyw yn mynd i sefyll prawf ymarferol fel rhan o'i gwrs harddwch. Mae'r corff cymwysterau yn cyfarwyddo'r aseswr sy'n gweithio ar ei ran i wynebu'r dyn wrth roi cyfarwyddiadau yn ystod yr asesiad ac i siarad yn glir.

Mae prawf crefft uwch mewn saernïaeth yn cynnwys arholiad ymarferol saith awr. Mae menyw ag arthritis na all ond gweithio'n rhan-amser oherwydd ei hanabledd am sefyll y prawf hwn mewn dwy sesiwn o dair awr a hanner ar ddau ddiwrnod olynol. Mae'r corff cymwysterau sy'n dyfarnu'r cymhwyster yn caniatáu iddi sefyll y prawf yn y modd hwn.

Mae ymgeisydd sydd â dyslecsia yn sefyll arholiad ysgrifenedig fel rhan o gwrs gemwaith. Mae'r corff cymwysterau yn caniatáu amser ychwanegol iddi sefyll yr arholiad, a hefyd y defnydd o ddarllenwr ac amanuensis (rhywun i ysgrifennu ar ei rhan) gan na all yr ymgeisydd ddarllen nac ysgrifennu'n dda oherwydd ei dyslecsia.

Mae corff cymwysterau yn caniatáu amser ychwanegol i fenyw ag anabledd dysgu i sefyll arholiad ysgrifenedig. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r corff cymwysterau ei wneud, am na fyddai'r grefft y mae'r fenyw am ymgymryd â hi yn gofyn am wneud gwaith ysgrifenedig mewn cyfnod byr, felly nid yw'r gallu i ysgrifennu'n gyflym yn safon cymhwysedd.

Mae dyn anabl yn gofyn am ddwywaith gymaint o amser i sefyll prawf mewn llaw fer am fod ei anabledd yn ei gwneud yn amhosibl iddo ysgrifennu'n gyflym. Mae hwn yn annhebygol o fod yn addasiad rhesymol i'r corff cymwysterau ei wneud, am fod cyflymder yn elfen hanfodol o gymhwyster llaw fer – mewn geiriau eraill, mae'n debygol o fod yn safon cymhwysedd ac felly nid yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys.

Beth yw goblygiadau ymarferol y ddyletswydd?

8.21 Er nad oes dyletswydd ar gorff cymwysterau i wneud addasiad rhesymol os nad yw'n meddu ar y wybodaeth angenrheidiol (gweler paragraff 8.17), tybir ei fod yn meddu ar y wybodaeth honno o dan rai amgylchiadau.

8.22 Pan fydd gwybodaeth a ddylai wneud corff cymwysterau yn effro i'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff 8.17 ar gael iddo, neu pan fyddai ar gael iddo pe bai'n weddol effro, ni all y corff ei hanwybyddu. Felly mae'n syniad da i bobl anabl, os dymunant fanteisio i'r eithaf ar ddarpariaethau'r Ddeddf, roi gwybod i sefydliadau addysgu a chyrff cymwysterau am eu hanabledd ac am anfanteision sylweddol sy'n debygol o godi. Po gyntaf y caiff corff cymwysterau wybod am anabledd a'i effeithiau, mwyaf tebygol ydyw y gall wneud addasiadau effeithiol.

8.23 Fel y soniwyd ym mharagraff 2.15, cynghorir cyrff cymwysterau hefyd i sefydlu systemau ar gyfer gweithio gyda sefydliadau addysgol a chyrff eraill y maent yn gweithio gyda hwy er mwyn sicrhau bod cyrff cymwysterau yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud addasiadau ar gyfer myfyrwyr anabl sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau eraill er mwyn cael cymhwyster proffesiynol neu grefft. Er enghraifft, gallai system o'r fath gynnwys y camau canlynol:

- Ymhell cyn yr arholiad neu'r asesiad dan sylw, mae'r corff cymwysterau yn gofyn i sefydliadau addysgol ofyn i ymgeiswyr a oes ganddynt anableddau sy'n gwneud addasiadau rhesymol yn angenrheidiol.
- Mae pob sefydliad addysgol yn gofyn i'w fyfyrwyr am y wybodaeth hon, ynghyd â'u caniatâd unigol i hysbysu'r corff cymwysterau. Yna trosglwyddir y wybodaeth i'r corff cymwysterau.
- Efallai y bydd myfyrwyr yn cael enw cyswllt yn y corff cymwysterau y gallant drafod eu gofynion gyda hwy ymhellach.
- Mae'r corff cymwysterau yn defnyddio'r wybodaeth sy'n dod i law i benderfynu pa addasiadau y dylid eu gwneud. Yna mae'n hysbysu sefydliadau addysgol o'i benderfyniad, ac yn trafod â hwy sut y caiff addasiadau o'r fath eu gweithredu.

Mae corff sy'n rhoi cymwysterau mewn cyfrifeg yn gofyn i goleg am wybodaeth am fyfyrwyr y gallai fod angen addasiadau rhesymol arnynt. Mae'r coleg yn gofyn i'w myfyrwyr am y wybodaeth hon. Mae myfyriwr â pharlys yr ymennydd yn cael anhawster ysgrifennu, ac felly mae'n gofyn am ganiatâd i ddefnyddio cyfrifiadur wrth sefyll yr arholiadau. Mae'r coleg yn trosglwyddo'r cais hwn i'r corff

cymwysterau, sy'n rhoi caniatâd ac sy'n cydgysylltu â'r coleg er mwyn sicrhau y gall y coleg ddarparu cyfleusterau priodol iddo sefyll yr arholiadau.

8.24 Mae sefydliadau addysgol neu gyrff eraill yn aml yn darparu addysg, hyfforddiant neu wasanaethau eraill (megis cyfleusterau ar gyfer sefyll arholiadau neu asesiadau) sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol neu grefft, er nad ydynt hwy eu hunain yn rhoi'r cyfleuster. Mae'n debygol y bydd gan sefydliadau neu gyrff o'r fath ddyletswyddau ar wahân o dan Ran 3 neu Ran 4 mewn perthynas â'r addysg, yr hyfforddiant neu'r gwasanaethau eraill a ddarparant. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Ddeddf, cynghorir sefydliadau neu gyrff o'r fath i hysbysu cyrff cymwysterau ar gam cynnar ynglŷn ag anabledd ymgeisydd a'i oblygiadau perthnasol – ar yr amod y ceir caniatâd yr ymgeisydd yn gyntaf, wrth gwrs.

8.25 Yn ymarferol, dim ond os yw'r sefydliad neu'r corff addysgol a'r corff cymwysterau dan sylw yn cydweithio i sicrhau canlyniad priodol y caiff anghenion person anabl sy'n sefyll arholiad, prawf neu asesiad eu diwallu'n llawn.

Mae dyn rhannol ddall yn gofyn am bapur prawf mewn print bras a lamp ddesg. Mae'r corff cymwysterau yn darparu papur mewn print bras ac yn cydgysylltu â'r coleg lle mae'r dyn yn sefyll y prawf i sicrhau ei fod yn darparu lamp ddesg.

Mae dyn rhannol ddall ar gwrs arall bob amser wedi cael gwybodaeth am y cwrs mewn print bras gan y coleg fel addasiad rhesymol (o dan Bennod 1 neu 2 o Ran 4 o'r Ddeddf), ac mae wedi defnyddio lamp ddesg wrth sefyll profion mewnol fel rhan o'i gwrs. Gyda chaniatâd y dyn, mae'r coleg yn hysbysu'r corff cymwysterau bod angen papur arholiad mewn print bras ar y dyn ar gyfer arholiadau a osodir gan y corff cymwysterau. Mae'r coleg yn darparu lamp ddesg ar gyfer arholiadau o'r fath.

8.26 Nid yw'r Ddeddf yn atal person anabl rhag cadw anabledd yn gyfrinachol a pheidio â dweud wrth gorff cymwysterau (er y gall deddfwriaeth arall ei gwneud yn ofynnol i'w ddatgelu – mewn perthynas â chais am drwydded yrru, er enghraifft). Ond mae hyn yn debygol o olygu na fydd y corff cymwysterau o dan ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol oni ellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod am anabledd yr unigolyn beth bynnag. Os bydd person anabl yn disgwyl i gorff cymwysterau wneud addasiad rhesymol, bydd angen iddo roi digon o wybodaeth iddo wneud yr addasiad hwnnw.

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am safonau cymhwysedd?

Beth yw safon cymhwysedd?

8.27 **[a 14A(5)]** Dywed y Ddeddf fod safon cymhwysedd yn safon academaidd, yn safon feddygol neu'n safon arall a gymhwysir gan neu ar ran corff cymwysterau er mwyn penderfynu a oes rhywun yn meddu ar lefel benodol o gymhwysedd neu allu. Felly, er enghraifft, mae meddu ar safon benodol o ran golwg yn safon cymhwysedd ofynnol ar gyfer cymhwyster peilot. Mae meddu ar lefel benodol o wybodaeth am system drethiant y DU yn safon cymhwysedd ar gyfer cymhwyster mewn cyfrifeg.

8.28 Mae cyrff cymwysterau yn debygol o osod gwahanol ofynion ac amodau wrth roi cymhwyster proffesiynol neu grefft. Fodd bynnag, dim ond os mai diben unrhyw ofyniad neu amod o'r fath yw dangos lefel benodol o gymhwysedd neu allu y bydd yn gyfystyr â safon cymhwysedd. Byddai gofyniad bod rhywun yn meddu ar lefel benodol o wybodaeth am bwnc, er enghraifft, neu'r nerth neu'r gallu i ymgymryd â thasg neu weithgarwch penodol o fewn cyfnod penodol, yn safon cymhwysedd yn fwy na thebyg.

8.29 Ar y llaw arall, ni fydd amod bod rhywun, er enghraifft, wedi cael profiad o wneud rhywbeth am gyfnod penodol yn safon cymhwysedd os nad yw'n pennu lefel benodol o gymhwysedd neu allu. Isod ceir enghreifftiau o ofynion sydd felly yn annhebygol o fod yn gyfystyr â safonau cymhwysedd:

- gofyniad bod yn rhaid bod gan ymgeisydd o leiaf ddeng mlynedd o brofiad parhaus (mae'n bosibl bod rhywun sydd â dau gyfnod o brofiad yn gwneud cyfanswm o ddeng mlynedd yn meddu ar allu a phrofiad cyfatebol)
- gofyniad bod yn rhaid i ymgeisydd gwblhau deuddeg sesiwn gymhwyso (er mwyn ymgymhwyso i fod yn fargyfreithiwr)
- gofyniad bod yn rhaid i ymgeisydd fod wedi'i gyflogi'n broffesiynol mewn maes penodol ar y pryd.

8.30 Fel arfer, mae gwahaniaeth rhwng safon cymhwysedd a'r broses o bennu a gyrhaeddwyd y safon. Er enghraifft, drwy lwyddiant mewn arholiad academaidd y rhoddir llawer o gymwysterau. Mae meddu ar y lefel ofynnol o wybodaeth i lwyddo yn yr arholiad yn safon cymhwysedd. Fodd bynnag, efallai na fydd yr arholiad ei hun (yn hytrach na pherfformiad ynddo) yn cynnwys safon cymhwysedd – am nad yw'r broses fecanyddol o sefyll yr arholiad yn debygol o fod yn berthnasol i'r broses o bennu cymhwysedd neu allu perthnasol.

8.31 Weithiau, wrth gwrs, mae cysylltiad annatod rhwng y broses o asesu a gyrhaeddwyd safon cymhwysedd â'r safon ei hun. Mae rhai cymwysterau yn amodol ar feddu ar sgil neu allu ymarferol y mae'n rhaid ei ddangos drwy gwblhau prawf ymarferol. Gall y gallu i sefyll y prawf fod yn gyfystyr â safon cymhwysedd ynddo'i hun.

Ni ellir cynnal arholiad llafar i rywun sy'n hyfforddi i fod yn gyfieithydd Rwseg mewn ffordd amgen, e.e. fel arholiad ysgrifenedig, am mai diben yr arholiad yw cadarnhau a all rhywun siarad Rwseg.

Ni ellir cynnal prawf gyrru ar gyfer cerbyd nwyddau trwm fel prawf ysgrifenedig yn unig am mai diben y prawf yw cadarnhau a all rhywun yrru cerbyd nwyddau trwm mewn gwirionedd.

Ni ellir cynnal prawf ymarferol mewn trin coed ar y ddaear am mai diben y prawf yw cadarnhau a all rhywun dorri canghennau coed, gan gynnwys canghennau uchel, mewn gwirionedd.

Beth yw arwyddocâd y gwahaniaeth hwn?

8.32 Mae rheolau arbennig yn gymwys mewn perthynas â chymhwyso safon cymhwysedd i berson anabl gan neu ar ran corff cymwysterau. Effaith y Ddeddf yw:

- nad oes dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â chymhwyso safon cymhwysedd,
- o dan yr amgylchiadau cyfyngedig lle y gellir cyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol wrth gymhwyso safon o'r fath, yr asesir y cyfiawnhad drwy gyfeirio at brawf statudol arbennig (gweler paragraff 8.36).

8.33 Mae'n dilyn ei bod yn bwysig iawn cadarnhau a yw darpariaeth, maen prawf neu arfer penodol corff cymhwysterau yn safon cymhwysedd ac, os felly, ai'r ffordd y cymhwysir y safon honno at y person anabl dan sylw yw'r mater dan sylw. Er nad oes dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â chymhwyso safon cymhwysedd, mae dyletswydd o'r fath yn debygol o fod yn gymwys mewn perthynas â'r broses o asesu cymhwysedd.

Mae menyw sy'n sefyll prawf ysgrifenedig ar gyfer cymhwyster mewn gweinyddiaeth swyddfa yn gofyn i'r corff cymwysterau perthnasol am amser ychwanegol i sefyll y prawf am fod dyslecsia arni. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r corff cymwysterau ei wneud. Mae hefyd yn gofyn a gaiff hepgor y cwestiynau sy'n

gofyn iddi ysgrifennu llythyr busnes a chrynhoi dogfen, am ei bod yn teimlo y byddai'r cwestiynau hyn yn peri ei bod o dan anfantais sylweddol oherwydd ei dyslecsia. Ni fyddai'n rhaid i'r corff cymwysterau wneud yr addasiad hwn gan mai nod y cwestiynau hyn yw pennu ei gallu i ysgrifennu a chrynhoi, felly maent yn rhan o'r safon cymhwysedd a brofir.

8.34 Fel y nodwyd ym mharagraffau 8.23 ac 8.24, cynghorir cyrff cymwysterau a, lle y bo'n berthnasol, sefydliadau addysgol i sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth i asesu eu cyfrifoldebau i bobl anabl. Er nad oes gan gorff cymwysterau ddyletswydd i newid safon cymhwysedd, mae angen iddo gael digon o wybodaeth ynglŷn ag anabledd rhywun i benderfynu a ddylid gwneud addasiad rhesymol i ryw agwedd arall ar y broses o roi'r cymhwyster dan sylw. Mae'n rhaid i gorff cymwysterau ganfod a yw anabledd rhywun yn effeithio ar safon cymhwysedd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 8.31, efallai y bydd gorgyffwrdd rhwng safon cymhwysedd ac unrhyw broses a ddefnyddir i asesu unigolyn yn erbyn y safon honno.

Pryd y gellir cyfiawnhau triniaeth lai ffafriol o ran safonau cymhwysedd?

8.35 **[a 3A(4) a gymhwysir gan a 14A(4)]** Ni ellir byth gyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan Ran 2 (gweler paragraff 8.10) – pan fydd y driniaeth yn seiliedig ar ragdybiaethau cyffredinol neu ystrydebol ynglŷn â'r anabledd neu ei effeithiau. Mae'r egwyddor hon yn gymwys i'r ffordd y caiff person anabl ei drin wrth i safon cymhwysedd gael ei chymhwyso yn yr un ffordd ag y mae'n gymwys i'r ffordd y caiff ei drin mewn ffyrdd eraill.

8.36 **[a 14A(3)]** I'r graddau **nad** yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongrychol, dywed y Ddeddf, pan fo'r ffordd y cymhwysir safon cymhwysedd at berson anabl yn gyfystyr â'i drin yn llai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd, y gellir cyfiawnhau'r driniaeth os, ond dim ond os gall y corff cymwysterau ddangos y canlynol:

- mae'r (neu y byddai'r) safon cymhwysedd yn cael ei chymhwyso yn yr un modd at bobl nad oes ganddynt ei anabledd penodol
- mae ei chymhwyso yn fodd cymesur i gyflawni nod dilys.

Mae corff cymwysterau yn gwrthod rhoi cymhwyster i ddyn sy'n methu prawf ffitrwydd. Nid yw hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol am y byddai unrhyw un, boed yn anabl ai peidio, a fethodd y prawf ffitrwydd yn cael ei drin yn yr un ffordd. Ond mae'n driniaeth lai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd y dyn. Gellid cyfiawnhau'r driniaeth os oedd y prawf ffitrwydd yn safon cymhwysedd a gymhwysid yn yr un modd at bob ymgeisydd **a** bod y prawf ffitrwydd yn fodd cymesur i ddangos bod yr unigolyn yn ddigon heini i gyflawni gofynion hanfodol y gwaith y mae'r cymhwyster yn ymwneud ag ef.

Yn y sefyllfa uchod nid oedd y corff cymwysterau wedi adolygu'r safonau ffitrwydd i weld a oeddent yn gymesur i ofynion y gwaith. Pe bai wedi gwneud hynny, byddai wedi canfod bod y safonau ffitrwydd gofynnol yn llawer uwch na'r hyn y gallai llawer o bobl a oedd yn gweithio yn y gwaith hwnnw ei gyflawni erbyn hyn (er i'r bobl hyn gyrraedd y safon ar adeg cymhwyso). Felly, mae'n annhebygol y gallai'r corff cymwysterau gyfiawnhau'r safon cymhwysedd hon.

8.37 Effaith y darpariaethau hyn yw, o dan yr amgylchiadau cyfyngedig lle mae cyfiawnhad yn bosibl, y gellir cyfiawnhau'n wrthrychol driniaeth lai ffafriol sydd ar sail anabledd ac sy'n codi o gymhwyso safon cymhwysedd. Nid yw cyfiawnhad yn dibynnu ar asesiad unigol o amgylchiadau'r person anabl, ond yn

hytrach mae'n dibynnu ar asesiad o ddiben ac effaith y safon cymhwysedd ei hun.

8.38 Mae'r rheolau arbennig hyn ynglŷn â chyfiawnhad ond yn berthnasol i gymhwyso safon cymhwysedd mewn gwirionedd. Os bydd corff cymwysterau yn cymhwyso safon cymhwysedd yn anghywir, yna nid yw, mewn gwirionedd, yn cymhwyso'r safon ac nid yw'r rheolau hyn yn weithredol. Yn hytrach, mae'r prawf mwy arferol o gyfiawnhad yn weithredol (gan dybio, wrth gwrs, nad yw'r ffordd y cymhwyswyd safon yn anghywir yn uniongyrchol wahaniaethol, ond ei bod yn driniaeth lai ffafriol ar sail anabledd).

8.39 Gall cymhwyso safon cymhwysedd ynglŷn â gofyniad meddygol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, arwain at drin person anabl yn llai ffafriol. Mae gofynion meddygol sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ystrydebol ynglŷn â goblygiadau iechyd a diogelwch anabledd yn gyffredinol, neu fathau penodol o anabledd, yn debygol o fod yn uniongyrchol wahaniaethol – felly bydd trin person anabl yn llai ffafriol o ganlyniad i gymhwyso gofyniad o'r fath yn anghyfreithlon.

Mae dyn ag epilepsi yn astudio i fod yn weithiwr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol. Rheolir ei gyflwr gan feddyginiaeth ac nid yw wedi cael pwl ers dwy flynedd. Serch hynny mae'r corff cymwysterau perthnasol yn ei atal rhag parhau â'i hyfforddiant i gael cymhwyster ar sail iechyd a diogelwch. Mae'n gwneud hyn yn gyntaf heb gynnal asesiad risg. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon.

8.40 Serch hynny, gall pryderon gwirioneddol ynglŷn ag iechyd a diogelwch fod yn berthnasol i'r cyfiawnhad o safon cymhwysedd ynglŷn â gofyniad meddygol. Gan dybio nad yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, dim ond os gall y corff ddangos bod (neu y byddai) y gofyniad yn gymwys yn yr un modd i bobl nad oes ganddynt yr anabledd hwnnw y gellir cyfiawnhau cymhwyso gofyniad o'r fath. Byddai angen hefyd ddangos bod y gofyniad yn cyflawni nod dilys a'i fod yn fodd cymesur i gyflawni'r nod hwnnw. Byddai'n rhaid i'r corff cymwysterau roi tystiolaeth argyhoeddiadol bod y safon yn wirioneddol hanfodol i anghenion y proffesiwn neu'r grefft er mwyn sicrhau cymhwysedd ymarferwyr.

Sut y gall cyrff cymwysterau osgoi gwahaniaethu mewn perthynas â safonau cymhwysedd?

8.41 Er mwyn osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon pan fydd cymhwyso safon cymhwysedd yn arwain at drin person anabl yn llai ffafriol, bydd yn rhaid i'r corff cymwysterau dan sylw ddangos dau beth. Yn gyntaf, bydd yn rhaid iddo ddangos nad yw'r ffordd y cymhwysir y safon yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. Yn ail, bydd angen dangos y gellir cyfiawnhau'r safon yn wrthrychol. Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn bosibl pan fydd y corff cymwysterau wedi ystyried natur ac effeithiau ei safonau cymhwysedd cyn i fater godi'n ymarferol. Cynghorir cyrff cymwysterau i adolygu a gwerthuso safonau cymhwysedd. Gallai'r broses hon gynnwys:

- nodi diben penodol pob safon cymhwysedd a gymhwysir, ac ystyried sut y mae'n cyflawni'r diben hwnnw
- ystyried effaith bosibl pob safon cymhwysedd ar bobl anabl ac, yn achos safon a allai gael effaith andwyol, gofyn a yw'n hollol angenrheidiol cymhwyso'r safon
- adolygu diben ac effaith pob safon cymhwysedd yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid – megis datblygiadau ym maes technoleg.
- ystyried a ellid cyflawni'r diben y cymhwysir unrhyw safon cymhwysedd mewn perthynas ag ef mewn ffordd nad yw'n cael effaith andwyol ar bobl anabl
- dogfennu'r ffordd yr aed i'r afael â'r materion hyn, y casgliadau y daethpwyd iddynt, a'r rhesymau dros y casgliadau hynny.

9. Gwahaniaethu gan gyrff cymwysterau cyffredinol

Cyflwyniad

9.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yn fanylach y darpariaethau ynglŷn â chyrff cymwysterau cyffredinol o dan Bennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf a rheoliadau cysylltiedig. Mae'n esbonio'r cyd-destun y mae cyrff cymwysterau cyffredinol yn gweithredu ynddo a beth mae'r diffiniad o 'gymwysterau cyffredinol perthnasol' yn ei gwmpasu'n ymarferol. Mae'n ystyried pryd y mae trin person anabl yn llai ffafriol gan gorff cymwysterau cyffredinol yn anghyfreithlon, a phryd mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn codi. Yn olaf, mae'n ystyried ystyr ac arwyddocâd 'safonau cymhwysedd'.

Beth yw corff cymwysterau cyffredinol?

9.2 **[a 31AA(4) a (6)(a)]** Mae'r Ddeddf yn diffinio corff cymwysterau cyffredinol fel corff sy'n rhoi cymhwyster cyffredinol perthnasol. Dywed y Ddeddf fod rhoi cymhwyster o'r fath hefyd yn cynnwys adnewyddu, estyn, dilysu, awdurdodi, cymhwyso, cymeradwyo neu ardystio.

9.3 **[Rheoliad 2 ac Atod i OS/2007/1764]** Mae'r rhestr ganlynol yn nodi'n hollgynhwysfawr (ond yn amodol ar newidiadau gan y llywodraeth yn y dyfodol) y cymwysterau y tybir eu bod yn gymwysterau cyffredinol perthnasol gan reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf.

- Arholiadau TAG (Tystysgrif Addysg Gyffredinol) Safon Uwch (Lefel A ac UG)
- Arholiadau TAA (Tystysgrif Addysg Alwedigaethol)
- Dyfarniadau Uwch Estynedig
- Arholiadau TGAU (Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd)
- Cymwysterau mathemateg annibynnol
- Cymwysterau lefel mynediad
- Sgiliau Allweddol
- Lefelau Llythrennedd a Rhifedd, Lefel 1, 2 a 3
- GNVQ (Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol)
- Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yr Alban
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Y Fagloriaeth Ryngwladol.

9.4 Mae'r rhestr ganlynol (na fwriedir iddi fod yn hollgynhwysfawr) yn rhoi enghreifftiau o gyrff sy'n debygol o roi cymwysterau cyffredinol perthnasol:

- Assessment and Qualifications Alliance (AQA)
- Edexcel
- Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)
- University of Cambridge Local Examination Syndicate (UCLES, gan gynnwys OCR)
- Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC).

9.5 **[a 31AA(5) ac 14A(5)] Ni all** cymhwyster cyffredinol perthnasol fod yn gymhwyster proffesiynol a chrefft hefyd (ac fel arall). Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw unigolyn yn ceisio ennill cymhwyster cyffredinol perthnasol er mwyn ymuno â phroffesiwn neu grefft benodol, a bod y cymhwyster hwn yn ei gwneud yn haws i ymuno â phroffesiwn neu grefft benodol.

9.6 **[a 31AA(6)(a) (i) i (iv)]** Dywed y Ddeddf hefyd, at ddibenion y darpariaethau hyn, **nad** yw cyrff cyfrifol (fel y'u diffiniwyd o dan Bennod 1 neu 2 o Ran 4 o'r Ddeddf), awdurdodau addysg lleol (yng Nghymru a Lloegr) nac awdurdodau addysg (yn yr Alban) yn gyrff cymwysterau cyffredinol.

9.7 Gall rhai sefydliadau addysgol neu gyrff eraill redeg eu cyrsiau eu hunain a rhoi cymwysterau. Ni fydd ganddynt ddyletswyddau o dan y darpariaethau hyn am nad ydynt yn rhoi cymwysterau cyffredinol **perthnasol**. Efallai y bydd ganddynt ddyletswyddau gwahanol fel cyrff cymwysterau, darparwyr gwasanaethau neu gyrff cyfrifol o dan Rannau 2, 3 neu 4 o'r Ddeddf yn y drefn honno.

Cyrff cymwysterau cyffredinol a rheoleiddwyr

9.8 Fel yr esboniwyd ym mharagraff 3.30, caiff cymwysterau cyffredinol perthnasol eu rheoleiddio gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gosod meini prawf ac yn achredu cymwysterau cyffredinol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys gosod meini prawf ac amcanion ar gyfer arholi, profi ac asesu mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol perthnasol.

9.9 Caiff y dasg o roi cymhwyster cyffredinol perthnasol a phenderfynu i bwy y dylid rhoi cymwysterau o'r fath ei chynnal gan gyrff cymwysterau cyffredinol.

9.10 **[a 57]** Mae'n bosibl y gall rheoleiddwyr perthnasol cymwysterau cyffredinol perthnasol (a elwir yn "rheoleiddwyr" o hyn ymlaen), yn ogystal â'r cyrff cymwysterau cyffredinol eu hunain, fod yn atebol ar y cyd am wahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd o dan y dyletswyddau hyn. Mae paragraffau 3.29 i 3.34 yn esbonio ymhellach ddarpariaethau'r Ddeddf mewn perthynas â chyfrifoldeb am weithredoedd pobl eraill a chynorthwyo gyda gweithred anghyfreithlon.

Cyrff cymwysterau cyffredinol a chanolfannau arholi

9.11 Mae llawer o gyrff cymwysterau cyffredinol yn contractio â thrydydd partïon i drefnu, goruchwylio a chynnal arholiadau, profion ac asesiadau, gyda chanlyniadau'r rhain yn pennu pwy fydd yn gymwys i ennill cymwysterau cyffredinol perthnasol a'r graddau y dyfarnwyd y cymwysterau arnynt. Gall rhai cyrff cymwysterau cyffredinol gyflogi goruchwylwyr arholiadau yn uniongyrchol, gyda'r arholiadau yn cael eu cynnal mewn cyfleusterau/safleoedd a reolir gan drydydd partïon. Gelwir y trydydd partïon hyn yn ganolfannau arholi fel arfer. Mae llawer o'r canolfannau arholi hyn hefyd yn ysgolion ac yn golegau lle mae ymgeiswyr yn astudio ac, yn aml, yr ysgolion a'r colegau hyn, yn hytrach na'r cyrff cymwysterau cyffredinol, sy'n tywys disgyblion a myfyrwyr i astudio ar gyfer cymwysterau cyffredinol penodol a cheisio eu hennill.

9.12 At hynny, caiff cyfathrebu rhwng y corff cymwysterau cyffredinol, y ganolfan arholi ac ymgeisydd anabl ei hwyluso fel arfer drwy'r ganolfan arholi. O ganlyniad, mae cyrff cymwysterau cyffredinol yn aml yn dibynnu ar ganolfannau arholi i nodi a bodloni gofynion ymgeiswyr anabl ar gyfer addasiadau i arholiadau, gyda chanllawiau a chyfraniad gan gyrff cymwysterau cyffredinol lle y bo angen.

9.13 Serch hynny, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau uniongyrchol ar gyrff cymwysterau cyffredinol i osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn ymgeiswyr anabl ac ni ellir bob amser osgoi dyletswyddau o'r fath yn llwyr ac ni ellir bob amser eu cyflawni'n llwyr drwy ddirprwyo cyfrifoldebau o'r fath i ganolfannau arholi. Fel y soniwyd ym Mhennod 2, mae'n bwysig iawn bod canolfannau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod gofynion ymgeiswyr anabl neu ddarpar ymgeiswyr anabl yn cael eu bodloni a bod gwahaniaethu anghyfreithlon yn cael ei osgoi. Gall methiant i wneud hynny olygu bod y naill neu'r llall neu'r ddau yn atebol am wahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd o dan y Ddeddf.

9.14 Mae gan bob ysgol a'r rhan fwyaf o golegau ddyletswyddau ar wahân eu hunain, er enghraifft, fel darparwyr addysg o dan Benodau 1 a 2 o Ran 4 o'r Ddeddf, yn y drefn honno. O ganlyniad, mae'n bosibl y gallai ysgolion a cholegau eu hunain fod yn atebol yn unigol neu ar y cyd (â'r corff cymwysterau cyffredinol) am wahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd yng nghyd-destun cynnal arholiadau, profion ac asesiadau ar gyfer cymwysterau cyffredinol perthnasol. Mae paragraffau 3.29 i 3.34 yn esbonio ymhellach ddarpariaethau'r Ddeddf mewn perthynas â chyfrifoldeb am weithredoedd pobl eraill a chynorthwyo gyda gweithred anghyfreithlon. Efallai y bydd gan ganolfannau arholi nas cwmpesir gan Ran 4 o'r Ddeddf gyfrifoldebau cyfreithiol ar wahân fel darparwyr gwasanaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf.

Crynodeb o ddyletswyddau

9.15 Yn gryno mae'n anghyfreithlon i gorff o'r fath wahaniaethu yn erbyn person anabl mewn perthynas â rhoi cymwysterau cyffredinol perthnasol drwy:

- ei drin yn llai ffafriol ar sail ei anabledd; a/neu
- fethu â chyflawni dyletswydd adran 31AD (pan fydd yn codi) i wneud addasiadau rhesymol; a/neu
- ei drin yn llai ffafriol heb gyfiawnhad am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd; a/neu
- aflonyddu arno mewn cysylltiad.

Hefyd, mae'n anghyfreithlon i gorff o'r fath:

- erlid unrhyw un – boed yn anabl ai peidio.

Cwmpas dyletswyddau

9.16 **[a 31AA(1)]** Yng nghyd-destun rhoi cymwysterau cyffredinol perthnasol mae'n anghyfreithlon i gyrff sy'n rhoi cymwysterau cyffredinol perthnasol wahaniaethu mewn perthynas â'r canlynol:

- y trefniadau ar gyfer penderfynu i bwy y dylid rhoi cymhwyster cyffredinol perthnasol
- ar ba delerau y mae corff cymwysterau yn rhoi, yn adnewyddu ac yn ymestyn cymhwyster o'r fath
- penderfyniad gan gorff o'r fath i wrthod neu fethu'n fwriadol â chaniatáu cais rhywun am gymhwyster, neu
- tynnu cymhwyster oddi wrth berson anabl neu amrywio ar ba delerau y mae'r person anabl yn ei ddal.

9.17 Dylid hefyd nodi mai dim ond ar swyddogaethau rhoi cymwysterau cyffredinol perthnasol y mae darpariaethau'r Ddeddf sy'n ymwneud yn benodol â chyrff cymwysterau cyffredinol yn canolbwyntio. Gall y ffordd y mae cyrff o'r fath yn cyflawni swyddogaethau eraill ddod o dan ddarpariaethau eraill y Ddeddf.

9.18 Er enghraifft, pan fydd corff cymwysterau cyffredinol hefyd yn gyflogwr neu'n ddarparwr gwasanaethau, mae'n rhaid ystyried hefyd yr hyn a ddywed y Ddeddf am gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau – ac yn benodol y codau ymarfer ar Gyflogaeth a Galwedigaeth a Nwyddau, Cyfleusterau a Gwasanaethau. Efallai y bydd gan gyrff cymwysterau cyffredinol gyfrifoldebau uniongyrchol neu anuniongyrchol hefyd mewn perthynas â'r dyletswyddau a nodir yn adrannau 49A-F o'r Ddeddf (a elwir yn Ddyletswyddau Cydraddoldeb i Bobl Anabl) ac yn anuniongyrchol mewn perthynas â'r dyletswyddau a nodir yn adrannau 21B-E o'r Ddeddf (gwahaniaethu gan awdurdodau cyhoeddus) sy'n gymwys i awdurdodau cyhoeddus sy'n rheoleiddio cymwysterau cyffredinol.

Atebolrwydd am weithredoedd rhywrai eraill

9.19 **[a 57 ac a 58]** Dylid nodi bod y Ddeddf yn trin gweithredoedd neu anweithredoedd gwahaniaethol asiantau corff cymwysterau cyffredinol fel pe baent o eiddo'r corff ei hun. At hynny

gallai asiantau hefyd fod yn atebol yn unigol neu'n bersonol am gynorthwyo gyda gwahaniaethu anghyfreithlon (gweler paragraffau 3.29 i 3.34).

Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol?

9.20 Wrth benderfynu pwy ddylai gael cymhwyster cyffredinol perthnasol, bydd yn rhaid i gorff cymwysterau cyffredinol wahaniaethu rhwng unigolion. Nid yw'r Ddeddf yn atal corff rhag gwneud hyn, ond, wrth wneud hyn, dylid osgoi gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl yn anghyfreithlon mewn perthynas â nifer o faterion a nodir yn y Ddeddf (ac a restrir ym mharagraff 9.16 uchod).

9.21 **[a 31AB(8)]** Fel yr esboniwyd ym Mhennod 4, mae trin person anabl mewn ffordd wahanol i'r ffordd y mae (neu y byddai) pobl eraill yn cael eu trin yn gyfystyr â gwahaniaethu o dan rai amgylchiadau. Yn benodol, mae triniaeth o'r fath yn anghyfreithlon os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan y darpariaethau ynglŷn â chyrff cymwysterau cyffredinol o dan Bennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf. Ni ellir cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol. Fel yr esboniwyd ym mharagraff 4.4, mae'r ffordd y trinnir person anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol:

- os yw ar sail ei anabledd
- os yw'n cael ei drin yn llai ffafriol nag y mae (neu y byddai) rhywun nad oes ganddo'r anabledd penodol hwnnw yn cael ei drin
- os yw amgylchiadau perthnasol y person y cymherir ag ef, gan gynnwys ei alluoedd, yr un peth â rhai'r person anabl, neu os nad ydynt yn wahanol iawn.

9.22 Dylai fod yn amlwg y gall gwahaniaethu uniongyrchol godi o weithredoedd ac anweithredoedd – y mae cyrff cymwysterau cyffredinol yn gyfrifol amdanynt – sy'n seiliedig ar ragfarn ynglŷn ag anabledd. Mae hefyd yn codi lle y trinnir person anabl yn llai ffafriol oherwydd rhagdybiaethau neu stereoteipiau cyffredinol.

> Mae corff cymwysterau cyffredinol yn gwrthod caniatáu i ymgeisydd â sgitsoffrenia sefyll arholiad TGAU ar yr un pryd ag ymgeiswyr eraill, gan gamdybio – heb ymchwilio ymhellach – fod y cyflwr yn risg i iechyd a diogelwch y rhai sy'n bresennol yn y ganolfan arholi. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol.

9.23 Nid yw gwahaniaethu uniongyrchol yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am anabledd ar ran y gwahaniaethwr honedig gael ei dangos; gall gwahaniaethu, gan gynnwys gwahaniaethu uniongyrchol, yn aml fod yn anymwybodol. At hynny, nid oes rhaid mai gwahaniaethu uniongyrchol yw'r unig reswm dros y driniaeth lai ffafriol.

9.24 Yn yr enghraifft uchod yn 9.22, bu gwahaniaethu uniongyrchol am y byddai cymhariaeth ar sail debyg at ei debyg wedi cadarnhau na fyddai rhagdybiaethau o'r fath ynglŷn â'r risg i iechyd a diogelwch wedi atal ymgeisydd arholiad nad oedd yn anabl, a fyddai wedi cael sefyll yr arholiad yr un pryd â'r ymgeiswyr eraill.

9.25 Felly, mae'n dilyn y byddai angen i berson anabl ddangos, er mwyn profi iddo gael ei drin yn llai ffafriol ar sail ei anabledd, fod neu y byddai cymharydd nad oes ganddo'r un anabledd (person gwirioneddol neu ddamcaniaethol) wedi ei drin yn fwy ffafriol nag ef o dan yr un amgylchiadau perthnasol neu o dan amgylchiadau nad ydynt yn wahanol iawn (gan gynnwys galluoedd).

9.26 Gall effeithiau anabledd person anabl fod yn berthnasol i'r gymhariaeth at ddibenion gwahaniaethu uniongyrchol, ond ni fydd yr anabledd, ynddo'i hun, yn berthnasol. Mae'n bwysig nodi'n gywir yr amgylchiadau perthnasol cyn cadarnhau'r cymharydd cywir, ac yna ddefnyddio'r gymhariaeth i benderfynu

a fu gwahaniaethu uniongyrchol: drwy wneud hyn dylid dod i'r casgliad cywir.

Mae defnyddiwr cadair olwyn yn cwyno ynglŷn â gwahaniaethu uniongyrchol yn ei erbyn gan na ddyfarnwyd cymhwyster TGAU mewn Mathemateg am iddo fethu'r arholiad, er iddo gael cyfle i sefyll yr arholiad drwy addasiadau rhesymol, ond bod person nad oedd yn anabl wedi cael y cymhwyster ar ôl llwyddo yn yr arholiad yn yr un pwnc. Byddai rhywun nad yw'n anabl yn yr un ffordd, ond sy'n meddu ar yr un galluoedd perthnasol â'r person sy'n defnyddio cadair olwyn mewn perthynas â chymhwyster TGAU mewn Mathemateg, hefyd wedi methu. Felly, o dan yr amgylchiadau perthnasol, ni fu gwahaniaethu uniongyrchol.

9.27 Nid yw'n wahaniaethu uniongyrchol os bydd corff cymwysterau cyffredinol yn trin person anabl yn fwy ffafriol na pherson anabl arall (er enghraifft, drwy gyflawni'r ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol) os nad yr un yw eu hamgylchiadau a'u bod yn wahanol mewn ffordd berthnasol.

Caniateir cyfathrebwr llafar i ymgeisydd byddar sy'n sefyll arholiad ar gyfer cymhwyster cyffredinol perthnasol am y rhan o'r arholiad na all ymgymryd â hi oherwydd ei nam. Ni roddir cyfleuster tebyg i rywun â diabetes, nad yw'n rhannu'r un anawsterau o ran yr arholiad. Ni thrinnir y person â diabetes yn llai ffafriol ar sail ei anabledd na'r ymgeisydd byddar oherwydd yr amgylchiadau perthnasol (h.y. y gallu i ymgymryd â'r arholiad) am fod y gymhariaeth rhwng y ddau yn wahanol mewn ffordd berthnasol.

Caniateir i ymgeisydd â nam ar y golwg sy'n sefyll arholiad ar gyfer cymhwyster cyffredinol proffesiynol ddefnyddio meddalwedd gyfrifiadurol syntheseiddio lleferydd i ymgymryd â'r papur arholiad a chofnodi ei hatebion i'r cwestiynau, na all ei wneud drwy ddefnyddio'r fformat papur safonol, neu wedi ei addasu. Ni roddir cyfleuster tebyg i rywun â nam gwahanol, nad yw'n cael yr anawsterau hyn. Ni thrinnir y person yn llai ffafriol ar sail ei anabledd na'r ymgeisydd â nam ar y golwg oherwydd yr amgylchiadau perthnasol (h.y. y gallu i ymgymryd â'r arholiad) am fod y gymhariaeth rhwng y ddau yn wahanol mewn ffordd berthnasol.

9.28 Dylid nodi na ddylid defnyddio'r un gymhariaeth i benderfynu ar hawliadau o wahaniaethu oherwydd methiant i wneud addasiadau rhesymol, neu oherwydd gwahaniaethu ar sail anabledd (gweler paragraffau 5.2 a 5.3 mewn perthynas â hawliadau ynglŷn ag addasiadau rhesymol, neu wrth ystyried gwahaniaethau ar sail anabledd (gweler paragraff 4.28).

Beth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd?

9.29 **[a 31AB(1)]** Gall trin person anabl yn llai ffafriol fod yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf hyd yn oed os nad yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. Bydd hyn yn wir os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd yn lle hynny.

9.30 Fel yr esboniwyd ym mharagraff 4.25, mae'r ffordd y mae corff cymwysterau cyffredinol yn trin person anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol:

- os yw'r rheswm yn gysylltiedig â'i anabledd
- os yw'n cael ei drin yn llai ffafriol nag y mae'r (neu y byddai'r) corff cymwysterau cyffredinol yn trin eraill nad yw'r (neu na fyddai'r) rheswm yn berthnasol iddynt
- os na all y corff ddangos y gellir cyfiawnhau'r driniaeth.

9.31 Mae gwahaniaethu ar sail anabledd yn cwmpasu dosbarthiad ehangach o driniaeth lai ffafriol na gwahaniaethu

uniongyrchol, oherwydd y gall y cysylltiad achosol rhwng anabledd a'r driniaeth lai ffafriol fod yn llawer llai uniongyrchol yn y naill hawliad o'i gymharu â'r llall. Yn y bôn, ceir gwahaniaethu ar sail anabledd yn aml pan fydd y rheswm dros driniaeth lai ffafriol yn ymwneud ag anabledd, ond nid yr anabledd ei hun.

9.32 Felly, yn wahanol i wahaniaethu uniongyrchol, y gymhariaeth allweddol ar gyfer gwahaniaethu ar sail anabledd yw rhywun nad yw'r rheswm sy'n gysylltiedig ag anabledd yn berthnasol iddo.

Mae ymgeisydd mewn arholiad lefel A â nam corfforol sy'n effeithio ar ei sgiliau deheurwydd llaw ac, yn enwedig ar ei allu i ysgrifennu. Mae'n ofyniad gan y corff cymwysterau cyffredinol fod yn rhaid i bob ateb mewn arholiad fod yn ysgrifenedig ac na chaiff atebion mewn ysgrifen anniben eu marcio. Mae'r ganolfan arholi yn holi ynglŷn â'r gofyniad hwn ond mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn mynnu ei fod yn un o ofynion yr arholiad, er na fydd yn safon cymhwysedd at ddibenion y dyletswyddau hyn. Yn ystod arholiad hir mae'r ymgeisydd anabl yn cael anhawster i ysgrifennu ei atebion, ond mae'n llwyddo i gwblhau'r arholiad. Fodd bynnag, ni dderbynnir ei atebion am y tybir fod ei ysgrifen yn anniben. Trinnir yr ymgeisydd anabl am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd (ei anallu i ysgrifennu i safon daclus dybiedig oherwydd ei anabledd). Mae'n cael ei drin yn llai ffafriol nag y byddai rhywun a oedd wedi ysgrifennu'n daclus yn cael ei drin. Felly byddai'n gyfystyr â gwahaniaethau ar sail anabledd oni all y corff cymwysterau cyffredinol gyfiawnhau'r driniaeth. Nid yw ansawdd ysgrifen yn safon cymhwysedd fel arfer, felly byddai'n rhaid profi cyfiawnhad yn y ffordd arferol sef rheswm perthnasol a sylweddol.

9.33 **[a 31AB(1)(b)]** Yn wahanol i driniaeth sy'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol (ac na ellir ei chyfiawnhau felly), nid yw'r ffordd y mae'r corff yn trin person anabl yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd os gall y corff ddangos y gellir ei chyfiawnhau'n wrthrychol.

9.34 **[a 31AB(3)]** Esbonnir yr amgylchiadau cyffredinol lle y gall hyn fod yn bosibl ym Mhennod 6. I grynhoi, pan fydd gwahaniaethu ar sail anabledd (nad yw'n gysylltiedig â chymhwyso safon cymhwysedd), dim ond os yw'r rheswm dros y driniaeth yn berthnasol i amgylchiadau'r achos penodol ac yn sylweddol y gellir cyfiawnhau triniaeth o'r fath am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd unigolyn anabl.

9.35 **[a 31AB(5)]** Gall methiant i gyflawni'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol gael effaith sylweddol ar allu corff cymwysterau cyffredinol i gyfiawnhau triniaeth lai ffafriol ar sail anabledd. Pan fydd corff cymwysterau cyffredinol yn methu â chyflawni'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, pan fydd y ddyletswydd hon yn codi, ac mae hyn yn arwain at driniaeth lai ffafriol am resymau sy'n gysylltiedig ag anabledd (pan na fyddai triniaeth o'r fath pe bai'r ddyletswydd wedi ei chyflawni) yna ni all y corff gyfiawnhau gwahaniaethu ar sail anabledd.

9.36 **[a 31AB(4)]** Fodd bynnag, mae rheolau arbennig yn gymwys mewn perthynas â chyfiawnhau triniaeth lai ffafriol wrth gymhwyso safon cymhwysedd (gweler paragraffau 9.57 ymlaen am ragor o fanylion). Mae'n rhaid profi cyfiawnhad mewn ffordd wahanol pan fydd safon cymhwysedd a gymhwysir yn arwain at driniaeth lai ffafriol ar sail anabledd. Pan fydd hyn yn digwydd, dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y gellir cyfiawnhau triniaeth:

- mae'r safon cymhwysedd neu byddai'r safon cymhwysedd yn cael ei chymhwyso yn yr un modd at bobl nad oes ganddynt ei anabledd penodol;
- mae ei chymhwyso yn fodd cymesur i gyflawni nod dilys.

Aflonyddu ac erledigaeth

9.37 Mae'n anghyfreithlon hefyd i gorff cymwysterau cyffredinol aflonyddu ar berson anabl am resymau sy'n gysylltiedig ag anabledd (gweler paragraffau 4.36 a 4.37 am ragor o fanylion) ac i erlid rhywun (p'un a yw'n anabl ai peidio – gweler paragraffau 4.31 i 4.34 am ragor o fanylion).

Ym mha ffordd y mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i gyrff cymwysterau?

I bwy y mae dyletswydd?

9.38 **[a 31AB(2) ac a 31AD]** Mae gan gorff cymwysterau cyffredinol ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeisydd anabl neu ddarpar ymgeisydd anabl ar gyfer cymhwyster cyffredinol perthnasol ac ar gyfer person anabl sy'n dal cymhwyster cyffredinol perthnasol a roddir ganddo.

Sut y mae'r ddyletswydd yn codi?

9.39 **[a 31AD(1)]** O dan y Ddeddf, mae'r ddyletswydd ar gorff cymwysterau cyffredinol i wneud addasiadau rhesymol yn codi mewn tair ffordd benodol. Yn gyntaf, mae'n codi pan gymhwysir darpariaeth, maen prawf neu arfer, gan neu ar ran corff cymwysterau cyffredinol, o ran penderfynu i bwy y dylid rhoi cymhwyster perthnasol, sy'n peri bod person anabl (sydd wedi hysbysu'r corff ei fod, neu y gall fod, yn ymgeisydd am y cymhwyster hwnnw) o dan anfantais sylweddol (h.y. anfantais sy'n fwy nag anfantais fach neu ddibwys) o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl.

9.40 **[a 31AD(2)]** Yn ail, mae'r ddyletswydd yn codi pan gymhwysir darpariaeth, maen prawf neu arfer gan neu ar ran corff cymwysterau cyffredinol, **ac eithrio** un ar gyfer penderfynu i bwy y dylid rhoi cymhwyster perthnasol, sy'n peri bod person anabl – sy'n gwneud cais i gael cymhwyster cyffredinol perthnasol neu sy'n dal un – o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl.

9.41 **[a 31AD(3)]** Yn drydydd, mae'r ddyletswydd yn codi pan fydd unrhyw un o nodweddion ffisegol safle corff cymwysterau cyffredinol yn peri bod person anabl sy'n dal cymhwyster perthnasol neu sy'n gwneud cais am un, o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl – mae Pennod 10 yn darparu rhagor o wybodaeth am yr agweddau cyfreithiol ar y ddyletswydd sy'n ymwneud â nodwedd ffisegol.

Addasiadau rhesymol a safonau cymhwysedd

9.42 Dylid nodi nad yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i **bob** safon cymhwysedd. Fodd bynnag, mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol perthnasol, mae'r broses o asesu'r safon cymhwysedd yn y rhan fwyaf o achosion yn dod o dan y ddyletswydd pan nad yw'r broses yn rhan o'r wybodaeth, y sgiliau na'r ddealltwriaeth a brofir (gweler paragraffau 9.57 ymlaen am ragor o wybodaeth am safonau cymhwysedd).

Asesir a yw ymgeiswyr wedi cyrraedd y gwahanol raddau ar gyfer lefel A mewn Hanes drwy graffu ar draethodau a ysgrifennwyd gan ymgeiswyr mewn arholiad. Nid yw'r ffordd yr ysgrifennir y traethodau yn safonau cymhwysedd. Yn hytrach, mae unrhyw ddarpariaethau, meini prawf ac arferion ynglŷn â'r ffordd yr ysgrifennir y traethodau, y mae'r corff yn eu cymhwyso, yn dod o dan y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol os ydynt yn peri anfantais sylweddol i ymgeisydd anabl oherwydd ei (h)anabledd.

Gellir asesu rhai elfennau o gymhwyster cyffredinol perthnasol naill ai ar lafar

neu'n ysgrifenedig. Gall rhai o'r elfennau hyn fod yn safonau cymhwysedd nad ydynt yn dod o dan y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Fodd bynnag, efallai na fydd y broses asesu ei hun yn safon cymhwysedd ac felly mae'n debygol o ddod o dan y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Gallai'r ddyletswydd hon godi pan fydd un dull asesu, mewn gwrthgyferbyniad â dull arall, yn peri bod ymgeisydd anabl o dan anfantais sylweddol.

Addasiadau rhesymol ac eithriadau rhag elfennau o arholiadau

9.43 [Rheoliadau 1 a 3 o OS/2007/1764] Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn codi am fod ymgeisydd anabl o dan anfantais sylweddol, er enghraifft, mewn perthynas â threfniadau corff cymwysterau cyffredinol ar gyfer penderfynu i bwy y dylid rhoi cymhwyster cyffredinol. Dywed y rheoliadau pan fydd y ddyletswydd yn codi ei bod bob amser yn addasiad rhesymol i eithrio ymgeisydd anabl rhag un neu fwy o elfennau o arholiadau ac asesiadau na all ymgymryd â hwy os na ellir dileu'r anfantais sylweddol dan sylw drwy unrhyw addasiad rhesymol arall. Mae'r rheoliadau yn diffinio 'elfen' yn y cyd-destun hwn fel elfen ar wahân y gellir ei hasesu o gymhwyster nad yw wedi'i ardystio ar wahân.

9.44 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn hollol glir mai addasiad pan fetho popeth arall yw eithriad o'r fath yn yr ystyr mai dim ond os na ellir gwneud addasiad rhesymol arall y caiff ei ystyried. Felly, ni fyddai'n rhesymol eithrio rhywun rhag gwneud elfen pan allai addasiad arall fod wedi cyflawni'r ddyletswydd pan fydd yn codi a fyddai wedi caniatáu i berson anabl ymgymryd â'r elfen(nau) dan sylw. Yr ystyriaeth gyntaf yw a yw'r ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol yn codi ac yna, pa addasiadau rhesymol, heblaw eithrio rhag elfen, y gellir eu gwneud i gyflawni'r ddyletswydd, cyn hyd yn oed ystyried eithrio rhag elfen.

9.45 [a 31AD(1)(a) ac a 31AD(2)(a)] Gan nad yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i safonau cymhwysedd, nid oes dyletswydd o dan y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i eithrio ymgeisydd anabl rhag safonau cymhwysedd.

9.46 [a 31AB(4)] Fodd bynnag, ni ddylai'r ffaith nad yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys i safonau cymhwysedd arwain at ragdybiaeth nad oes dyletswydd ar gyrff cymwysterau cyffredinol i newid safonau cymhwysedd. Gallai'r ffordd y cymhwysir safon cymhwysedd, o dan rai amgylchiadau, fod yn wahaniaethu ar sail anabledd, ac os felly, mae'n ofynnol i gorff cymwysterau cyffredinol (ynghyd â'r rheoleiddiwr, pan fo'n gymwys) ystyried a yw safon cymhwysedd yn fodd cymesur i gyflawni nod dilys er mwyn gallu cyfiawnhau gwahaniaethu o'r fath (gweler paragraffau 9.57 ymlaen am ragor o wybodaeth am safonau cymhwysedd a chyfiawnhad). Yn ymarferol, gall hyn olygu ystyried eithrio rhag elfen os nad oes modd priodol arall ar gael. Fel arall, gall gwahaniaethu ar sail anabledd godi wrth gymhwyso safonau cymhwysedd.

Gwybodaeth am anabledd ac addasiadau rhesymol

9.47 [a 31AD(4)] Dim ond os yw'r corff cymwysterau cyffredinol yn gwybod, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod, bod y person anabl dan sylw yn ymgeisydd am gymhwyster proffesiynol neu grefft, neu y gallai fod yn ymgeisydd, y bydd y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys. Yn yr un modd, dim ond os yw'r corff yn gwybod bod gan yr unigolyn anabledd sy'n debygol o beri ei fod o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl y bydd y ddyletswydd yn gymwys.

9.48 AEr nad oes dyletswydd ar gorff cymwysterau cyffredinol i wneud addasiad rhesymol os nad yw'n meddu ar y wybodaeth angenrheidiol, tybir

ei fod yn meddu ar y wybodaeth honno o dan rai amgylchiadau.

9.49 Pan fydd gwybodaeth a ddylai wneud corff cymwysterau yn effro i'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff 9.47 ar gael iddo, neu pan fyddai ar gael iddo pe bai'n weddol effro, ni all y corff ei hanwybyddu. Felly mae'n bwysig bod pobl anabl, os dymunant fanteisio i'r eithaf ar ddarpariaethau'r Ddeddf, yn rhoi gwybod i sefydliadau addysgu a chyrff cymwysterau am eu hanabledd ac am anfanteision sylweddol sy'n debygol o godi. Po gyntaf y caiff canolfan arholi, sefydliad addysgol a/neu gorff cymwysterau cyffredinol wybod am anabledd a'i effeithiau, y mwyaf tebygol ydyw y gall wneud addasiadau effeithiol.

9.50 Nid yw'r Ddeddf yn atal person anabl rhag cadw anabledd yn gyfrinachol a pheidio â dweud wrth gorff cymwysterau cyffredinol (er y gall rhwymedigaethau eraill ei gwneud yn ofynnol i'w ddatgelu). Ond mae hyn yn debygol o olygu na fydd y corff cymwysterau cyffredinol o dan ddyletswydd i wneud addasiad rhesymol oni ellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod am anabledd yr unigolyn beth bynnag. Os bydd person anabl yn disgwyl i gorff cymwysterau wneud addasiad rhesymol, bydd angen iddo roi digon o wybodaeth iddo wneud yr addasiad hwnnw.

Beth yw effaith ymarferol y ddyletswydd ar gyrff cymwysterau cyffredinol?

9.51 Pan fo'n gymwys mewn perthynas â chyrff cymwysterau cyffredinol, mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn fwyaf tebygol o effeithio ar drefniadau mewn perthynas â sefyll profion ac arholiadau a dulliau asesu eraill, er enghraifft (gweler paragraff 9.60 hefyd). Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd, pan fydd yn codi, cynghorir cyrff i gynnal asesiad priodol o'r camau rhesymol y gellid eu cymryd mewn unrhyw achos penodol.

9.52 Pan fydd y ddyletswydd yn gymwys, mae'n rhaid i'r corff cymwysterau cyffredinol gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol i atal y ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer, neu'r nodwedd ffisegol (yn ôl y digwydd) rhag peri bod y person anabl dan sylw o dan anfantais sylweddol – ceir rhagor o wybodaeth am hyn ym Mhennod 5 hefyd.

Dywedwyd wrth fenyw â phroblem iechyd meddwl fod arholiad llafar ar gyfer cymhwyster cyffredinol perthnasol mewn Ffrangeg wedi ei drefnu am 8:30 am. Byddai amseriad yr arholiad yn peri bod y fenyw o dan anfantais sylweddol, am fod ei meddyginiaeth yn gwneud iddi deimlo'n gysglyd iawn am nifer o oriau ar ôl iddi ei chymryd yn y bore – sy'n ei hatal rhag canolbwyntio'n iawn. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn cytuno i'w chais i sefyll yr arholiad yn ddiweddarach yn ystod y dydd. Gall hwn fod yn addasiad rhesymol i'r corff cymwysterau ei wneud.

Mae dyn sy'n darllen gwefusau oherwydd nam ar ei glyw yn mynd i sefyll prawf ymarferol fel rhan o'i gwrs lefel A mewn cemeg. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn cyfarwyddo canolfan arholi i drefnu i aelod o staff weithio gyda'r ymgeisydd yn unigol mewn ystafell ar wahân er mwyn rhoi'r cyfarwyddiadau yn ystod yr asesiad. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol iddo ei wneud.

Mae cymhwyster cyffredinol perthnasol mewn crefft, dylunio a thechnoleg yn cynnwys prawf hir mewn saernïaeth sef arholiad ymarferol 3 awr. Mae menyw ag arthritis am sefyll y prawf hwn mewn dwy sesiwn o dair awr a hanner ar ddau ddiwrnod olynol oherwydd yr anfantais a berir iddi os bydd yn rhaid ei sefyll dros dair awr. Mae'r corff cymwysterau sy'n dyfarnu'r cymhwyster yn caniatáu iddi sefyll y prawf yn y modd hwn. Gallai hwn fod yn addasiad rhesymol.

Mae ymgeisydd â nam ar y golwg yn sefyll arholiad ysgrifenedig sy'n ceisio ennill cymhwyster cyffredinol perthnasol. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol hyn sy'n rhoi'r cymhwyster hwn yn caniatáu i'r ymgeisydd hwn sefyll yr arholiad gan ddefnyddio meddalwedd gyfrifiadurol wedi'i haddasu'n arbennig, gydag amser ychwanegol i sefyll yr arholiad os oes angen, neu'n caniatáu i'r ymgeisydd ddefnyddio darllenwr ac ysgrifennwr. Yn amodol ar ofynion unigol yr ymgeisydd hwn â nam ar y golwg, gall unrhyw un o'r mesurau hyn fod yn addasiad rhesymol.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn caniatáu i ymgeisydd â phroblemau symudedd sy'n defnyddio cadair olwyn sefyll asesiad Sgiliau Allweddol gartref gyda goruchwyliwr neu arholwr cymeradwy o dan amgylchiadau lle na fyddai lleoliad yr asesiad yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn ac nad oes lleoliadau amgen addas ar gael. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol i'r corff cymwysterau ei wneud.

Pa gamau y dylai cyrff cymwysterau cyffredinol eu cymryd ymlaen llaw?

9.53 Fel y soniwyd ym Mhennod 2, mae angen hefyd i gyrff cymwysterau sefydlu systemau effeithiol ar gyfer gweithio gyda sefydliadau addysgol a chyrff eraill y maent yn gweithio gyda hwy er mwyn sicrhau bod cyrff cymwysterau cyffredinol yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud addasiadau ar gyfer myfyrwyr anabl sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau eraill er mwyn cael cymhwyster cyffredinol perthnasol. Er enghraifft, gallai system o'r fath gynnwys y camau canlynol:

- Yn unol â chanllawiau addas gan y corff cymwysterau cyffredinol, mae sefydliadau addysgol yn gofyn i ymgeiswyr am gymwysterau cyffredinol perthnasol am wybodaeth ymhell cyn yr arholiad neu'r asesiad dan sylw a oes ganddynt anableddau ac a oes angen addasiadau rhesymol mewn perthynas ag arholiadau, profion neu asesiadau.
- Ar ôl casglu gwybodaeth o'r fath a chael caniatâd pob unigolyn i'w datgelu i'r corff cymwysterau cyffredinol (gan esbonio i unigolion pam bod angen ei datgelu), yna mae'r sefydliad addysgol yn ei throsglwyddo'n ddi-oed i'r corff cymwysterau cyffredinol.
- Er mwyn ymdrin â'r materion hyn yn effeithlon ac yn effeithiol, gallai'r corff cymwysterau cyffredinol roi un enw cyswllt yn ei sefydliad ar gyfer canolfannau arholi/sefydliadau addysgol neu ymgeiswyr anabl fel y bo'n briodol, ar gyfer myfyrwyr a disgyblion unigol y gallai fod angen iddynt drafod eu gofynion penodol ymhellach yn uniongyrchol â'r corff cymwysterau cyffredinol.
- Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn defnyddio'r wybodaeth lawn sy'n dod i law i ystyried y camau y gall eu cymryd a rhesymoldeb pob cam. Yna gall benderfynu pa addasiadau rhesymol y dylid eu gwneud ac, wedyn, hysbysu sefydliadau addysg am yr addasiadau y gall eu caniatáu a sut y caiff addasiadau o'r fath eu gweithredu'n effeithiol.

Mae corff sy'n rhoi cymwysterau cyffredinol lefel A yn gofyn i goleg am wybodaeth am fyfyrwyr y gallai fod angen addasiadau rhesymol ar eu cyfer. Mae'r coleg yn gofyn i'w myfyrwyr am y wybodaeth hon. Mae myfyriwr â pharlys yr ymennydd yn cael anhawster ysgrifennu, ac felly mae'n gofyn am ganiatâd i ddefnyddio cyfrifiadur wrth sefyll yr arholiadau. Mae'r coleg yn trosglwyddo'r cais hwn i'r corff cymwysterau cyffredinol, sy'n rhoi caniatâd i'r addasiad hwn ac mae'r coleg yn sicrhau y gall ddarparu cyfleusterau priodol iddo sefyll yr arholiadau. Mae'r rhain yn debygol o fod yn addasiadau rhesymol i'r corff cymwysterau cyffredinol eu gwneud.

9.54 Mae sefydliadau addysgol neu gyrff eraill yn aml yn darparu addysg, hyfforddiant neu wasanaethau eraill (megis cyfleusterau ar gyfer sefyll arholiadau neu asesiadau) sy'n arwain at gymhwyster cyffredinol perthnasol, er nad ydynt hwy eu hunain yn rhoi'r cyfleuster. Mae'n debygol y bydd gan sefydliadau neu gyrff o'r fath ddyletswyddau ar wahân o dan Ran 3 neu Ran 4 mewn perthynas â'r addysg, yr hyfforddiant neu'r gwasanaethau eraill a ddarparant. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Ddeddf, cynghorir sefydliadau neu gyrff o'r fath hysbysu cyrff cymwysterau cyffredinol ar gam cynnar ynglŷn ag anabledd ymgeisydd a'i oblygiadau perthnasol – ar yr amod y ceir caniatâd yr ymgeisydd yn gyntaf, wrth gwrs.

9.55 Yn ymarferol, dim ond os yw'r sefydliad neu'r corff addysgol a'r corff cymwysterau cyffredinol dan sylw yn cydweithio i sicrhau canlyniad priodol y caiff anghenion person anabl sy'n sefyll arholiad, prawf neu asesiad eu diwallu'n llawn.

Mae dyn rhannol ddall yn gofyn am bapur prawf mewn print bras a lamp ddesg. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn darparu papur mewn print bras ac mae'r coleg lle mae'r dyn yn sefyll y prawf yn sicrhau ei fod yn darparu lamp ddesg.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn rhoi canllaw ysgrifenedig i ysgolion a cholegau ynglŷn â'r addasiadau i arholiadau ac asesiadau y gall eu hawdurdodi. Yn y canllaw hwn, mae'n egluro y caiff ceisiadau am addasiadau rhesymol eu hystyried ar sail unigol, yn ôl anghenion yr ymgeisydd. Hefyd, mae'n nodi bod modd ceisio rhagor o gyngor gan ei linell ymholiadau benodedig ac mae'n argymell bod ysgolion a cholegau yn penodi person â hyfforddiant priodol i fod yn ddolen gyswllt rhwng yr ymgeisydd a'r corff cymwysterau cyffredinol o ran addasiadau.s.

9.56 Er bod gofyniad ar ymgeiswyr yn gyffredinol i gyfathrebu'n uniongyrchol â chanolfannau arholi yn hytrach nag â chyrff cymwysterau cyffredinol (yn enwedig o ran addasiadau rhesymol), weithiau efallai y bydd angen i ymgeiswyr a chyrff cymwysterau cyffredinol gyfathrebu â'i gilydd yn uniongyrchol, er enghraifft, yn enwedig o ran heriau ymgeiswyr i benderfyniadau a wnaed gan gyrff cymwysterau cyffredinol, a cheisiadau gan ymgeiswyr i gyrff o'r fath ddiwygio safonau cymhwysedd gwahaniaethol. Dylai cyrff cymwysterau cyffredinol sicrhau bod modd i ymgeiswyr anabl gyfleu eu hanawsterau, eu pryderon a'u gofynion yn hyn o beth yn effeithiol drwy gynnig a hysbysebu enw cyswllt priodol.

Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am safonau cymhwysedd?

Beth yw safon cymhwysedd?

9.57 **[a 31AB(9)]** Dywed y Ddeddf fod safon cymhwysedd yn safon academaidd, yn safon feddygol neu'n safon arall a gymhwysir gan neu ar ran corff cymwysterau cyffredinol er mwyn penderfynu a oes rhywun yn meddu ar lefel benodol o gymhwysedd neu allu.

9.58 Mae cyrff cymwysterau cyffredinol yn debygol o osod gwahanol ofynion ac amodau wrth roi cymhwyster cyffredinol perthnasol.

9.59 Fodd bynnag, dim ond os mai diben unrhyw ofyniad neu amod o'r fath yw dangos lefel benodol o gymhwysedd neu allu y bydd yn gyfystyr â safon cymhwysedd. Mae gofyniad bod rhywun yn meddu ar lefel benodol o wybodaeth am bwnc, yn amlwg, yn safon cymhwysedd ar gyfer cymwysterau cyffredinol perthnasol.

9.60 Ar y llaw arall, ni fydd amod y gall rhywun, er enghraifft, wneud rhywbeth o fewn cyfnod penodol yn

safon cymhwysedd os nad yw'n pennu lefel benodol o gymhwysedd neu allu. Isod ceir enghreifftiau o ofynion sydd felly yn annhebygol o fod yn gyfystyr â safonau cymhwysedd ac felly mae'n debygol o ddod o dan y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol:

- gofyniad bod yn rhaid i ymgeisydd fod yn bresennol mewn arholiad mewn lleoliad penodol
- gofyniad bod ymgeisydd yn dilyn cwrs dros gyfnod penodol
- gofyniad bod ymgeisydd yn dilyn cwrs llawn amser ac nid rhan amser.
- gofyniad bod ymgeisydd mewn arholiad ysgrifenedig yn 'ysgrifennu'n daclus'
- gofyniad i glywed geiriau ar lafar
- gofyniad i ddarllen testun.

9.61 O ran cymwysterau cyffredinol perthnasol, fel arfer mae gwahaniaeth rhwng safon cymhwysedd a'r broses o bennu a gyrhaeddwyd y safon. Er enghraifft, drwy lwyddiant mewn arholiad academaidd y rhoddir llawer o gymwysterau cyffredinol perthnasol. Efallai na fydd yr arholiad ei hun yn cynnwys safon cymhwysedd – am nad yw'r broses fecanyddol o sefyll yr arholiad yn debygol o fod yn berthnasol i'r broses o bennu cymhwysedd neu allu perthnasol, yn enwedig o ran cymwysterau cyffredinol perthnasol.

Disgwylir i ymgeiswyr am gymhwyster TGAU mewn Saesneg ddangos lefel benodol o wybodaeth a dealltwriaeth o'r iaith yn gyffredinol. Nid yw darllen testun Saesneg ysgrifenedig yn dangos y lefel y wybodaeth a dealltwriaeth sydd ei hangen i gael y cymhwyster. Fel y cyfryw, nid yw'r gofyniad i ddarllen testun Saesneg ar bapur, ynddo'i hun, yn gyfystyr â chymhwyso safon cymhwysedd. Felly, mae'r gallu i ddarllen testun o'r fath yn debygol o ddod o dan y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.

9.62 Mewn nifer fach o amgylchiadau, mae'r broses o asesu a gyrhaeddwyd safon cymhwysedd ar gyfer cymwysterau cyffredinol perthnasol yn rhan o'r safon ei hun (fel yr esboniwyd eisoes ym mharagraff 9.35). Gall y gallu i ymgymryd â thasg neu weithgarwch penodol fod yn safon cymhwysedd pan fydd rhoi cymhwyster cyffredinol perthnasol o reidrwydd yn amodol ar feddu ar sgil neu allu ymarferol y mae'n rhaid ei ddangos drwy gwblhau prawf ymarferol. Felly, gall y gallu i sefyll prawf fod yn gyfystyr â safon cymhwysedd ynddo'i hun.

Beth yw arwyddocâd y gwahaniaeth hwn?

9.63 Mae rheolau arbennig yn gymwys mewn perthynas â chymhwyso safon cymhwysedd i berson anabl gan neu ar ran corff cymwysterau cyffredinol. Effaith y Ddeddf yw:

- nad oes dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â chymhwyso safon cymhwysedd,
- o dan yr amgylchiadau cyfyngedig lle y gellir cyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol wrth gymhwyso safon o'r fath, yr asesir y cyfiawnhad drwy gyfeirio at brawf statudol arbennig (gweler paragraff 9.68).

9.64 Mae'n dilyn ei bod yn bwysig iawn cadarnhau a yw darpariaeth, maen prawf neu arfer penodol corff cymhwysterau cyffredinol yn safon cymhwysedd ac, os felly, ai'r ffordd y cymhwysir y safon honno at y person anabl dan sylw yw'r mater dan sylw. Er nad oes dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â chymhwyso safon cymhwysedd, mae dyletswydd o'r fath yn debygol o fod yn gymwys mewn perthynas â'r broses o asesu cymhwysedd.

Mae menyw â Syndrom Blinder Cronig yn astudio ar gyfer cymhwyster cyffredinol perthnasol. Mae wedi colli rhan gyfan o'i chwrs oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â'i hanabledd. Fodd bynnag, gall y corff

cymwysterau cyffredinol ganiatáu amser ychwanegol rhesymol i'r person anabl gwblhau'r cwrs dros gyfnod hwy, ac felly y gwna, er mwyn hwyluso cwblhau'r rhan o'r cwrs a gollwyd. Nid yw caniatáu mwy o amser i gwblhau'r cwrs yn effeithio ar safon cymhwysedd a gall hyn, felly, fod yn addasiad rhesymol.

9.65 Fel y nodwyd ym mharagraffau 9.53 i 9.56, cynghorir cyrff cymwysterau cyffredinol a, lle y bo'n berthnasol, sefydliadau addysgol i sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth i asesu eu cyfrifoldebau i bobl anabl. Er nad oes gan gorff cymwysterau cyffredinol ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i safon cymhwysedd, mae angen iddo gael digon o wybodaeth ynglŷn ag anabledd rhywun i benderfynu a ddylid gwneud addasiad rhesymol i ryw agwedd arall ar y broses o roi'r cymhwyster cyffredinol perthnasol dan sylw.

9.66 Felly, mae'n **rhaid** i gorff cymwysterau cyffredinol ganfod a yw anabledd rhywun yn effeithio ar safon cymhwysedd yn y lle cyntaf. Drwy wneud hyn gall y corff gadarnhau beth gall ei wneud i helpu person anabl i ddangos y gall gyrraedd y safon cymhwysedd ofynnol drwy wneud addasiadau rhesymol i ddarpariaethau, meini prawf ac arferion (heblaw safonau cymhwysedd) sy'n peri bod ymgeisydd anabl o dan anfantais sylweddol o'i gymharu ag ymgeiswyr nad ydynt yn anabl.

Pryd y gellir cyfiawnhau triniaeth lai ffafriol o ran safonau cymhwysedd?

9.67 Ni ellir byth gyfiawnhau trin person anabl yn llai ffafriol os yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol o dan Ran 2 neu Bennod 2A o Ran 4 (gweler paragraff 9.21) – er enghraifft, pan fydd y driniaeth yn seiliedig ar ragdybiaethau cyffredinol, neu ystrydebol, ynglŷn â'r anabledd neu'i effeithiau. Mae'r egwyddor hon yn gymwys i'r ffordd y caiff person anabl ei drin wrth i safon cymhwysedd gael ei chymhwyso yn yr un ffordd ag y mae'n gymwys i'r ffordd y caiff ei drin mewn ffyrdd eraill.

9.68 **[a 31AB(4)]** I'r graddau nad yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongrychol, dywed y Ddeddf, pan fo'r ffordd y cymhwysir safon cymhwysedd at berson anabl yn gyfystyr â'i drin yn llai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd, y gellir cyfiawnhau'r driniaeth os, ond dim ond os gall y corff cymwysterau cyffredinol ddangos y canlynol:

- mae (neu y byddai) y safon cymhwysedd yn cael ei chymhwyso yn yr un modd at bobl nad oes ganddynt ei anabledd penodol
- mae ei chymhwyso yn fodd cymesur i gyflawni nod dilys.

Mae corff cymwysterau cyffredinol yn gwrthod rhoi cymhwyster TGAU mewn Addysg Gorfforol i ymgeisydd sy'n methu prawf ffitrwydd corfforol yn ystod y cwrs hwn. Nid yw hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol am y byddai unrhyw un, boed yn anabl ai peidio, a fethodd y prawf ffitrwydd yn cael ei drin yn yr un ffordd. Fodd bynnag, gall hyn fod yn driniaeth lai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd yr ymgeisydd. Gellid cyfiawnhau'r driniaeth os oedd y prawf ffitrwydd yn safon cymhwysedd a gymhwysid yn yr un modd at bob ymgeisydd a bod y prawf ffitrwydd yn fodd cymesur i ddangos bod yr unigolyn yn ddigon heini i gyflawni nodau dilys y cymhwyster cyffredinol perthnasol. Fel arall, pan na fydd y safon ffitrwydd yn safon cymhwysedd, gellid cyfiawnhau'r driniaeth am reswm perthnasol a sylweddol.

Yn y sefyllfa uchod nid oedd y corff cymwysterau cyffredinol, na'r rheoleiddiwr lle y bo'n berthnasol, wedi adolygu'r safonau ffitrwydd corfforol i weld a ellid eu cyfiawnhau. Pe baent wedi gwneud hynny, byddai'r corff wedi canfod bod y safon ffitrwydd ofynnol yn llawer uwch na'r hyn a oedd ei angen i ddangos gallu'r ymgeisydd mewn addysg gorfforol.

Felly, mae'n annhebygol y gallai'r corff cymwysterau cyffredinol a'r rheoleiddiwr gyfiawnhau'r safon cymhwysedd hon.

9.69 Effaith y darpariaethau hyn yw, o dan yr amgylchiadau cyfyngedig, y gellir cyfiawnhau'n wrthrychol driniaeth lai ffafriol sydd ar sail anabledd ac sy'n codi o gymhwyso safon cymhwysedd. Nid yw cyfiawnhad yn dibynnu ar asesiad unigol o amgylchiadau'r person anabl, ond yn hytrach mae'n dibynnu ar asesiad o ddiben ac effaith y safon cymhwysedd ei hun.

9.70 Er mwyn gallu cyfiawnhau safon cymhwysedd yn wrthrychol, byddai'n rhaid i'r corff cymwysterau cyffredinol ddangos bod y safon yn briodol ac yn angenrheidiol, a'i bod yn fodd cymesur i gyflawni nod dilys. Er mwyn dibynnu ar yr amddiffyniad hwn, bydd yn rhaid i gorff cymwysterau cyffredinol ddangos bod cymhwyso'r safon ar y ffurf a ddewisodd i wneud hynny, neu fel sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr, yn ddigon pwysig i fod yn drech na hawl rhywun i beidio â bod yn destun gwahaniaethu. Er mwyn dangos hyn, disgwylir y bydd cyrff cymwysterau cyffredinol a, lle y bo'n berthnasol, y rheoleiddiwr wedi:

- dangos, drwy dystiolaeth argyhoeddiadol a darbwyllol, fod angen dybryd sy'n cefnogi'r nod y mae'r driniaeth wedi'i hanelu at ei gyflawni ac felly'n gyfystyr â nod 'dilys'; a
- bod perthynas achosol rhwng y ffordd y cymhwysir y safon ar y ffurf a ddewiswyd a chyflawni'r nod hwnnw;
- wedi deall effeithiau andwyol safonau cymhwysedd ar bobl anabl yn gyffredinol ac effaith andwyol benodol y safonau hyn ar grwpiau penodol o bobl anabl; a
- ei fod wedi ystyried yn drylwyr ffyrdd o gyrraedd safonau sy'n cael effaith lai andwyol ar bobl anabl; ac
- na fu modd arall i gyflawni'r nod dilys a fyddai'n cael effaith lai andwyol ar hawliau pobl anabl.

9.71 Mae'r rheolau arbennig hyn ynglŷn â chyfiawnhad ond yn berthnasol i gymhwyso safon cymhwysedd mewn gwirionedd; nid ydynt yn gymwys i beidio â chymhwyso safon o'r fath mewn unrhyw achos penodol. Os bydd corff cymwysterau cyffredinol yn cymhwyso safon cymhwysedd yn anghywir, yna nid yw, mewn gwirionedd, yn cymhwyso'r safon ac nid yw'r rheolau hyn yn weithredol. Yn hytrach, mae'r prawf mwy arferol o gyfiawnhad yn weithredol sef rheswm perthnasol a sylweddol (gan ragdybio, wrth gwrs, nad yw'r ffordd y cymhwyswyd safon yn anghywir yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, ond y byddai'n driniaeth lai ffafriol ar sail anabledd).

9.72 Gall cymhwyso safon cymhwysedd ynglŷn â gofyniad meddygol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, arwain at drin person anabl yn llai ffafriol. Mae gofynion meddygol sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ystrydebol ynglŷn â goblygiadau iechyd a diogelwch anabledd yn gyffredinol, neu fathau penodol o anabledd, yn debygol o fod yn uniongyrchol wahaniaethol – felly bydd trin person anabl yn llai ffafriol o ganlyniad i gymhwyso gofyniad o'r fath yn anghyfreithlon.

Mae rhywun â nam corfforol sy'n defnyddio cadair olwyn am astudio ar gyfer cymhwyster cyffredinol perthnasol yn y celfyddydau perfformio. Mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn gwrthod derbyn cofnod asesu'r unigolyn oherwydd ei safonau meddygol. Gwna hynny heb ystyried amgylchiadau penodol y person anabl, heb ymgynghori â'r ganolfan arholi, na gofyn iddi wneud asesiad, a fyddai'n cynnwys asesiad o risgiau i iechyd a diogelwch. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol.

9.73 Serch hynny, gall pryderon gwirioneddol ynglŷn ag iechyd a diogelwch fod yn berthnasol i'r cyfiawnhad o safon cymhwysedd ynglŷn â gofyniad meddygol. Fodd bynnag, mae'n llawer llai tebygol bod safonau cymhwysedd sy'n seiliedig

ar ofynion meddygol yn gymwys mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol perthnasol o'u cymharu, er enghraifft, â chymwysterau proffesiynol a chrefft. Mae cymhwyso gofynion meddygol mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol perthnasol, yn annhebygol o fod yn safonau cymhwysedd cyfreithlon a gall y gofynion hyn fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. Gan dybio nad yw'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, dim ond os gall y corff ddangos bod (neu y byddai) y gofyniad yn gymwys yn yr un modd i bobl nad oes ganddynt yr anabledd hwnnw y gellir cyfiawnhau cymhwyso gofyniad o'r fath, o dan amgylchiadau eithriadol, at berson anabl. Byddai angen dangos hefyd bod y gofyniad yn cyflawni nod dilys ac mae'n fodd cymesur i gyflawni'r nod hwnnw. Byddai'n rhaid i'r corff cymwysterau cyffredinol roi tystiolaeth argyhoeddiadol bod y safon feddygol yn wirioneddol hanfodol i ofynion y cymhwyster cyffredinol perthnasol a'i nod ehangach.

Sut y gall cyrff cymwysterau cyffredinol osgoi gwahaniaethu mewn perthynas â safonau cymhwysedd?

9.74 Er mwyn osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon pan fydd cymhwyso safon cymhwysedd yn arwain at drin person anabl yn llai ffafriol, bydd yn rhaid i'r corff cymwysterau cyffredinol dan sylw ddangos dau beth. Yn gyntaf, bydd yn rhaid iddo ddangos nad yw'r ffordd y cymhwysir y safon yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol. Yn ail, bydd angen dangos y gellir cyfiawnhau'r safon yn wrthrychol.

9.75 Mae hyn yn fwy tebygol o fod yn bosibl pan fydd y rheoleiddiwr (rheoleiddwyr) (os yw'n berthnasol) a'r corff cymwysterau cyffredinol wedi ystyried natur ac effeithiau ei safonau cymhwysedd cyn i fater godi'n ymarferol.

9.76 **[a 49A]** Yn ogystal â'u dyletswyddau o dan Ran 4 o'r Ddeddf, dylai cyrff cymwysterau cyffredinol hefyd fod yn ymwybodol o effaith debygol y dyletswyddau cydraddoldeb i bobl anabl ar safonau cymhwysedd gwahaniaethol ar gyfer cymwysterau cyffredinol perthnasol. Er nad yw'n amlwg, ar adeg ysgrifennu'r Cod hwn, a yw'r dyletswyddau cyffredinol ynglŷn â chydraddoldeb i bobl anabl (adran 49A) yn gymwys i gyrff cymwysterau cyffredinol, argymhellir bod cyrff o'r fath yn gweithredu fel petai'r dyletswyddau hyn yn gymwys iddynt. Awgrymir hyn, yn gyntaf, er mwyn sicrhau y cyflawnir y dyletswyddau hyn os ydynt yn gymwys i gyrff cymwysterau cyffredinol mewn gwirionedd, a thrwy hynny osgoi risg o beidio â chydymffurfio a goblygiadau hynny. Yn ail, awgrymir hyn am fod y dyletswyddau cydraddoldeb i bobl anabl (yn eu cyfanrwydd o bosibl) yn gymwys i reoleiddwyr mewn gwirionedd y bydd angen iddynt, wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn yn briodol, ddirprwyo gofynion angenrheidiol y dyletswyddau hyn i gyrff cymwysterau cyffredinol. Felly, sut bynnag, os cyflawnir y dyletswyddau hyn yn briodol bydd effaith, wrth reswm, ar y ffordd y mae cyrff cymwysterau cyffredinol yn cyflawni eu swyddogaethau.

9.77 Nod yr hyn a elwir yn ddyletswydd gyffredinol ynglŷn â chydraddoldeb i bobl anabl yn y pen draw (gweler Pennod 2 am ragor o fanylion) yw sicrhau bod cydraddoldeb i bobl anabl yn dod yn rhan annatod o swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus a bod awdurdodau, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn rhoi sylw dyledus i'r angen am hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl ac osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon, ymhlith pethau eraill. Mae'r dyletswyddau hyn yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n ymwneud yn benodol ag adolygu a datblygu safonau a gofynion ar gyfer cymwysterau cyffredinol perthnasol.

9.78 Mae dyletswyddau penodol hefyd ar gyrff penodol a restrir yn y rheoliadau perthnasol ynglŷn â'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl, gan gynnwys rheoleiddwyr perthnasol (os y'u nodir).

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun cydraddoldeb i bobl anabl gael ei lunio, gan gynnwys cynllun gweithredu, ac mae'n rhaid i bobl anabl fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun. Dylai'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol gael effaith gadarnhaol ar y canlynol:

- lleihau a gwaredu safonau cymhwysedd gwahaniaethol
- ei gwneud yn haws i ddilyn y fframwaith cymwysterau cyffredinol
- cynyddu nifer y bobl anabl sy'n ennill cymwysterau cyffredinol.

9.79 Mewn perthynas â safonau cymhwysedd, bydd y dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei chasglu, yn benodol, am effaith andwyol safonau cymhwysedd ar gyfer cymwysterau cyffredinol ar bobl anabl a/neu grwpiau penodol o bobl anabl.

9.80 Ceir rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau cydraddoldeb i bobl anabl mewn cyhoeddiadau a restrir yn Atodiad B o'r Cod hwn.

9.81 O ganlyniad, wrth ystyried y gofynion sydd arnynt o dan Ran 4 ac effaith y dyletswyddau cydraddoldeb i bobl anabl sydd arnynt, cynghorir cyrff cymwysterau cyffredinol – ynghyd â'r rheoleiddwyr perthnasol (lle y bo'n briodol) – i ymgymryd â phroses o nodi, gwerthuso a diwygio safonau cymhwysedd gwahaniaethol.

9.82 Tybir bod y camau canlynol (nad ydynt yn hollgynhwysfawr) yn gamau angenrheidiol y dylai cyrff cymwysterau cyffredinol fod eisoes yn eu cymryd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf mewn perthynas â safonau cymhwysedd:

- nodi diben penodol pob safon cymhwysedd a gymhwysir, ac ystyried sut y mae'n cyflawni'r diben hwnnw
- ystyried effaith bosibl pob safon cymhwysedd ar bobl anabl ac, yn achos safon a allai gael effaith andwyol, gofyn a yw'n hollol angenrheidiol cymhwyso'r safon
- adolygu diben ac effaith pob safon cymhwysedd yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid – megis datblygiadau ym maes technoleg, neu well dealltwriaeth o'r anawsterau a wynebir gan bobl anabl a'u hanghenion
- ystyried a ellid cyflawni'r diben y cymhwysir unrhyw safon cymhwysedd mewn perthynas ag ef mewn ffordd nad yw'n cael effaith andwyol ar bobl anabl
- dogfennu'r ffordd yr aed i'r afael â'r materion hyn, y casgliadau y daethpwyd iddynt, a'r rhesymau dros y casgliadau hynny.

10. Gwneud addasiadau rhesymol i safleoedd – ystyriaethau cyfreithiol

Cyflwyniad

10.1 Ym Mhennod 5 esboniwyd mai un o'r sefyllfaoedd pan fydd dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn codi yw pan fydd un o nodweddion ffisegol safle sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn peri bod person anabl o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. O dan amgylchiadau o'r fath mae'n rhaid i'r sefydliad neu'r corff ystyried a ellir cymryd unrhyw gamau rhesymol i oresgyn yr anhawster hwnnw. Gall gwneud addasiadau i safle fod yn gam rhesymol i'w gymryd. Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â materion ynglŷn â sut y mae prydlesi, rheoliadau adeiladu a gofynion statudol eraill yn effeithio ar y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i safle.

10.2 Mae'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y bennod hon yn ymwneud yn bennaf â'r angen i gael caniatâd i wneud addasiadau rhesymol pan fydd safle sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol o dan brydles neu rwymedigaeth gyfrwymol arall. Fodd bynnag, dylai sefydliad a chyrff o'r fath gofio bod ganddynt ddyletswydd i ystyried cymryd camau eraill i oresgyn yr anfantais i'r person anabl a berir gan y nodwedd hyd yn oed pan na roddir caniatâd i newid nodwedd ffisegol.

Beth am yr angen i gael caniatâd statudol ar gyfer rhai newidiadau i adeilad?

10.3 **[a 59]** Efallai y bydd yn rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol gael caniatâd statudol cyn gwneud addasiadau sy'n golygu newidiadau i safle. Mae caniatadau o'r fath yn cynnwys caniatâd cynllunio, cymeradwyaeth o dan reoliadau adeiladu neu warant adeiladu yn yr Alban, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd heneb gofrestredig a chymeradwyaeth o dan reoliadau tân. Nid yw'r Ddeddf yn drech na'r angen i gael caniatadau o'r fath.

10.4 Dylai sefydliadau a chyrff gynllunio ar gyfer yr angen i gael caniatâd am addasiad penodol a rhagweld yr angen hwnnw. Efallai y bydd yn cymryd amser i gael caniatâd o'r fath, ond gellid bod yn rhesymol gwneud addasiad interim neu addasiad arall – un nad oes angen caniatâd ar ei gyfer – yn y cyfamser.

Mae gan safle sefydliad crefft risiau yn arwain at y brif fynedfa. Mae gan y safle hwn gyfleusterau i aelodau, megis ystafell gynadledda a llyfrgell. Nid yw'r sefydliad crefft yn ymwybodol o unrhyw aelodau sydd â phroblemau symudedd ac nid yw'n gwneud dim byd i sicrhau bod ei safle yn fwy hygyrch. Pan fydd aelod newydd yn hysbysu'r sefydliad ei bod yn cerdded gyda baglau a'i bod am ddefnyddio'r safle, mae'r sefydliad yn ceisio cael caniatâd statudol i osod ramp gyda chanllaw. Mae'n cymryd sawl mis i gael caniatâd o'r fath. Am na all wneud yr addasiad hwn mewn pryd, mae'n penderfynu gwneud addasiad dros dro – trefnu bod mynedfa ochr sy'n bodoli eisoes, heb risiau, ar gael at ddefnydd yr aelod anabl. Pe bai'r sefydliad crefft wedi rhagweld bod yr angen hwn yn debygol iawn o godi (drwy gynnal archwiliad o fynediad, er enghraifft), gallai fod wedi gwneud yr addasiad hwn ynghynt.

10.5 Pan wrthodwyd rhoi caniatâd, mae'n debygol y bydd modd apelio. Mae'n dibynnu ar amgylchiadau'r achos p'un a fydd y ddyletswydd i gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol yn cynnwys cyflwyno apêl ai peidio.

Rheoliadau Adeiladu a chynllun adeiladu

10.6 **[OS 2000/2531]** Mae'n rhaid i gynllun ac adeiladwaith adeilad newydd neu newid mawr i adeilad sy'n bodoli eisoes, gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu. O ran adeiladau yng Nghymru a Lloegr, bwriedir i Ran M o'r Rheoliadau Adeiladu (mynediad at adeiladau a'u defnydd) sicrhau y gwneir darpariaeth resymol i bobl gael mynediad at adeiladau a'u defnyddio. Mae darpariaeth debyg yn gymwys yn yr Alban o dan y Safonau Technegol ar gyfer cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Adeiladu (yr Alban) 1990 ac, o fis Mai 2005, o dan Reoliadau Adeiladu (yr Alban) 2004 a safonau a chanllawiau swyddogaethol perthnasol yn y Llawlyfr Technegol cysylltiedig.

10.7 Serch hynny, nid yw'r ffaith bod cynllun neu adeiladwaith adeilad (neu nodwedd ffisegol adeilad) sy'n safle i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn bodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu yn lleihau ei ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â nodweddion ffisegol yr adeilad. Yn benodol, dylid nodi nad yw'r eithriad rhannol rhag y ddyletswydd i symud neu newid nodweddion ffisegol sy'n gymwys i ddarparwyr gwasanaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf yn gymwys i sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau o dan Ran 2 o'r Ddeddf na chyrff cymwysterau cyffredinol o dan Ran 4 o'r Ddeddf.

10.8 Dim ond safon sylfaenol o hygyrchedd, na fwriedir iddi ymdrin ag anghenion penodol pobl anabl unigol a ddarperir yn safonau adeiladu Rheoliadau Adeiladu. Felly mae'n arfer da bod sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn cynnal asesiad o anghenion mynediad pob person anabl y mae'n ymwneud ag ef, ac yn ystyried pa newidiadau y gall eu gwneud i nodweddion ei adeilad er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Mae hefyd yn arfer da rhagweld anghenion pobl anabl wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu.

10.9 Wrth asesu gofynion mynediad pobl anabl, mae'n debygol o fod yn ddefnyddiol cyfeirio at Safon Brydeinig 8300:2001, **Design of buildings and their approaches to meet the needs of disabled people – Code of Practice**. Yn wir, mae'n annhebygol y bydd yn rhesymol bod yn rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol wneud addasiad i nodwedd ffisegol ei adeilad os yw cynllun ac adeiladwaith nodwedd ffisegol yr adeilad yn unol â BS8300. Ceir rhagor o wybodaeth am BS8300 yn Atodiad B.

10.10 Hefyd, mae'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Adeiladu (a elwir yn 'Ddogfen M Gymeradwy"), er eu bod yn llai cynhwysfawr na BS8300, yn nodi nifer o 'ddarpariaethau' fel awgrymiadau ar gyfer bodloni gofynion y Rheoliadau. Mae'n annhebygol y bydd yn rhesymol bod yn rhaid i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol wneud addasiad i nodwedd ffisegol ei adeilad os yw'r nodwedd honno yn unol â darpariaethau perthnasol y fersiwn diweddaraf o Ddogfen M Gymeradwy.

Beth os bydd rhwymedigaeth gyfrwymol ac eithrio prydles yn atal adeilad rhag cael ei newid?

10.11 **[a 18B(3) ac Atod 4, Rhan 4, para 12]** Efallai y bydd sefydliad crefft neu gorff cymwysterau yn rhwym wrth amodau cytundeb neu rwymedigaeth gyfreithiol arall (er enghraifft, morgais, arwystl neu gyfamod cyfyngu neu, yn yr Alban, bridiant tir) na ellir newid y safle heb ganiatâd rhywun arall o dan gytundeb neu rwymedigaeth o'r fath. O dan yr amgylchiadau hyn, mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn darparu ei bod bob amser yn rhesymol bod yn rhaid i'r sefydliad neu'r corff geisio caniatâd,

ond nad yw byth yn rhesymol bod yn rhaid iddo wneud newid heb gael y caniatâd hwnnw. O dan Bennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf, efallai y bydd angen hefyd i gyrff cymwysterau cyffredinol gael caniatâd yn unol â rhwymedigaeth gyfrwymol ac nid yw'r Ddeddf yn drech na'r angen i gael caniatâd o'r fath.

Beth sy'n digwydd os dywed prydles na ellir gwneud newidiadau penodol i safle?

10.12 **[a 18A(2) ac a 31ADB(2)]** Mae darpariaethau arbennig yn gymwys pan fydd safle sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol o dan brydles, y mae ei hamodau yn ei atal rhag gwneud newid i'r safle. O dan yr amgylchiadau hyn, os yw'r newid yn un y mae'r sefydliad neu'r corff yn bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol, mae'r Ddeddf yn drech na thelerau'r brydles fel y bydd hawl ganddo i wneud y newid gyda chaniatâd ei landlord ("y prydleswr"). Mewn achos o'r fath mae'n rhaid i'r sefydliad neu'r corff yn gyntaf ysgrifennu at y prydleswr yn ceisio caniatâd i wneud y newid. Ni all y prydleswr atal caniatâd yn afresymol ond gall osod amodau rhesymol ar y caniatâd.

10.13 **[Atod 4, Rhan I, para 1 ac Atod 4, Rhan 4, para 15]** Os bydd sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol yn methu â gwneud cais ysgrifenedig i'r prydleswr am ganiatâd i wneud y newid, ni all ddibynnu ar y ffaith bod un o delerau'r brydles yn ei atal rhag gwneud newidiadau i'r safle i amddiffyn ei fethiant i wneud addasiad. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid anwybyddu unrhyw beth yn y brydles sy'n atal yr addasiad hwnnw rhag cael ei wneud wrth benderfynu a oedd yn rhesymol i'r sefydliad neu'r corff wneud yr addasiad.

Beth sy'n digwydd os bydd gan brydleswr 'uwch' brydleswr?

10.14 Efallai y bydd y prydleswr yn dal prydles y mae ei hamodau yn ei atal rhag rhoi caniatâd i wneud yr addasiad heb ganiatâd ei landlord ('yr uwch brydleswr'). O dan yr amgylchiadau hyn mae effaith yr uwch brydles wedi'i haddasu fel y bydd yn ofynnol i brydlesai'r brydles honno wneud cais ysgrifenedig i'w brydleswr (yr 'uwch brydleswr' yn y cyd-destun hwn) os yw am ganiatáu'r addasiad. Fel yn achos prydleswr sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol, ni ddylai'r uwch brydleswr atal caniatâd o'r fath yn afresymol ond gall atodi amodau rhesymol i'r caniatâd.

10.15 Pan fydd uwch brydleswr yn cael cais gan ei brydlesai, mae'r darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraffau 10.16 i 10.30 yn gymwys fel petai'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol yn brydlesai iddo.

Sut y mae trefniadau ar gyfer cael caniatâd yn gweithio?

10.16 **[OS 2004/153 ac OS/2007/2405]** Mae Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf ynglŷn â sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol yn rheoli'r weithdrefn ar gyfer cael caniatâd. Cyfeirir at y Rheoliadau hyn (Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Maes Cyflogaeth) (Safleoedd Lesddaliadol) 2004 a Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (Diwygio etc) (Cyrff Cymwysterau Cyffredinol) (Newid Safleoedd a Gorfodi) 2007 fel arfer yn y Bennod hon fel 'Rheoliadau Safleoedd Lesddaliadol'. Er eglurder, mae cyfeiriadau isod at ddarpariaethau penodol yn y rheoliadau hyn yn cyfeirio at reoliadau 2004 ac yna reoliadau 2007.

10.17 **[Rheoliad 4 a Rheoliad 9]** Mewn perthynas â sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau, dywed y Rheoliadau

Safleoedd Lesddaliadol fod y prydleswr, ar ôl i'r cais gael ei wneud, yn cael 21 diwrnod, o ddechrau'r diwrnod y mae'r cais yn dod i law, i ymateb yn ysgrifenedig i'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau (neu'r sawl a wnaeth y cais ar ei ran). Os bydd yn methu â gwneud hynny tybir ei fod wedi atal ei ganiatâd i'r newid yn afresymol. Fodd bynnag, pan fo'n rhesymol iddo wneud hynny, caniateir i'r prydleswr gymryd mwy nag 21 diwrnod i ymateb i'r cais. O dan y dyletswyddau gwahanol sy'n gymwys i gyrff cymwysterau cyffredinol, mae prydleswr yn cael 42 diwrnod i ymateb i gais am ganiatâd y prydleswr a wnaed gan gorff cymwysterau cyffredinol, gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cais yn dod i law. Fodd bynnag, mae'r prydleswr yn cael 21 diwrnod i wneud cais ysgrifenedig am unrhyw gynlluniau a manylebau y mae'n rhesymol iddo ofyn amdanynt ac nad oeddent wedi'u cynnwys yng nghais y corff cymwysterau cyffredinol.

10.18 Os yw'r prydleswr yn ymateb i gais sefydliad crefft neu gorff cymwysterau drwy ganiatáu'r cais yn amodol ar sicrhau caniatâd person arall (sy'n ofynnol o dan uwch brydles neu rwymedigaeth gyfrwymol), ond ei fod yn methu â cheisio caniatâd y person arall o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r cais ddod i law (neu unrhyw gyfnod hwy ag sy'n rhesymol), tybir hefyd ei fod wedi atal ei ganiatâd. Ar gyfer cyrff cymwysterau cyffredinol, y cyfnod perthnasol i brydleswr geisio caniatâd person arall yw 42 diwrnod, ac nid 21 diwrnod, ac nid yw'r dyletswyddau penodol sy'n gymwys i gyrff cymwysterau cyffredinol yn caniatáu ar gyfer ymestyn y cyfnod naill ai am y cyfryw gyfnod hwy ag sy'n rhesymol, nac am unrhyw gyfnod arall.

10.19 Mae'r Rheoliadau Safleoedd Lesddaliadol yn darparu y caiff prydleswr ei drin fel pe na bai wedi ceisio caniatâd person arall oni bai bod y prydleswr wedi gwneud cais yn ysgrifenedig i'r person arall yn nodi bod y deiliad wedi gofyn am ganiatâd am newid er mwyn cydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, a bod y prydleswr wedi rhoi ei ganiatâd yn amodol ar gael caniatâd y person arall.

10.20 **[Rheoliad 6 a Rheoliad 11]** Os yw'r prydleswr yn ymateb gan wrthod rhoi caniatâd am y newid, mae'n rhaid i'r sefydliad crefft, y corff cymwysterau neu'r corff cymwysterau cyffredinol hysbysu'r person anabl am hyn, ond nid oes rhwymedigaeth bellach arno i wneud y newid (ond gweler paragraff 10.2).

Pryd y mae'n afresymol i brydleswr atal caniatâd?

10.21 Bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol p'un a yw atal caniatâd yn rhesymol ai peidio. Er enghraifft, os yw addasiad penodol yn debygol o arwain at leihad parhaol sylweddol yng ngwerth budd y prydleswr yn y safle, mae'r prydleswr yn debygol o fod yn gweithredu'n rhesymol wrth atal caniatâd. Mae'r prydleswr hefyd yn debygol o fod yn gweithredu'n rhesymol os yw'n atal caniatâd am y byddai addasiad yn achosi tarfu neu anghyfleuster sylweddol i denantiaid eraill (er enghraifft, pan fydd y safle yn cynnwys sawl uned gyffiniol).

Mae addasiad penodol yn helpu i wneud adeilad cyhoeddus yn fwy hygyrch yn gyffredinol ac felly mae'n debygol o fod yn fuddiol i'r landlord. Mae'n debygol o fod yn afresymol atal caniatâd o dan yr amgylchiadau hyn.

Mae addasiad penodol yn debygol o arwain at leihad parhaol sylweddol yng ngwerth budd y landlord yn y safle. Mae'r landlord yn debygol o fod yn gweithredu'n rhesymol wrth atal caniatâd.

Byddai addasiad penodol yn achosi tarfu neu anghyfleuster sylweddol i denantiaid eraill (er enghraifft, pan fydd y safle yn cynnwys sawl uned gyffiniol). Mae'r landlord yn debygol o fod yn gweithredu'n rhesymol wrth atal caniatâd.

10.22 Byddai rheswm dibwys neu fympwyol bron yn sicr o fod yn afresymol. Ni fydd sawl addasiad rhesymol i safle yn andwyol i fuddiannau'r prydleswr ac felly byddai'n afresymol iddynt atal caniatâd fel arfer.

10.23 **[Rheoliad 5 a Rheoliad 10]** Dywed y Rheoliadau Safleoedd Lesddaliadol ei bod yn afresymol, ar yr amod i ganiatâd gael ei geisio yn y ffordd sy'n ofynnol o dan y brydles, i brydleswr atal caniatâd o dan amgylchiadau lle mae'r brydles yn dweud y caiff caniatâd ar gyfer newidiadau o'r math y ceisiwyd caniatâd ar eu cyfer ei roi.

10.24 **[Rheoliad 6]** Mae'r Rheoliadau Safleoedd Lesddaliadol sy'n ymwneud â sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau ond yn darparu'n benodol y bydd atal caniatâd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fydd rhwymedigaeth gyfrwymol sy'n gofyn am ganiatâd unrhyw un i'r newid
- mae'r prydleswr wedi cymryd camau i geisio caniatâd
- ni roddwyd caniatâd neu fe'i rhoddwyd gydag amod sy'n ei gwneud yn rhesymol i'r prydleswr atal ei ganiatâd.

Bydd hefyd yn rhesymol i brydleswr atal caniatâd lle mae'n rhwym wrth gytundeb y byddai'n rhaid iddo wneud taliad o dan y cytundeb hwnnw er mwyn rhoi'r caniatâd, ond sy'n ei atal rhag adennill y gost oddi wrth y sefydliad crefft neu'r corff cymwysterau. **[Rheoliad 11]** Nid yw'r gofyniad penodol hwn yn gymwys i gais am ganiatâd y prydleswr a wnaed gan gorff cymwysterau cyffredinol. Yn y cyd-destun penodol hwn, gall prydleswr yn rhesymol atal caniatâd pan na ŵyr, ac na allai yn rhesymol wybod, bod y newid yn un y mae'r corff cymwysterau cyffredinol yn bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.

Pa amodau a fyddai'n rhesymol i brydlesydd eu gosod wrth roi caniatâd?

10.25 Mae'r Rheoliadau Safleoedd Lesddaliadol yn gosod rhai amodau y mae'n rhesymol i brydleswr eu gwneud. Yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos efallai y bydd amodau eraill pan fyddai hefyd yn rhesymol i brydleswr ofyn i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol eu llunio. Pan fydd prydleswr yn gosod amodau eraill, gellir herio pa mor rhesymol ydynt yn ystod gweithrediadau'r tribiwnlys cyflogaeth dilynol (yn achos sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau) neu weithrediadau'r llys sirol/llys y siryf (yn achos cyrff cymwysterau cyffredinol) – gweler paragraff 10.27.

10.26 **[Rheoliad 7 a Rheoliad 12]** Mae'r amodau a nodir yn y Rheoliadau Safleoedd Lesddaliadol fel rhai y gall prydleswr yn rhesymol ofyn i sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol eu bodloni fel a ganlyn:

- mae'n cael unrhyw ganiatâd cynllunio a chaniatadau statudol eraill angenrheidiol
- mae'n cyflwyno cynlluniau a manylebau i'r prydleswr eu cymeradwyo (ar yr amod na chaiff cymeradwyaeth o'r fath ei atal yn afresymol) ac wedyn yn gwneud y gwaith yn unol â hwy
- mae'n rhoi cyfle rhesymol i'r prydleswr archwilio'r gwaith ar ôl iddo gael ei gwblhau, neu
- mae'n digolledu costau rhesymol y prydleswr mewn cysylltiad â rhoi caniatâd.

Yn achos cyrff cymwysterau cyffredinol yn unig, mae amod arall sef bod yn rhaid cael caniatâd person arall sy'n ofynnol o dan uwch brydles neu rwymedigaeth gyfrwymol. Hefyd, mewn achos lle byddai'n rhesymol i'r prydleswr atal caniatâd, gall y prydleswr roi caniatâd o'r fath ar yr amod bod y safle yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y brydles. Nid yw'r amod hwn yn gymwys i gyrff cymwysterau cyffredinol.

Beth sy'n digwydd os bydd prydleswr yn gwrthod rhoi caniatâd neu'n gosod amodau ar ganiatâd?

10.27 **[Atod 4, Rhan I, para 2 ac Atod 4, Rhan 4, para 17]** Pan fydd person anabl yn dwyn achos cyfreithiol yn erbyn sefydliad crefft, corff cymwysterau neu gorff cymwysterau cyffredinol o dan Ran 2 neu Ran 4 – a bod yr achos hwn yn cynnwys methiant i wneud addasiad i safle – gall ofyn i'r tribiwnlys cyflogaeth neu'r Llys Sirol/Llys y Siryf sy'n gwrando'r achos gynnwys y prydleswr fel parti ychwanegol yn yr achos. Gall y sefydliad neu'r corff wneud cais o'r fath hefyd. Bydd y tribiwnlys neu'r llys yn caniatáu'r cais hwnnw os caiff ei wneud cyn y dechreuir gwrando'r achos – ac eithrio pan all y llys wrthod y cais os yw'r llys yn ystyried y dylid cynnwys prydleswr arall yn yr achos. Gall wrthod y cais os caiff ei wneud ar ôl i'r tribiwnlys neu'r llys ddechrau gwrando'r hawliad. Ni chaiff y cais ei ganiatáu os caiff ei wneud ar ôl i'r tribiwnlys neu'r llys benderfynu ar yr hawliad.

Cyfeirio mater at lys

10.28 **[Atod 4, Rhan 4, para 16]** Os yw corff cymwysterau cyffredinol wedi ysgrifennu at y prydleswr yn gofyn am ganiatâd i wneud newid a bod y prydleswr wedi gwrthod rhoi caniatâd neu wedi gosod amodau ar ei ganiatâd, gall y corff cymwysterau cyffredinol neu berson anabl sydd â budd yn y newid arfaethedig gyfeirio'r mater at Lys Sirol neu, yn yr Alban, Lys y Siryf. Bydd y llys yn penderfynu a yw penderfyniad y prydleswr i wrthod rhoi caniatâd neu unrhyw un o'r amodau yn afresymol. Os yw'n penderfynu eu bod yn afresymol, gall wneud datganiad priodol neu awdurdodi'r corff cymwysterau cyffredinol i wneud y newid o dan orchymyn llys (a all osod amodau ar y corff cymwysterau cyffredinol). Pan fydd safle corff cymwysterau cyffredinol o dan is-brydles neu is-denantiaeth, mae'r darpariaethau hyn wedi'u haddasu i fod yn gymwys hefyd i landlord y corff cymwysterau cyffredinol.

10.29 Pan fydd y prydleswr yn barti yn yr achos, gall y tribiwnlys cyflogaeth neu'r Llys Sirol/Llys y Siryf benderfynu a yw'r prydleswr wedi gwrthod caniatâd i wneud y newid yn afresymol neu a yw wedi rhoi caniatâd gydag amodau afresymol. Yn y naill achos neu'r llall, gall y tribiwnlys neu'r llys:

- wneud datganiad priodol
- gwneud gorchymyn yn awdurdodi'r sefydliad neu'r corff i wneud newid penodedig
- gorchymyn i'r prydleswr dalu iawndal i'r person anabl.

10.30 Gall y tribiwnlys neu'r llys ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad neu'r corff gydymffurfio ag unrhyw amodau a nodir yn y gorchymyn. Os yw'r tribiwnlys neu'r llys yn gorchymyn i'r prydleswr dalu iawndal, ni all hefyd orchymyn i'r sefydliad na'r corff wneud hynny.

Cymharu â'r weithdrefn ar gyfer cael caniatâd o dan Ran 3

10.31 Mae darpariaethau tebyg yn rheoli'r weithdrefn i ddarparwyr gwasanaethau gael caniatâd i wneud newid y mae darparwr gwasanaeth yn bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiad rhesymol o dan Ran 3 o'r Ddeddf. Mae'r gweithdrefnau hyn yn debyg iawn i'r gweithdrefnau o dan Ran 4 o'r Ddeddf sy'n gymwys yn gyffredinol i gyrff cymwysterau cyffredinol. Fodd bynnag, dylid nodi bod y gweithdrefnau ar gyfer cael caniatâd o dan Rannau 2 a 3 yn y drefn honno yn wahanol mewn sawl ffordd benodol. Yn benodol:

- mae'r cyfnodau y mae'n rhaid i'r prydleswr ymateb i gais am ganiatâd oddi mewn iddynt yn wahanol – o dan Ran 3 (ac mewn perthynas â dyletswyddau Rhan 4

sy'n ymwneud â chyrff cymwysterau cyffredinol) y cyfnod perthnasol yw 42 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y mae'r cais yn dod i law

- O dan Ran 3 (ac mewn perthynas â dyletswyddau Rhan 4 sy'n ymwneud â chyrff cymwysterau cyffredinol) gall y prydleswr ofyn am gynlluniau a manylebau **cyn** iddo benderfynu a ddylai roi caniatâd.
- O dan Ran 3 (ac mewn perthynas â dyletswyddau Rhan 4 sy'n ymwneud â chyrff cymwysterau cyffredinol) mae'n bosibl cyfeirio mater yn annibynnol at y llys os yw'r prydleswr wedi gwrthod rhoi caniatâd neu wedi gosod amodau arno. O dan Ran 2, dim ond gan dribiwnlys cyflogaeth yn ystod cwyn o wahaniaethu y gall mater caniatâd i wneud newidiadau gael ei ystyried.

11. Darpariaethau perthnasol eraill

11.1 Mae darpariaethau ychwanegol y Ddeddf (a darpariaethau deddfwriaeth arall) yn berthnasol i ddeall y diogelwch rhag gwahaniaethu sydd gan bobl anabl mewn perthynas â sefydliadau crefft, cyrff cymwysterau a chyrff cymwysterau cyffredinol. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r darpariaethau hynny ac yn canolbwyntio'n benodol ar y ffordd y dylid datrys anghydfodau o dan y Ddeddf. Dylid nodi o'r cychwyn fod y dyletswyddau ar sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau wedi'u nodi yn Rhan 2 o'r Ddeddf (a gellir eu gorfodi drwy dribiwnlysoedd cyflogaeth), ond mae'r dyletswyddau ar gyrff cymwysterau cyffredinol wedi'u nodi ym Mhennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf (a gellir eu gorfodi drwy'r llysoedd sirol yng Nghymru a Lloegr a llysoedd y siryf yn yr Alban).

Datrys anghydfodau o dan Ran 2 o'r Ddeddf

11.2 Esboniodd Pennod 2, yn fras, nad yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau crefft na chyrff cymwysterau ddatrys anghydfodau'n fewnol, ond ei bod yn ddymunol bod gweithdrefnau cwynion yn cael eu defnyddio lle y bo modd. Pan fydd gweithdrefnau cwynion neu ddisgyblu yn bodoli, ni ddylent wahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Efallai y bydd yn rhaid i sefydliadau crefft a chyrff cymwysterau wneud addasiadau rhesymol i alluogi pobl anabl i ddefnyddio gweithdrefnau o'r fath yn effeithiol, neu i sicrhau nad ydynt yn peri bod pobl anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu ag eraill.

11.3 **[a 17A(1) ac a 55 ac Atod 3, para 3]** Dywed y Ddeddf y gall unigolyn sy'n credu bod rhywun wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn ei erbyn (sy'n cynnwys ei erlid neu fethu â gwneud addasiad rhesymol) neu sydd wedi aflonyddu arno, wneud cais i dribiwnlys cyflogaeth. Fel arfer mae'n rhaid gwneud cais o'r fath o fewn tri mis i'r dyddiad i'r digwyddiad y gwneir cwyn yn ei gylch.

11.4 **[a 17A(1A)]** Ceir un eithriad i'r uchod. Mewn achosion o wahaniaethu, neu aflonyddu honedig gan gorff cymwysterau, dywed y Ddeddf na chaiff neb wneud cais i dribiwnlys cyflogaeth os oes apêl statudol ar gael mewn perthynas â'r mater dan sylw.

11.5 Cyn gwneud cais i dribiwnlys cyflogaeth (neu o fewn 28 diwrnod i'w gyflwyno), gall person anabl ofyn am wybodaeth sy'n berthnasol i'w hawliad oddi wrth y sawl y gwneir yr hawliad yn ei erbyn. Gelwir hyn yn 'weithdrefn yr holiadur'. Ceir ffurf safonol ar holiadur (DL56) a llyfryn cysylltiedig sy'n esbonio sut y mae'r weithdrefn yn gweithio (gweler Atodiad B am fanylion).

11.6 Pan wnaed cais i dribiwnlys cyflogaeth, bydd swyddog cymodi o'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn ceisio datrys yr anghydfod heb wrandawiad tribiwnlys. Fodd bynnag, os daw gwrandawiad yn angenrheidiol – a chadarnheir y cais – gall y tribiwnlys:

- **[a 17A(2)]** ddatgan hawliau'r person anabl (y ceisydd), a'r person arall (yr atebydd) mewn perthynas â'r cais.
- gorchymyn i'r atebydd dalu iawndal i'r ceisydd
- argymell bod yr atebydd yn cymryd camau rhesymol i atal neu leihau'r effaith andwyol dan sylw, o fewn cyfnod penodedig.

11.7 **[a 17A(4)]** Mae'r Ddeddf yn caniatáu i iawndal am niwed i deimladau gael ei ddyfarnu p'un a ddyfernir iawndal arall ai peidio.

11.8 **[a 17A(5)]** Dywed y Ddeddf hefyd os yw atebydd yn methu â chydymffurfio ag argymhelliad tribiwnlys cyflogaeth, heb gyfiawnhad rhesymol, y gall y tribiwnlys:

- gynyddu'r iawndal sydd i'w dalu, neu
- gorchymyn i'r atebydd dalu iawndal os na wnaeth gorchymyn o'r fath yn gynharach.

11.9 Rhestrir ffynonellau o wybodaeth ynglŷn â sut i wneud cais i dribiwnlys cyflogaeth yn Atodiad B.

Darpariaethau eraill ar gyfer Rhan 2 o'r Ddeddf

Darpariaethau gwrthosgoi

11.10 **[Atod 3A, Rhan 1]** Yn gyffredinol, ni all person anabl ildio ei hawliau (na dyletswyddau sefydliad crefft na chorff cymwysterau) o dan y Ddeddf. Dywed y Ddeddf fod unrhyw un o delerau contract yn 'ddi-rym' (hy yn annilys):

- os yw gwneud y contract yn anghyfreithlon o dan Ran 2 am ei fod yn cynnwys y teler
- os yw'r teler wedi'i gynnwys i hyrwyddo gweithred sydd ynddo'i hun yn anghyfreithlon o dan Ran 2, neu
- mae'r teler yn darparu ar gyfer gweithred sy'n anghyfreithlon o dan Ran 2.

11.11 Ni ddylai sefydliadau crefft na chyrff cymwysterau gynnwys mewn cytundeb unrhyw ddarpariaeth gyda'r bwriad o osgoi rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, neu o atal rhywun rhag cyflawni rhwymedigaethau. Felly, ni ddylid defnyddio cytundeb i geisio cyfiawnhau triniaeth lai ffafriol na thybio bod addasiad yn afresymol. Mae hyd yn oed rhannau o gytundebau sy'n cael effaith o'r fath yn anfwriadol yn anorfodadwy os ydynt yn cyfyngu ar weithredu Rhan 2. Fodd bynnag, fel yr esboniwyd ym Mhennod 10, mae trefniadau arbennig yn cwmpasu prydlesi a chytundebau eraill a allai gyfyngu ar y gallu i wneud addasiadau i safleoedd.

Cytundebau cyfaddawdu

11.12 **[Atod 3A, Rhan 1]** Effaith darpariaethau'r Ddeddf hefyd yw gwneud tymor contract yn anorfodadwy os yw'n atal rhywun rhag gwneud cais i dribiwnlys cyflogaeth o dan Ran 2, neu hawliad i lys sirol/llys y siryf o dan Bennod 2A o Ran 4, neu os bydd yn eu gorfodi i beidio â pharhau â chais neu hawliad o'r fath (gweler paragraffau 11.3 ac 11.24). Mae eithriad cyfyngedig i'r egwyddor hon sy'n ymwneud â chytundebau setlo mewn perthynas â hawliadau Rhan 2 a luniwyd gan swyddog cymodi ACAS, neu a luniwyd o dan amgylchiadau lle mae'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

- mae'r person anabl wedi cael cyngor gan gynghorydd annibynnol perthnasol ynglŷn â thelerau ac effeithiau'r cytundeb, yn enwedig o ran ei effaith ar ei allu i wneud cais i dribiwnlys
- mae gan y cynghorydd gontract yswiriant neu indemniad a ddarperir ar gyfer aelodau o broffesiwn neu gorff proffesiynol
- mae'r cytundeb yn ysgrifenedig, yn ymwneud â'r cais, yn nodi'r cynghorydd ac yn dweud bod yr amodau hyn wedi'u bodloni.

[Atod 3A, Rhan 1] Yn hyn o beth mae'r Ddeddf yn diffinio'r amgylchiadau lle mae person yn 'gynghorydd annibynnol perthnasol' at y diben hwn.

Amrywio contractau

11.13 **[Atod 3A, para 3]** Gall person anabl sydd â budd mewn contract sy'n cynnwys teler o'r math a nodir ym mharagraff 11.10 wneud cais i lys sirol neu, yn yr Alban, lys y siryf, am orchymyn yn dileu neu'n addasu'r teler hwnnw.

Cytundebau ar y cyd a rheolau ymgymeriadau

11.14 **[Atod 3A, Rhan 2]** Ceir darpariaethau gwrthosgoi yn y Ddeddf hefyd sy'n ymwneud â thelerau cytundebau ar y cyd, a rheolau a wneir gan sefydliadau crefft neu gyrff cymwysterau sy'n gymwys i bob un neu unrhyw un o aelodau neu ddarpar aelodau'r sefydliad, neu (yn ôl y digwydd) i bob un neu unrhyw un o'r bobl y mae corff wedi rhoi cymwysterau iddynt, neu sy'n ceisio ennill cymwysterau ganddo.

11.15 Dywed y Ddeddf fod unrhyw deler neu reol o'r fath yn ddi-rym:

- os yw gwneud y cytundeb ar y cyd yn anghyfreithlon o dan Ran 2 am fod y teler wedi'i gynnwys
- os cynhwysir y teler neu'r rheol er mwyn hyrwyddo gweithred sydd ynddi'i hun yn anghyfreithlon o dan Ran 2, neu
- os yw'r teler neu'r rheol yn darparu ar gyfer gweithred sy'n anghyfreithlon o dan Ran 2.

11.16 Nid oes gwahaniaeth a luniwyd y cytundeb ar y cyd, neu'r rheol, cyn neu ar ôl i'r darpariaethau hyn ddod i rym – gellir herio'r teler neu'r rheol dan sylw o dan y Ddeddf o hyd. Hefyd, pan fydd y darpariaethau hyn yn gymwys, gall pobl anabl benodol ofyn i dribiwnlys cyflogaeth wneud datganiad bod y teler neu'r rheol wahaniaethol yn ddi-rym os credant y gall effeithio arnynt yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn nodi pa bobl anabl a all wneud cais o'r fath.

Datrys anghydfodau o dan Bennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf

Cyflwyniad

11.17 Mae'r rhan hon o'r bennod yn esbonio'r hyn sy'n digwydd os bydd rhywun yn gwneud cwyn yn erbyn corff cymwysterau cyffredinol, a sut y gall y cam gael ei unioni. Mae hefyd yn esbonio sut y gellir gweithredu i unioni unrhyw achos o wahaniaethu a gafwyd.

Datrys anghydfodau

11.18 Mae'n arfer da (ac yn ofyniad cyfreithiol o dan y Rheolau Gweithdrefn Sifil yng Nghymru a Lloegr) i geisio datrys anghydfod heb gymryd camau cyfreithiol. Felly, efallai y bydd achwynwyr am godi cwynion yn uniongyrchol gyda chyrff cymwysterau cyffredinol cyn cymryd camau cyfreithiol. Bydd gan lawer o gyrff cymwysterau cyffredinol weithdrefnau cwynion a fydd yn helpu i ddatrys anghydfodau yn gyflym.

11.19 Mae'n rhaid i gyrff cymwysterau cyffredinol wneud addasiadau rhesymol i unrhyw weithdrefnau cwynion mewnol i atal person anabl rhag bod o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Bydd methiant i wneud hynny ynddo'i hun yn gyfystyr â thorri'r gyfraith.

11.20 Felly, er enghraifft, mae'n debygol o fod yn addasiad rhesymol i gorff cymwysterau cyffredinol ganiatáu i berson anabl ag anawsterau cyfathrebu gael cymorth i wneud datganiad ysgrifenedig am gŵyn y mae'n dymuno ei gwneud (megis drwy roi cymorth iddo drwy barti niwtral). Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall fod yn rhesymol caniatáu i berson anabl ag anableddau dysgu ddod ag aelod o'r teulu neu ffrind i gyfarfod, neu gyfathrebu â rhywun dall neu â nam ar y golwg mewn fformat addas.

11.21 Er ei fod yn arfer da, fel y nodwyd uchod, i geisio datrys anghydfodau'n fewnol lle y bo modd, efallai y bydd achosion eithriadol pan na fydd hyn yn ymarferol nac yn briodol.

Cymodi

Deddf Cydraddoldeb 2006

11.22 O dan y Ddeddf mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bwerau i sefydlu gwasanaeth cymodi annibynnol ar gyfer anghydfodau sy'n codi o dan Ran 4 o'r Ddeddf i hyrwyddo datrys anghydfodau heb fynd â'r mater gerbron llys ac mae wedi gwneud hynny. Mae cymodi ar gael yn lleol ledled y wlad, a gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gyfeirio anghydfodau at gymodwr os yw'r achwynydd a'r corff cymwysterau cyffredinol yn cytuno i hyn. Nid oes gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bwerau i orfodi setliad ar y naill barti na'r llall.

11.23 Nid yw cytuno i gymryd rhan yn y broses gymodi yn atal achwynydd rhag dwyn achos gerbron llys. Ceir estyniad o dri mis i'r terfyn amser ar gyfer dwyn achos llys os dechreuodd y broses gymodi o fewn chwe mis i'r weithred wahaniaethol. Ni ellir defnyddio unrhyw wybodaeth a ddatgelir i gymodwr yn ystod y broses gymodi mewn unrhyw achos llys dilynol heb ganiatâd y sawl a'i datgelodd.

Gwneud hawliad o dan Bennod 2A o Ran 4 o'r Ddeddf

11.24 **[a 31ADA ac OS/2007/2405]** Dywed y Ddeddf y gall unigolyn sy'n credu bod corff cymwysterau cyffredinol wedi gwahaniaethu yn ei erbyn neu sydd wedi aflonyddu arno ddwyn achos sifil. Caiff yr achos hwn ei ddwyn mewn Llys Sirol (yng Nghymru a Lloegr) neu Lys y Siryf (yn yr Alban). Gellir hefyd ddwyn achos tebyg yn erbyn person sydd wedi cynorthwyo rhywun arall i gyflawni gweithred anghyfreithlon. Mae'n rhaid cyflwyno hawliad o fewn chwe mis i'r achos honedig o wahaniaethu. Os bu proses barhaus o wahaniaethu dros gyfnod, mae'r chwe mis yn dechrau ar ddyddiad y weithred wahaniaethol ddiwethaf. Mae gan y llys ddisgresiwn i ganiatáu i hawliadau fynd rhagddynt ar ôl cyfnod y terfyn amser o chwe mis, os penderfyna ei bod yn gyfiawn ac yn deg gwneud hynny.

11.25 Os na ellir datrys cwyn a bod llys wedi ei gwrando ac wedi penderfynu arni, gall y llys:

- ddatgan hawliau'r person anabl (hawlydd yng Nghymru a Lloegr a phleintydd yn yr Alban) a'r person arall (diffynnydd yng Nghymru a Lloegr ac yn yr Alban) mewn perthynas â'r hawliad (h.y. gwneud datganiad o wahaniaethu)
- gorchymyn i'r diffynnydd dalu iawndal, gan gynnwys iawndal am niwed i deimladau, i'r hawlydd/pleintydd
- gosod gwaharddeb (yng Nghymru a Lloegr) neu offeryn penodol neu waharddeb (yn yr Alban) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cymwysterau cyffredinol gymryd camau cadarnhaol neu atal y corff cymwysterau cyffredinol rhag ymgymryd ag unrhyw weithred wahaniaethol eto yn y dyfodol.

Rhestrir ffynonellau o wybodaeth ynglŷn â sut i wneud cais i'r llysoedd yn Atodiad B.

Gorfodi darpariaethau penodol o dan Ran 2 o'r Ddeddf

11.26 Hefyd, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ymwneud yn uniongyrchol â gorfodi darpariaethau Rhan 2 ynglŷn â'r canlynol:

- cyfarwyddo neu bwyso ar bobl eraill i weithredu'n anghyfreithlon (gweler paragraff 3.24)
- hysbysebion gwahaniaethol (gweler paragraffau 3.25 a 3.28).

11.27 **[a 25(2) Deddf Cydraddoldeb 2006]** Dim ond y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a all ddwyn achos mewn perthynas â'r materion hyn. Pan fydd yn gwneud hynny, gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol geisio:

- datganiad gan dribiwnlys cyflogaeth ynghylch a dorrwyd y gyfraith
- gwaharddeb gan Lys Sirol (neu, yn yr Alban, orchymyn gan Lys y Siryf) yn atal rhagor o achosion o dorri'r gyfraith.

11.28 Dim ond os yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cael datganiad gan dribiwnlys cyflogaeth fod gweithred anghyfreithlon wedi digwydd y gall wneud cais am waharddeb neu orchymyn, a hynny dim ond os ymddengys i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod gweithred anghyfreithlon arall yn debygol o ddigwydd oni chaiff y person dan sylw ei atal.

Atodiad A: Ystyr anabledd

Mae'r atodiad hwn wedi'i gynnwys i helpu pobl i ddeall pwy a gwmpesir gan y Ddeddf. Ceir hefyd gyhoeddiad gan y Llywodraeth, 'Guidance on matters to be taken into account in determining questions relating to the definition of disability'.

Pryd y mae person yn anabl?

Mae gan berson anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Beth am bobl nad ydynt yn anabl mwyach?

Caiff pobl sydd wedi bod yn anabl yn ôl y diffiniad eu diogelu rhag gwahaniaethu hyd yn oed os ydynt wedi gwella.

Beth mae 'nam' yn ei gwmpasu?

Mae'n cwmpasu namau corfforol neu feddyliol; mae'r rhain yn cynnwys namau ar y synhwyrau, megis y rhai sy'n effeithio ar olwg neu glyw.

A gwmpesir pob math o nam meddyliol?

Bwriedir i'r term 'nam meddyliol' gwmpasu amrywiaeth mawr o namau sy'n ymwneud â gweithredu meddyliol, gan gynnwys yr hyn a elwir yn aml yn anableddau dysgu.

Beth yw effaith andwyol 'sylweddol'?

Mae effaith andwyol sylweddol yn rhywbeth sy'n fwy nag effaith fach neu ddibwys. Mae'r gofyniad bod yn rhaid i effaith fod yn sylweddol yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredinol o anabledd fel cyfyngiad sy'n mynd y tu hwnt i wahaniaethau normal mewn gallu a geir ymhlith pobl.

Beth yw effaith 'hirdymor'?

Effaith hirdymor nam yw un:

- sydd wedi parhau o leiaf 12 mis, neu
- y mae'n debygol o barhau o leiaf 12 mis, neu
- y mae'n debygol o barhau am weddill oes y sawl yr effeithir arno.

Felly byddai effeithiau nad ydynt yn rhai hirdymor yn cynnwys colli symudedd ar ôl torri coes neu fraich sy'n debygol o wella o fewn 12 mis ac effeithiau heintiadau dros dro, y byddai rhywun yn debygol o wella ohonynt o fewn 12 mis.

Beth os bydd effeithiau yn mynd ac yn dod dros gyfnod?

Os bydd nam yn cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau arferol o ddydd i ddydd ond bod yr effaith honno yn peidio, trinnir yr effaith sylweddol fel un barhaus os yw'n debygol o godi eto; hynny yw os yw'n fwy tebygol na pheidio y bydd yr effaith yn codi eto.

Beth yw 'gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'?

Mae'r rhain yn weithgareddau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymgymryd â hwy yn weddol reolaidd a mynych. Ni fwriedir i'r term gynnwys gweithgareddau sy'n arferol i berson penodol neu grŵp penodol o bobl yn unig, megis chwarae offeryn cerddorol, neu chwaraeon, i safon broffesiynol neu ymgymryd â thasg

arbenigol. Fodd bynnag, byddai rhywun yr effeithir arno mewn ffordd arbenigol o'r fath ond yr effeithir arno hefyd mewn gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd wedi ei gwmpasu gan y rhan hon o'r diffiniad. Yr hyn sy'n profi a yw nam yn effeithio ar weithgareddau arferol o ddydd i ddydd yw p'un a yw'n effeithio ar un o'r categorïau cyffredinol o alluedd a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf, sef:

- symudedd
- deheurwydd llaw
- cydsymud corfforol
- ymataliaeth
- y galli i godi, gario neu fel arall symud gwrthrychau pob dydd
- lleferydd, clyw neu olwg
- cof neu'r gallu i ganolbwyntio, dysgu neu ddeall, neu
- canfyddiad o'r risg o berygl corfforol.

Beth am driniaeth?

Efallai fod rhywun â nam yn cael triniaeth feddygol neu driniaeth arall sy'n lleihau neu'n dileu'r effeithiau (ond nid y nam). Mewn achosion o'r fath, anwybyddir y driniaeth a chymerir bod y nam yn cael yr effaith y byddai wedi ei chael heb driniaeth o'r fath. Nid yw hyn yn gymwys os yw effeithiau andwyol sylweddol yn annhebygol o godi eto hyd yn oed os yw'r driniaeth yn dod i ben (h.y. bod y nam wedi gwella).

A yw hyn yn cynnwys pobl sy'n gwisgo sbectol?

Nac ydyw. Yr unig eithriad i'r rheol ynglŷn ag anwybyddu effeithiau triniaeth yw gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd. Yn yr achos hwn, dylid ystyried yr effaith tra bo'r person yn gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd.

A gwmpesir pobl ag afluniadau?

Cwmpesir pobl ag afluniadau difrifol o dan y Ddeddf. Nid oes angen iddynt ddangos bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol ar eu gallu i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

A oes unrhyw bobl eraill sy'n cael eu trin yn awtomatig fel pobl anabl o dan y Ddeddf?

Trinnir unrhyw un â HIV, canser neu sglerosis ymledol yn awtomatig fel person anabl o dan y Ddeddf. Hefyd, mae pobl sydd wedi eu cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall, neu sydd wedi eu hardystio'n ddall neu'n rhannol ddall gan offthalmolegydd ymgynghorol yn cael eu trin yn awtomatig fel pobl anabl o dan y Ddeddf . Caiff pobl nad ydynt wedi eu cofrestru nac wedi eu hardystio'n ddall neu'n rhannol ddall eu cwmpasu gan y Ddeddf os gallant brofi eu bod yn bodloni diffiniad y Ddeddf o anabledd.

Beth am bobl sy'n gwybod y bydd eu cyflwr yn gwaethygu dros amser?

Mae cyflyrau sy'n gwaethygu yn gyflyrau sy'n debygol o newid a datblygu dros amser. Ymhlith yr enghreifftiau a roddir yn y Ddeddf mae canser, sglerosis ymledol, nychdod cyhyrol a heintiad HIV. Pan fydd gan rywun gyflwr sy'n gwaethygu caiff ei gwmpasu gan y Ddeddf o'r eiliad y canfyddir y cyflwr yn achos canser, HIV a sglerosis ymledol. Fel arall, cwmpesir cyflwr sy'n gwaethygu os yw'r cyflwr yn arwain at nam sy'n cael rhyw effaith ar y gallu i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd, er nad yw'n cael effaith

sylweddol, ac os yw'r nam hwnnw yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu o'r fath yn y pen draw.

Beth am bobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall?

[OS 2003/712] Mae pobl sydd wedi eu cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall, neu sydd wedi eu hardystio'n ddall neu'n rhannol ddall gan offthalmolegydd ymgynghorol yn cael eu trin yn awtomatig fel pobl anabl o dan y Ddeddf. Caiff pobl nad ydynt wedi eu cofrestru nac wedi eu hardystio'n ddall neu'n rhannol ddall eu cwmpasu gan y Ddeddf os gallant brofi eu bod yn bodloni diffiniad y Ddeddf o anabledd.

A gwmpesir pobl â chyflyrau genetig?

Os nad yw cyflwr genetig yn cael effaith ar allu rhywun i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd, ni chaiff ei gwmpasu. Nid yw diagnosis ynddo'i hun yn golygu bod rhywun yn bodloni'r diffiniad. Os yw'r cyflwr yn gwaethygu, yna mae'r rheol ynglŷn â chyflyrau sy'n gwaethygu yn gymwys.

A oes unrhyw gyflyrau wedi'u heithrio'n benodol o'r hyn a gwmpesir gan y Ddeddf?

Oes. Dylid ystyried nad yw rhai cyflyrau penodol yn gyfystyr â namau at ddibenion y Ddeddf, sef:

- bod yn gaeth i alcohol, nicotin, neu unrhyw sylwedd arall (ac eithrio o ganlyniad i ragnodi'r sylwedd yn feddygol) neu'n ddibynnol arnynt
- rhinitis alergaidd tymhorol (e.e. clefyd y gwair), ac eithrio pan fydd yn gwaethygu effaith cyflwr arall
- tuedd i roi pethau ar dân
- tuedd i ddwyn
- tuedd i gam-drin eraill yn gorfforol neu'n rhywiol
- ymddygiad ymarddangosol
- voyeuriaeth.

Hefyd, trinnir afluniadau sy'n cynnwys tatŵ (nad yw wedi'i ddileu), tyllu'r corff am resymau anfeddygol, neu gysylltu rhywbeth drwy dyllu o'r fath, fel pethau nad ydynt yn cael effaith andwyol sylweddol ar allu rhywun i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Atodiad B: Rhagor o wybodaeth

Codau ymarfer, copïau o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a rheoliadau

Mae codau ymarfer a chanllawiau cysylltiedig ar gyfer Rhan 2 (y Cod hwn yn ogystal â'r **Code of Practice on Employment and Occupation**), Rhan 3 (**Code of Practice – Rights of Access: services to the public, public authority functions, private clubs and premises**), Rhan 4 (y Cod hwn a **Code of Practice: Post-16**) a Rhan 5A (**The Duty to Promote Disability Equality: Statutory Code of Practice**) ar gael drwy'r Llyfrfa ar:

Ffôn: **0870 600 5522**
Ffacs: **0870 600 5533**
E-bost: **customer.services@tso.co.uk**
Gwefan: **www.tso.co.uk**

(Mae'r **Code of Practice for Schools** ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – gweler y clawr cefn am fanylion cyswllt.)

Canllawiau ar wneud hawliad

Gellir cael ffurflenni cais am dribiwnlys cyflogaeth gan swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith a swyddfeydd Cyngor ar Bopeth. Mae'r Gwasanaeth Llys hefyd yn paratoi gwybodaeth am ddechrau hawliadau yn y llysoedd sirol yng Nghymru a Lloegr sydd ar gael yn:

www.hmcourts-service.gov.uk

Yn yr Alban, mae gwybodaeth am ddechrau hawliadau yn llysoedd y siryf ar gael ar-lein yn:

www.scotcourts.gov.uk/sheriff/index.asp

Canllawiau ar gynllun adeiladu

Mae copïau o BS8300 'Designing Buildings and their approaches to meet the access needs of disabled people' ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig:

Ffôn: **020 8996 9002**
Ffacs: **020 8996 7001**
Gwefan: **www.bsi-global.com**

Archwiliadau o fynediad

Mae'r Gofrestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr Mynediad yn darparu cronfa ddata o archwilwyr mynediad cofrestredig.

Ffôn: **020 7234 0434**
Ffacs: **020 7357 8183**
Minicom: **020 7357 8182**
E-bost: **info@nrac.org.uk**
Gwefan: **www.nrac.org.uk**

Sicrhau y gellir defnyddio gwefannau

Mae pobl anabl yn defnyddio amrywiaeth mawr o galedwedd a meddalwedd arbenigol i ddefnyddio cyfrifiaduron. Mae'n bwysig bod gwefannau wedi eu cynllunio i gydweddu â hyn. Gall gwefannau hefyd ymgorffori 'nodweddion mynediad', megis dewis maint y ffont neu gynlluniau lliw.

Gall Canolfan Mynediad ar y We ar-lein RNIB roi rhagor o wybodaeth am gynllunio a gwerthuso gwefannau.

Ffôn: **020 7391 2178**
E-bost: **webaccess@rnib.org.uk**
Gwefan: **www.rnib.org.uk**

Iechyd a diogelwch

Mae'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am reoleiddio bron bob risg i iechyd a diogelwch sy'n codi o weithgarwch yn y gwaith ym Mhrydain.

Ffôn: **0870 154 5500**
Ffacs: **0292 085 9260**
Minicom: **0292 080 8537**
E-bost: **hseinformationservices@natbrit.com**
Gwefan: **www.hse.gov.uk**

Ffynonellau eraill o wybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu yn gallu helpu cyflogwyr ac unigolion drwy roi gwybodaeth am ddeddfwriaeth ac arferion a gweithdrefnau cysylltiadau diwydiannol. Mae ganddynt wasanaeth Llinell Gymorth a gellir cysylltu â hwy ar:

Ffôn: **08457 474 747**
Ffôn Testun: **08456 061 600**
Gwefan: **www.acas.org.uk**

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu gwybodaeth a chanllawiau ar y Ddeddf Diogelu Data a'r codau ymarfer sy'n gysylltiedig â hi.

Ffôn: **01625 545 745**
Ffacs: **01625 524 510**
E-bost: **mail@ico.gsi.gov.uk**
Gwefan: **www.informationcommissioner.gov.uk**

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cafodd y Cod ei ddrafftio'n wreiddiol gan y Comisiwn Hawliau Anabledd a ddaeth, o 1 Hydref 2007, yn rhan o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth amdanom neu gysylltu
â ni ewch i'n gwefan yn :
www.equalityhumanrights.com
neu drwy gysylltu ag un o'n llinellau cymorth isod.

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Cymru
Ffon: 08456 048 810
Ffôn Testun: 08456 048 820
Ffacs: 08456 048 830
9am–5pm, dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio ar ddydd Mercher 9am–8pm

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Lloegr
Ffon: 08456 046 610
Ffôn Testun: 08456 046 620
Ffacs: 08456 046 630
9am–5pm, dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio ar ddydd Mercher 9am–8pm

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Yr Alban
Ffon: 08456 045 510
Ffôn Testun: 08456 045 520
Ffacs: 08456 045 530
9am–5pm, dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio ar ddydd Mercher 9am–8pm

(h) Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Mai 2008

ISBN 978 1 84206 049 0